ADOLYGIAD BLYNYDDOL A
DATGANIADAU ARIANNOL
2019-20

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# ADOLYGIAD BLYNYDDOL

## BLWYDDYN EITHRIADOL.

ERS 1884.



# ADOLYGIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL

2019 - 20

ERS 1884


| | |
|---|---|
| 04 | RHAGARWEINIAD |
| 07 | EIN STRATEGAETH |
| 11 | ADDYSGU A DYSGU |
| 18 | YMCHWIL AC IDDO EFFAITH |
| 20 | UCHAFBWYNTIAU |
| 32 | CIPOLWG AR Y BRIFYSGOL |
| 36 | CYMUNED |
| 40 | POBL A DIWYLLIANT |
| 45 | LLYWODRAETHU |
| 58 | ADOLYGIAD STRATEGOL |
| 62 | ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL |
| 64 | DATGANIADAU ARIANNOL |
| 100 | DATGANIAD BUDD CYHOEDDUS |



# YMRWYMIAD DIWYRO YN YSTOD BLWYDDYN

## IS-GANGHELLOR, YR ATHRO IWAN DAVIES



**BETH YW DIBEN PRIFYSGOLION YN YR OES HON O DARFU AC AFLONYDDU BYD-EANG, ONI BAI EU BOD YN YMROI I GEISIO'R GWIRIONEDD A'I HYRWYDDO? FEL IS-GANGHELLOR, FY HER I YW DANGOS SUT Y GALL EIN PRIFYSGOL OLEUO AC YMATEB I'R HYN Y MAE'R BYD A CHYMRU YN EI GEISIO GANDDI.**

Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn oes o anoddefgarwch p'un a gaiff hynny ei amlygu trwy ffwndamentaliaeth eithafol neu hiliaeth, neu ymosodiadau ar arbenigwyr a newyddion ffug yn cael ei ledaenu'n ddiymatal. Mae hefyd wedi bod yn hanfodol mewn blwyddyn o gynnwrf ac ansicrwydd allanol sydd wedi cynnwys problemau'n ymwneud â recriwtio myfyrwyr yn ein marchnadoedd traddodiadol, pryderon ynglŷn â chyllido pensiynau staff prifysgol yn y dyfodol, cynllunio ar gyfer BREXIT, yr angen am fesurau er mwyn arbed costau, a'r pandemig Covid-19 sydd wedi trawsnewid y dirwedd addysg uwch ac wedi ein gorfodi i gyd i weithio'n wahanol ac ailasesu ein blaenoriaethau a'n ffyrdd o weithio.

Rwyf am dalu teyrnged i'r ffordd y mae Prifysgol Bangor fel cymuned wedi ymateb i'r heriau hyn yn ystod cyfnod hynod o anodd. Mae staff a myfyrwyr wedi dangos ymrwymiad diwyro ac wedi addasu i ffyrdd newydd o weithio gyda phwrpas cyffredin. Dylai pawb ym Mhrifysgol Bangor fod yn falch o'u cyfraniad at sicrhau y bydd ein prifysgol yn dod trwy'r argyfwng coronafeirws yn gryfach ac yn fwy gwydn nag o'r blaen.

Mae'r byd wedi newid ac mae trefn y byd yn cael ei throi wyneb i waered. Mae poblyddiaeth ar gynnydd. Mae cynhesu byd-eang a gwastraff byd-eang yn peryglu'r ddaear. Mae'r chwyldro digidol a'r cynnydd mewn deallusrwydd artiffisial yn creu ansicrwydd ar y naill law a chyfle i fyd gwaith y dyfodol ar y llaw arall. Mae'r datblygiadau hyn yn arwain at newidiadau sylweddol i swyddi, i natur y tasgau i'w cyflawni, ac i'r sgiliau sy'n angenrheidiol i wneud hynny.

Felly, beth yw'r camau allweddol sy'n rhaid i Brifysgol Bangor, fel prifysgol sy'n rhoi lle canolog i ymchwil, eu rhoi ar waith mewn ymateb i'r cyd-destun byd-eang hwn?

Mae addysgu ysbrydoledig ar sail ymchwil sy'n paratoi myfyrwyr at ansicrwydd yn hollbwysig. Mae addysgu ar sail ymchwil yn adlewyrchu cyfraniad prifysgolion at greu gwybodaeth newydd. Mae'r cyfuniad o ddealltwriaeth bersonol, ddofn a medrusrwydd technegol yn gyfuniad pwerus sy'n cynnal cymdeithas greadigol ac arloesol.

Mae'r llif blynyddol o raddedigion medrus sydd wedi eu harfogi â'r galluoedd hyn yn adnewyddu rhagoriaeth dechnegol cymdeithas a'i bywiogrwydd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn barhaus. Bydd hyn hyd yn oed yn fwy arwyddocâd ar ôl Covid-19.

Dyna pam mae datblygu'r meddwl creadigol yn elfen mor bwysig ym mhrofiad ein myfyrwyr.

Mae ymchwil ac arloesi trawsnewidiol a sbardunir gan effaith yn nodweddion pwysig ym Mhrifysgol Bangor. Mae prifysgol sydd â chysylltiadau byd-eang yn gweithredu fel 'ffenestr' i'r rhanbarth ac yn datblygu ac yn gwella ei delwedd a'i henw da yn y byd ehangach. Mae'n bwysig i ni ailafael yn ein strategaeth ryngwladoli gydag egni. Gall hyn fod o fudd i ddatblygiad y rhanbarth mewn sawl ffordd: cysylltu pobl o bob cwr o'r byd â'r rhanbarth, a gall hyn weithredu fel cyfrwng i gydweithredu yn y dyfodol; denu ymchwilwyr o bedwar ban byd a fydd yn cyfrannu at ddatblygu technolegau newydd a all arwain at sefydlu cwmnïau deillio newydd, arloesol; a gweithredu fel ysgogiad i fuddsoddiad rhyngwladol wrth i gwmnïau dyfu o amgylch meysydd arbenigedd rhyngwladol.

Mae presenoldeb Prifysgol Bangor yn rhanbarth Gogledd Cymru yn gweithredu fel magned gwirioneddol i ddoniau. Gall hyn fod ar ffurf myfyrwyr, ond hefyd staff academaidd, staff ymchwil a staff y gwasanaethau proffesiynol sy'n dod i weithio yn y sefydliad.

Lle gwelir arbenigedd ymchwil y brifysgol yn cydblethu ag arbenigeddau sectorau diwydiant lleol, mae hyn yn creu 'canolbwynt' pwerus ar gyfer gweithgaredd arloesi.

Gall Prifysgol Bangor, gyda gallu cynyddol i beri effaith economaidd, ddefnyddio ei chryfder ymchwil, cynlluniau cydweithio â chyflogwyr, a phartneriaethau byd-eang, i sicrhau cyfraddau cyflogadwyedd uwch ymysg ein myfyrwyr yn gyffredinol.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i dalu sylw manwl i'n cymunedau. Mae cenhadaeth ddinesig Prifysgol Bangor yn hollbwysig yn enwedig fel sefydliad angori. Yn wir, mae ymwneud â'n cymunedau a dangos ein gwerth i gymdeithas yn rhan greiddiol o'n gwaith. Rydym wedi ymrwymo i gynnal perthynas gadarnhaol a pherthnasol â rhanddeiliaid a hynny drwy drefn bedwarplyg - prifysgol, diwydiant, llywodraeth a chymdeithas ddinesig.

Yng Nghymru rydym yn cofio balchder hanesyddol y cymunedau wrth iddynt sefydlu eu prifysgolion. Ym Mangor rydym yn mawrygu cyfraniad y chwarelwyr lleol at sefydlu'r brifysgol ym 1884. Er mwyn cipio dychymyg ein cymunedau yng Nghymru, mae'n rhaid i ni feddu ar yr hyn yr oedd y diweddar Jan Morris yn ei alw yn 'olwg epig ar Gymru' ac ymwneud â'n cymunedau o'r gwaelod, ymhlith y werin bobl.

Mae Prifysgol Bangor yn ymwneud â'n diwylliant a'n hamgylchedd dwyieithog, sy'n bwydo i mewn i fyd amlieithog, amlddiwylliannol. Gellir ystyried hyn yn fath o ficro-gosmopolitaniaeth. Ym Mhrifysgol Bangor rydym wedi gallu bod yn driw i'n traddodiad Cymraeg a gall dros hanner ein staff ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n ein galluogi i fod yn brif ddarparwr addysg uwch cyfrwng Cymraeg yn y byd. Mae hyn yn adlewyrchu traddodiad dwyieithrwydd a welir ar gampysau ledled y byd.

Mae prifysgolion yn sefydliadau sy'n ceisio'r gwirionedd yn yr hyn sydd bellach yn dod yn gymdeithas ôl-wirionedd. Mae Prifysgol Bangor yn sefyll yn rymus yn erbyn unrhyw lithro'n ôl i'r Oesoedd Tywyll, gan ein bod yn bodoli i ddathlu a hyrwyddo goleuedigaeth - gan gysylltu ysgolheictod â dealltwriaeth ddofn.

Is-ganghellor
Yr Athro Iwan Davies





# EIN STRATEGAETH

## CENHADAETH

**Sefydliad cryf a hyderus a gydnabyddir yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel canolfan ragoriaeth am ei bortffolio amrywiol o addysgu ac ymchwil, ac am y profiad unigryw, amlddiwylliannol a chynhwysol y mae'n ei roi i'w staff a'i fyfyrwyr.**

### Dull Strategol

Mae cynllun strategol 2015-2020 yn pennu cyfeiriad i'r sefydliad fel prifysgol hyderus a llwyddiannus sy'n canolbwyntio ar feddwl yn wahanol i adnabod heriau, risgiau a chyfleoedd yn ein holl feysydd busnes. Er mwyn paratoi at y cam nesaf yn natblygiad y brifysgol, mae gwaith ar y gweill i adnewyddu'r cynllun strategol ar gyfer 2021 yng nghyd-destun digynsail ôl-effeithiau'r pandemig byd-eang.

Er bod y brifysgol wedi ymateb i'r heriau gweithredol uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r pandemig, mae wedi ymrwymo i weithredu ymateb strategol cadarn i'r heriau a berir gan yr argyfwng byd-eang a chyrraedd y pen arall yn gryfach fel grym gyriadol addysg uwch ac economi Ngogledd Cymru, yn unol â'n gweledigaeth ar gyfer Prifysgol Bangor sef bod yn Brifysgol Gogledd Cy mru a'r Brifysgol ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n entrepreneuraidd ac yn cael ei harwain gan ymchwil.

Mae pum colofn strategol yn sail i ymateb y brifysgol i'r heriau a achoswyd gan y pandemig:

- *Cynnal a datblygu rhagoriaeth ymchwil*
- *Cynnal a datblygu portffolio cwricwlaidd eang, yn seiliedig ar ymchwil neu ymarfer*
- *Cynnal a datblygu profiad rhagorol i fyfyrwyr*
- *Cynnal a datblygu pobl a thalent*
- *Cynnal a datblygu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd*

# UNIGRYW. AMLDDIWYLLIANNOL. YN GYNHWYSOL.

Mae Prifysgol Bangor yn canolbwyntio ar ddatblygu màs critigol mewn meysydd ymchwil allweddol a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar dwf a bod yn drawsnewidiol, er gwaethaf yr heriau a berir gan y pandemig. Mae ein gweledigaeth yn cynnwys pedair prif elfen:

- Cryfhau a hyrwyddo galluoedd a chapasiti iechyd a lles y brifysgol a'r rhanbarth, gan ganolbwyntio ar ddatblygu ysgol gwyddorau meddygol ac iechyd yng Ngogledd Cymru


- Cryfhau a hyrwyddo'r economi rhanbarthol a chenedlaethol trwy fanteisio ar botensial sylfaen ymchwil y brifysgol, canolbwyntio ar sicrhau budd pellach i'r brifysgol fel rhan o Fargen Twf y Gogledd ac yn sgil ei llwyddiant diweddar mewn archwiliadau gwyddoniaeth ac arloesi

- Cryfhau a hyrwyddo'r gweithlu rhanbarthol a chenedlaethol, sy'n gofyn am ddull gweithredu newydd o gyflwyno hyfforddiant ar sail sgiliau yng ngogledd Cymru, i ymdrin â chanfyddiadau adolygiad o'r amgylchedd addysg uwch a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yng ngogledd-ddwyrain Cymru

- Cryfhau a hyrwyddo diwylliant, iaith a'r celfyddydau perfformio, gan roi cyfle i gydgrynhoi'r cyfleoedd sy'n deillio o'r disgyblaethau hyn a gwneud defnydd llawn o'r manteision sy'n deillio o fuddsoddiadau diweddar mewn asedau diwylliannol, megis Canolfan Celfyddydau ac Arloesi Pontio a'r cyfleusterau newydd yn yr Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau

Yn sgil y pandemig COVID-19, a'i effaith gymdeithasol ac economaidd, mae'r brifysgol wedi dechrau aildrefnu, ailgyfeirio a chyflymu'r gweithgareddau trawsnewidiol sy'n sail i'w hymrwymiad i'r Gymraeg. Y nod yw sicrhau mai Prifysgol Bangor yw'r prif sefydliad ar gyfer darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a bod gan y brifysgol sylfeini cryf i ddatblygu'r dyhead hwn. Bydd y brifysgol yn sicrhau ei bod yn gwreiddio'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn y newidiadau trawsnewidiol sydd ar y gweill ym maes addysgu ac ymchwil. Gwneir hyn mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag agenda'r Gymraeg â thrafodaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ynglŷn ag adferiad cymdeithasol ac economaidd yn sgil Covid-19.












# ADDYSGU A DYSGU

## DYSGU CYFUNOL O ANSAWDD UCHEL YN YSTOD Y PANDEMIG

**Mae'r brifysgol yn cynnig profiad addysgol rhagorol wedi ei bersonoli sy'n galluogi ein myfyrwyr i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a datblygu a gwireddu eu huchelgais.**

Gyda lles a diogelwch ein staff a'n myfyrwyr o'r pwys mwyaf, cafwyd heriau a llwyddiannau sylweddol yn ystod y pandemig digynsail hwn, yn enwedig ymrwymiad ac ymroddiad staff a myfyrwyr ein prifysgol wrth i ni newid i ddysgu cyfunol, gan gyfuno addysgu wyneb yn wyneb, gwaith maes sy'n cadw pellter cymdeithasol a sesiynau ymarferol gyda darpariaeth ar-lein ar gyfer darlithoedd, seminarau a thiwtorialau.

I baratoi at y dull cyflwyno hwn, ac i sicrhau parhad darpariaeth o ansawdd uchel, manteisiodd ein staff addysgu ar gyfres o brojectau ailafael cyflym. Mewn cyd-destun dwyieithog, ac mewn cydweithrediad ag Undeb y Myfyrwyr, a oedd yn ymgynghori â'r myfyrwyr - dywedodd llawer ohonynt wrthym eu bod eisiau elfen wyneb yn wyneb yn eu dysgu - darparodd y projectau hyn y fframwaith ar gyfer dull prifysgol gyfan o gyflwyno dysgu cyfunol a helpu i reoli a pharatoi at ddyfodiad myfyrwyr yn yr hydref.

Yn ffodus, yn gynharach yn 2019/20, roedd y brifysgol wedi datblygu polisi ar ddefnyddio meddalwedd recordio darlithoedd fel adnodd i gefnogi dysgu. Mae recordio darlithoedd wedi bod o fantais mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys caniatáu i fyfyrwyr edrych eto ar wybodaeth, cefnogi amgylchedd addysgu a dysgu cynhwysol, a chefnogi profiad academaidd myfyrwyr yn ystod y pandemig byd-eang.

Mae tiwtoriaid personol ac uwch diwtoriaid wedi darparu cefnogaeth i fyfyrwyr trwy gydol y cyfnod anodd hwn, gan gynnwys monitro ymgysylltiad a phresenoldeb, a chyswllt uniongyrchol â'r rhai nad ydynt yn ymgysylltu, i nodi unrhyw gefnogaeth bellach sydd ei hangen. Buddsoddodd y brifysgol hefyd mewn mwy o gefnogaeth iechyd meddwl i fyfyrwyr, yn cynnwys ei gwasanaeth cwnsela. Yn ogystal, galluogodd cyswllt parhaus ag Undeb y Myfyrwyr ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i'r brifysgol gael gwell rheolaeth dros nifer y myfyrwyr â'r firws Covid-19, a chyfrannodd y gwaith hwn at leihau'r cyfyngiadau yn ninas Bangor.

Mae'r pandemig yn parhau i gynnig her i'r brifysgol a chaiff ei effaith lawn ei ddadansoddi yn 2020/21. Ond ymddengys nad effeithiwyd ar lefelau cwblhau gwaith a chyrhaeddiad myfyrwyr yn y cyfnod cychwynnol. Mae cyfraddau tynnu allan myfyrwyr ychydig yn uwch ond nid yn sylweddol wahanol i flynyddoedd blaenorol.

### Gweithio trwy Covid-19

Wrth i safleoedd a gweithdrefnau gael eu haddasu yn unol â chanllawiau'r pandemig yn ystod y cyfnod clo cyntaf ac wedi hynny, gallai'r brifysgol ymfalchïo yn yr ymdrechion enfawr a wnaed gan yr holl staff i baratoi a gweithredu cynlluniau ar gyfer addysgu a dysgu dan yr amgylchiadau digynsail hyn.

"Roeddem eisiau sicrhau bod pawb a allai gael rhyw elfen o ddysgu wyneb yn wyneb yn gallu manteisio ar hynny, ond roeddem hefyd eisiau bod yn hyblyg a gallu addasu i amgylchiadau oedd yn newid.

"Ar ôl i ni ystyried y dull hyblyg hwn, daeth yn amlwg bod rhaid cefnogi hynny yn defnyddio technoleg a chynnig hyfforddiant, ac roedd gwir angen i ni fod yn greadigol wrth ddod o hyd i'r ffyrdd gorau posib o gyflwyno addysgu a dysgu y tu allan i ddarlithoedd a seminarau a sicrhau bod diogelwch myfyrwyr a staff yn flaenoriaeth."

**Yr Athro Nichola Callow,**
Dirprwy Is-ganghellor Addysgu a Dysgu.








### Paratoi at ddarparu

Un o'r ffyrdd pwysicaf o hwyluso addysgu a dysgu oedd buddsoddi mewn meddalwedd i gefnogi'r ddarpariaeth, ac mae cydweithwyr ar draws yr ysgolion academaidd a'r Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth wedi cydweithio i nodi anghenion buddsoddi cyn dechrau blwyddyn academaidd 2020-21.

Mae rhai o'r buddsoddiadau, e.e., Blackboard Collaborate a Blackboard Ally wedi gwella capasiti ar draws y brifysgol, tra bod buddsoddiadau eraill yn bodloni anghenion mwy pwnc-benodol. Bydd y buddsoddiadau hyn o fudd i addysgu a dysgu ym Mangor yn y dyfodol ac yn helpu i danategu datblygiad dulliau newydd o addysgu.

Fel dywed Mr Paul Wood, Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau TG: "Mae'r gwaith a wnaed i nodi'r gofynion o ran adnoddau newydd i gefnogi addysgu ac i sicrhau bod yr adnoddau presennol ar gael ar gyfer gweithio o bell, wedi ein helpu i ymdrin â heriau tymor byr, ond bydd hefyd yn gwella ein gallu yn y tymor hwy. Er enghraifft, mae Blackboard Ally yn adnodd defnyddiol iawn sy'n helpu staff academaidd i werthuso a gwella hygyrchedd deunyddiau dysgu, a fydd o fudd i fyfyrwyr nawr, ac yn y dyfodol".

Roedd yr ymdrech enfawr gan staff i gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau hyfforddi hefyd yn sail i'r paratoadau ar gyfer addysgu.

Elfen allweddol, ac un a fydd â budd hirhoedlog, fu datblygu porth y brifysgol i adnoddau hyfforddi sy'n cefnogi addysgu a dysgu. Daeth datblygiad y porth â chydweithwyr ynghyd o'r meysydd academaidd, y gwasanaethau proffesiynol ac Undeb y Myfyrwyr. Mae'r porth yn darparu canllawiau thematig (e.e. hygyrchedd, awgrymiadau da, technoleg dysgu) sy'n seiliedig ar gronfa ddata o adnoddau mewnol ac allanol sy'n cynnwys amrywiaeth o themâu pedagogaidd, sesiynau tiwtorial ymarferol a chyngor ar les.

Fel mae Dr Eben Muse a Dr Laura Grange, a gydarweiniodd y project, yn egluro: "Y prif nod oedd sicrhau bod staff yn datblygu'r wybodaeth a'r hyder i ddarparu cymunedau addysgu a dysgu gweithredol o ansawdd uchel, yn cynnwys ymgyfarwyddo â llwyfannau a meddalwedd e-ddysgu a datblygu'r gallu i gynllunio a gweithredu strategaethau addysgu a dysgu ar-lein effeithiol. Yr hyn sy'n wirioneddol dda yw bod rhannu arbenigedd wedi caniatáu i'r cyfleoedd hyfforddi ddatblygu'n organig a gwreiddio ar draws y brifysgol mewn cyd-destun dwyieithog".

Yn y pedwar mis cyntaf ers lansio'r porth, bu mwy na 9,400 o ymweliadau gan dros 600 o ymwelwyr unigryw.

**Y tu hwnt i sefyllfaoedd ar-lein**

Mae dull dysgu cyfunol y brifysgol wedi golygu bod addysgu yn digwydd y tu hwnt i sefyllfaoedd ar-lein, ar y campws ac oddi ar y campws. Oherwydd ymroddiad staff academaidd a staff y gwasanaethau proffesiynol, rydym wedi gweld amrywiaeth o weithgareddau'n cael eu darparu, yn sesiynau ymarferol mewn labordai ac ar y cyfrifiadur ac yn ddosbarthiadau cerdd, gweithdai a theithiau maes.

Meddai Dr Graham Bird, Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol yng Ngholeg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg: *"Mae'r amrywiaeth gyfoethog o weithgareddau addysgu a dysgu y mae myfyrwyr Prifysgol Bangor wedi cymryd rhan ynddynt, yn adlewyrchu ymdrechion enfawr y staff i ddarparu addysgu arloesol o ansawdd uchel. Detholiad bach yn unig yw'r enghreifftiau canlynol, sy'n tynnu sylw at ymdrechion ac arferion da staff Prifysgol Bangor wrth ddarparu addysgu yn y maes ac mewn sesiynau ymarferol.*

*"Bu ffocws ar ddysgu yn yr awyr agored yn yr Ysgol Gwyddorau Naturiol, Ysgol Gwyddorau'r Eigion a'r Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer, a oedd yn benderfynol y dylai'r profiad awyr agored hanfodol hwn barhau mewn modd diogel, er gwaethaf yr heriau. Mae ailadrodd sesiynau gyda grwpiau llai, ynghyd â threfniadau teithio ac addysgu diogel wedi caniatáu i fyfyrwyr israddedig a meistr ymweld â safleoedd maes lleol yn cynnwys, Cwm Idwal, Hafod y Llan a Mynydd Parys.*

*"Mae'r myfyrwyr yn ystyried bod y profiad gwaith maes wedi bod yn amhrisiadwy. Meddai Aysha Cattran, myfyrwraig yn yr Ysgol Gwyddorau Naturiol: "Roedd y daith maes i Gwm Idwal yn fendigedig. Mae dysgu yn yr awyr agored ac edrych ar yr hyn rydym yn ei astudio, yn brofiad hanfodol ac amhrisiadwy. Yn enwedig gan ei fod yn rhoi cyfle unigryw i ni ddod i ddeall y gwaith a chael cyfle i ofyn cwestiynau atodol mewn ffyrdd mwy hamddenol. "Cawsom ein rhannu'n grwpiau llai oherwydd Covid ac rwy'n credu'n wirioneddol bod hynny wedi bod o fantais i ni. Rwy'n dychmygu ei fod wedi gwneud y sesiwn yn fwy personol (nid oeddwn yma'r llynedd yn y cyfnod cyn Covid). Rwy'n credu yn gyffredinol bod llawer o fanteision i ddosbarthiadau llai. Rwy'n credu bod myfyrwyr yn gofyn mwy o gwestiynau pan mae dosbarthiadau'n gallu dod i adnabod ei gilydd yn well a dod yn fwy cyfforddus yng nghwmni ei gilydd. Mae trafodaeth o'r fath yn wych i ddysgu a herio syniadau a barn. Dyma ddau beth fydd yn fuddiol i fi fy hun mi wn. Nid oedd gennyf unrhyw bryderon, ac nid oes gennyf unrhyw bryderon o hyd, na fyddai modd i ni, gyda'n gilydd, newid, gwella a goresgyn oherwydd ei fod er ein budd ni i gyd."*

Mae cael profiad dysgu ymarferol wedi bod yn bwysig yn yr Ysgol Cerddoriaeth, Drama a Pherfformio hefyd, lle gosodwyd y dasg newydd i fyfyrwyr ail a thrydedd flwyddyn sy'n astudio'r modiwl Addysgu Cerddoriaeth yn ei Chyd-destun, i ddysgu ei gilydd i chwarae offeryn cerdd newydd. Rhwng darlithoedd, mae myfyrwyr yn gweithio ar eu gwersi offerynnol mewn parau, naill ai ar-lein neu, os yw eu hofferynnau yn rhai risg isel a'i bod yn ddiogel iddynt wneud hynny, yn yr ystafelloedd ymarfer, gan ddefnyddio system archebu glir.

Mae'r myfyrwyr yn recordio rhai o'r gwersi hyn fel y gall darlithwyr eu harsylwi a darparu adborth yn y darlithoedd. Yn unol â'r ddamcaniaeth mai'r ffordd orau o ddysgu rhywbeth yw ei addysgu i eraill, mae'r dull newydd yn cynnig man cychwyn ar gyfer trafodaethau mewn darlithoedd ac mae hefyd yn ysgogiad ar gyfer hunan-adfyfyrio a datblygiad personol.

Meddai Alys Bailey-Wood, myfyrwraig cerddoriaeth: "Er nad yw'n ddelfrydol bod ein darlithoedd ar-lein, mae'r modiwl Addysgu Cerddoriaeth yn ei Chyd-destun yn rhoi cyfle i ni ddysgu sgiliau ar-lein ac yna eu rhoi ar waith trwy gynnal gwersi un-i-un gyda'n gilydd wyneb yn wyneb."

Mae dull dysgu cyfunol y brifysgol wedi cynnwys addysgu ar y campws mewn sawl maes. Yn bwysig, mae ymgymryd ag addysgu diogel ar y campws a pharatoi cyfleusterau dysgu cymdeithasol defnyddiol yn bosib oherwydd y gwaith a wnaed gan staff ar draws y brifysgol, ac yn arbennig yn yr adrannau Gwasanaethau Eiddo a Champws, Iechyd a Diogelwch a'r Gwasanaethau TG.












# BYD RHITHWIR.

"Roedd rhaid i mi ddod o hyd i ffyrdd newydd o ymgysylltu â myfyrwyr a oedd yn parhau i adlewyrchu ethos gwaith maes daearyddiaeth. Gwnes i feddwl am ddull 'teithiau maes rhithiol' a alluogodd i mi fynd â myfyrwyr i safleoedd na fyddent wedi gallu ymweld â hwy fel arall".

Dr Lynda Yorke

### Gwaith maes rhithiol

Mae myfyrwyr Prifysgol Bangor wedi bod yn gwneud gwaith maes rhithiol, pan na fu'n bosib teithio i safleoedd gwaith maes. Wrth gynhyrchu'r gweithgareddau gwaith maes rhithiol, mae staff wedi bod yn gwneud defnydd arloesol o amrywiaeth o feddalwedd ac adnoddau. Er enghraifft, roedd myfyrwyr sy'n astudio'r modiwl Geoberyglon yn yr Ysgol Gwyddorau Naturiol yn gallu ymgymryd â rhith-daith i Ddyffryn Conwy ac ar hyd arfordir Gogledd Cymru i astudio materion yn ymwneud â risg llifogydd.

Fel eglurodd Dr Lynda Yorke, trefnydd y modiwl: "Roedd rhaid i mi ddod o hyd i ffyrdd newydd o ymgysylltu â myfyrwyr a oedd yn parhau i adlewyrchu ethos gwaith maes daearyddiaeth. Gwnes i feddwl am ddull 'teithiau maes rhithiol' a alluogodd i mi fynd â myfyrwyr i safleoedd na fyddent wedi gallu ymweld â hwy fel arall. Er mwyn ail-greu ein profiadau maes rhyngweithiol arferol, defnyddiais gyfuniad o Google Earth fel y gallai myfyrwyr roi eu hunain yn yr amgylchedd, a StoryMaps i greu stori maes amlgyfrwng i fyfyrwyr weithio drwyddi yn ystod teithiau maes. Gan ddefnyddio Blackboard Collaborate, gwnaethom ail-greu'r hwyl a'r brwdfrydedd sydd fel rheol yn cyd-fynd â'n teithiau maes a'i gyfuno â chasglu data mewn ffordd hollol newydd!"

### Datblygu ymdeimlad o gymuned trwy ddysgu ar-lein

Datblygodd myfyrwyr blwyddyn 1 yn yr Ysgol Seicoleg eu sgiliau ysgrifennu gwyddonol trwy weithdai ar-lein a gyflwynwyd gyda chefnogaeth tîm o hyfforddwyr ôl-radd. Cynlluniwyd y gweithdai i ddysgu sgiliau academaidd nid yn unig trwy gyfarwyddyd, trafodaeth (a cherddoriaeth) fyw, ond hefyd i alluogi myfyrwyr i ymgysylltu â'u cyfoedion. Fel eglurodd Tracey Lloyd, trefnydd y modiwl: "Dangosodd ein tîm o hyfforddwyr ôl-radd gymaint o ymrwymiad, angerdd ac egni mewn amgylchedd mor heriol. Rwy'n sicr hefyd fod y gweithdai ar-lein hyn wedi helpu'r myfyrwyr i gael ymdeimlad o berthyn i gymuned Seicoleg Bangor a hyder i droi eu camerâu ymlaen a chymryd rhan yn eu profiad dysgu.".

### Telerobots

Datblygodd yr Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig ffordd ddyfeisgar fel y gall staff gylchdroi o amgylch dosbarthiadau labordy i ddarparu arweiniad a chefnogaeth i fyfyrwyr, gan gadw at y trefniadau iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â Covid. Fel eglurodd Dr Dave Perkins, Cyfarwyddwr Addysgu a Dysgu'r ysgol. "Mae dosbarthiadau labordy yn rhan hanfodol o'n haddysgu yn yr ysgol ac yn un o'r agweddau ar addysgu yr oeddem yn benderfynol ddal gafael arni. Mae creu telerobotiaid wedi caniatáu i staff weld beth mae ein myfyrwyr yn weithio arno yn y labordai cyfrifiadurol ac electroneg. Maent hefyd wedi caniatáu i ddarpar fyfyrwyr fynd o amgylch ein cyfleusterau a chael ymdeimlad o'r ysgol".

Mae'r gwaith a wnaed gan yr holl staff ledled y brifysgol i ymateb i'r heriau a wynebir oherwydd Covid-19 yn dangos ymrwymiad staff i ddarparu addysgu a dysgu o ansawdd uchel. Meddai'r Is-ganghellor, yr Athro Iwan Davies: "Mae'r gwaith a wnaed i ddatblygu a gweithredu'r holl weithgareddau addysgu ar holl raglenni gradd Prifysgol Bangor yn 2019-20 yn adlewyrchu'r gorau o gymuned y brifysgol ac wedi arwain at syniadau a datblygiadau arloesol a fydd yn helpu i wella ein haddysgu dros y blynyddoedd i ddod."

# YMCHWIL AC IDDO EFFAITH

## YMRWYMIAD

**Ym Mhrifysgol Bangor rydym wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth. Mae ein hacademyddion yn cynnal amrywiaeth eang o ymchwil drawsddisgyblaethol o ansawdd uchel sy'n ein galluogi i helpu i wella bywydau pobl yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.**

Gyda 77% o'n hymchwil yn cael ei ystyried fel ymchwil sy'n arwain y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diwethaf y Deyrnas Unedig, mae ein hymchwil yn chwilio am atebion i rai o broblemau mwyaf heriol y byd - o wella gofal iechyd a lles, dwyieithrwydd a diogelu'r amgylchedd i ddarparu atebion newydd i hyrwyddo'r economi 5G byd-eang a chyfrannu at atebion ynni carbon isel.

Mae'r brifysgol hefyd wedi rhoi hwb i'w hymchwil i gefnogi'r ymdrech ryngwladol i frwydro yn erbyn y pandemig Covid-19 ac mae gwaith arloesol wedi ei wneud gan staff yn yr Ysgol Gwyddorau Naturiol sydd wedi arwain ymdrech y Deyrnas Unedig i fonitro cyfraddau Covid ledled y wlad trwy fesur faint o'r firws a geir mewn dŵr gwastraff. Mae'r gwaith hwn wedi rhoi rhybudd cynnar o gynnydd mewn achosion ac wedi cynorthwyo'r broses o ddosbarthu adnoddau er mwyn ceisio arafu lledaeniad y firws.



**77%**
o'n hymchwil yn cael ei ystyried fel ymchwil sy'n arwain y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diwethaf y Deyrnas Unedig.



# UCHAFBWYNTIAU


2019-2020





## YSGOLORIAETHAU'R





### Ysgoloriaethau'r Gymanwlad

Cafodd yr Ysgol Gwyddorau Naturiol gyllid gan Gomisiwn Ysgoloriaethau'r Gymanwlad i gynnig ysgoloriaethau i'w rhaglen MSc Coedwigaeth Drofannol. Mae hyn yn adeiladu ar hanes o lwyddiant wrth sicrhau cyllid o dan thema Gwyddoniaeth a Thechnoleg gogyfer â Datblygu'r Comisiwn, sy'n anelu at ddatblygu gwybodaeth a sgiliau sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag anghenion penodol gwledydd incwm isel neu ganolig. Trwy'r ysgoloriaethau hyn, mae Bangor yn parhau i ddatblygu ei rhwydwaith rhyngwladol o gyn-fyfyrwyr a llysgenhadon ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg.

### Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Gwybodaeth

Mae Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Gwybodaeth (KESS 2) yn fenter sgiliau uwch i Gymru gyfan o dan adain Prifysgol Bangor ar ran y sector addysg uwch yng Nghymru. Ers 2009 mae wedi darparu cyfleoedd ar gyfer 760 o brojectau PhD a 600 o brojectau Meistr ymchwil ledled Cymru. Mae'n cefnogi cyfleoedd ymchwil ôl-radd sy'n gysylltiedig â chwmni partner a chaiff ei ariannu'n rhannol gan raglen gydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) Llywodraeth Cymru. Trwy gydol y pandemig, mae timau KESS 2 wedi addasu eu dulliau er mwyn galluogi ymchwil wedi ei ariannu i barhau er mwyn cwblhau projectau a galluogi projectau newydd i ddechrau. Cynigiodd symud ar-lein gyfleoedd newydd na fyddent wedi codi fel arall a chafodd llawer o'r rhain eu cofnodi trwy 'Covid Chronicles', menter sydd i'w gweld ar wefan KESS 2 ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

## YMCHWIL COVID-19



### Gwyddonwyr yn cynorthwyo ymchwil Covid

Cyfunodd grŵp o academyddion blaenllaw eu harbenigedd i ddatblygu ffyrdd newydd o fonitro lefelau SARS-Cov-2, y firws sy'n achosi'r salwch Covid-19. Mae'r gwaith yn cyfrannu at waith rhaglenni profi ac olrhain cenedlaethol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru.

Mae gwyddonwyr yn yr Ysgol Gwyddorau Naturiol ac Ysgol Gwyddorau'r Eigion yn cymryd rhan yn y gwaith o dreialu, gwirio a chyflwyno projectau sy'n monitro lefelau Covid-19 mewn dŵr gwastraff mewn cymunedau. Gall y monitro hwn roi rhybuddion cynnar o gynnydd neu ostyngiadau yn SARS-Cov-2, gwybodaeth y gellir ei defnyddio i gynllunio at y galw am welyau ysbyty, er enghraifft.

Mae'r tîm yn cael ei ariannu gan grantiau ymchwil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Chronfa Ymchwil Heriau Byd-eang, Ymchwil ac Arloesi (UKRI), Cronfa Newton a Llywodraeth Cymru, ac maent yn rhannu eu harbenigedd yn rhyngwladol.

# NEWID HINSAWDD A CHADWRAETH

### Fforiwr poblogaidd yn ymuno â'r brifysgol

Ymunodd y cyflwynydd teledu a'r fforiwr, Steve Backshall, â thîm dysgu'r Ysgol Gwyddorau Naturiol yn 2020. Mae Steve Backshall yn adnabyddus am raglenni fel Deadly 60, Expedition a Blue Planet Live, a bydd yn dysgu'r myfyrwyr am gadwraeth, swoleg a'r diwydiant ffilmio bywyd gwyllt. Wrth siarad am ei reswm dros ddewis addysgu yma dywedodd: "Ar ôl bwrw golwg dros lawer o brifysgolion, sylweddolais y buaswn eisiau dod i Brifysgol Bangor, petawn yn cael fy amser eto."

### Uwchgynhadledd Ieuenctid Bangor

Yn sgil Datganiad argyfwng hinsawdd Prifysgol Bangor, cynhaliodd staff academaidd o'r Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol ac Ysgol Gwyddorau'r Eigion uwchgynhadledd ieuenctid gyntaf Bangor ar newid hinsawdd. Daeth dros 100 o blant a phobl ifanc o ysgolion ledled Gogledd Cymru i'r digwyddiad lle gwnaethant gyfarfod ag ymchwilwyr a llunwyr polisi i siarad am bryderon a disgwyliadau plant, a dysgu am wyddoniaeth hinsawdd gan arbenigwyr y Brifysgol.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed ac mae cynlluniau ar y gweill i gynnal mwy o uwchgynhadleddau ieuenctid ym Mangor ar bynciau pwysig eraill, yn cynnwys iechyd meddwl a chyrraedd nod Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr.

### Dull newydd o amddiffyn treftadaeth ddiwylliannol forol

Derbyniodd Hayley Roberts a Tara Smith yn Ysgol y Gyfraith arian gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau a'r Gronfa Ymchwil Heriau Byd-eang 'Rising from the Depths Network' i gydweithio ag aelodau staff ym Mhrifysgol Dar Es Salaam ar broject sy'n archwilio dull newydd o ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol forol Tanzania rhag newid yn yr hinsawdd trwy ei thrin fel blaenoriaeth yng Nghynllun Addasu Cenedlaethol Tanzania. Datblygir cynlluniau addasu cenedlaethol fel rhan o Fframwaith Addasu Cancun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (UNFCCC) i nodi blaenoriaethau addasu tymor canolig a thymor hir mewn gwledydd sy'n datblygu, y gellir cyfeirio cyllid hinsawdd atynt trwy brosesau ariannol UNFCCC.

### Asesu effaith polisïau sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd

Mae Alessio Reghezza ac Yener Altunbaş yn Ysgol Busnes Bangor yn cydweithio â Banc Canolog Ewrop i ymchwilio i sut mae polisïau rheoleiddio sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd yn effeithio ar lif credyd i gorfforaethau sy'n llygru. Yn dilyn Cytundeb Paris, ailddyrannodd banciau Ewropeaidd gredyd oddi wrth gwmnïau sy'n llygru gan nodi effaith fuddiol mentrau polisi gwyrdd. Mae'r newid hwn mewn ymddygiad yn cael ei ysgogi gan well ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac, yn benodol, mae'n cael ei annog gan natur anrhagweladwy risgiau ffisegol a throsiannol. Ymhellach, mae cyfran benthyca banciau Ewropeaidd i gorfforaethau sy'n llygru yn yr Unol Daleithiau wedi lleihau yn dilyn penderfyniad UDA i beidio â chynnal ymrwymiad hinsawdd Paris ym mis Mehefin 2017. Mae gan y canfyddiadau hyn oblygiadau polisi pwysig gan eu bod yn tanlinellu'r rôl ganolog y mae banciau yn ei chwarae mewn polisïau newid hinsawdd effeithiol.

### Rhoi sylw i blastig problemus

Sefydlwyd canolfan ymchwil newydd ym Mhrifysgol Bangor yn 2020 i astudio problem gynyddol gwastraff plastig. Canolfan Ymchwil Plastig Cymru yw'r gyntaf o'i bath yn y wlad ac mae'n dwyn ynghyd amrywiaeth eang o academyddion, myfyrwyr, sefydliadau a diwydiannau. Mae'r projectau sydd ar waith yn cynnwys gwaith yn edrych ar sut mae microbau'n cysylltu eu hunain â phlastigau, presenoldeb microplastigion yn y môr o amgylch y Deyrnas Unedig a datblygu ecosystemau gwlyptir i dynnu gronynnau plastig o'n dyfrffyrdd, ymchwilio i ddewisiadau amgen i becynnu plastig a gwaith arloesol sy'n mapio symudiad microplastigion mewn priddoedd, afonydd a dyfroedd arfordirol, ac effaith plastig ar organebau a chynefinoedd a chreu defnyddiau ar gyfer plastig gwastraff.

### Cyfrannu at nodau cynaliadwyedd y Cenhedloedd Unedig

Rhestrwyd Prifysgol Bangor ymhlith y 70 uchaf o brifysgolion ledled y byd am ein cyfraniad at gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae hwn yn gyflawniad a chydnabyddiaeth bwysig i'r sefydliad sy'n gweithio tuag at fod yn 'Brifysgol Gynaliadwy'. Bangor yw'r unig sefydliad o Gymru ar y rhestr ac mae ymhlith 15 o brifysgolion eraill o'r Deyrnas Unedig sydd yn y 70 uchaf.

### Bangor yn un o 10 prifysgol orau'r byd am ailgylchu a chynaliadwyedd

Bangor yw'r seithfed brifysgol yn y byd am ailgylchu a chynaliadwyedd, wedi ei mesur yn erbyn Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, ac rydym hefyd wedi ein rhoi yn 10fed yn y byd am ein mesurau gwyrdd yn ôl y Green Metric World University Rankings.


















# ADDYSG

**Achrediad pum mlynedd Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) CaBan Bangor**

Mae gan hyfforddiant athrawon hanes hir ym Mangor, ers 1858 pan sefydlwyd Coleg Normal Bangor. Ym 1996 daeth y coleg yn rhan o Brifysgol Cymru, Bangor. Gwnaeth adolygiad o gwricwlwm Cymru yn 2015 gyfres o argymhellion ar gyfer cwricwlwm newydd i Gymru, ac roedd adroddiad 'Addysgu Athrawon Yfory' yn argymell moderneiddio hyfforddiant athrawon yng Nghymru.

Ffurfiwyd Partneriaeth AGA CaBan yn 2017, rhwng Prifysgol Bangor, Prifysgol Caer, Sefydliad Ymchwil CIEREI, y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol GwE, ac ysgolion lleol profiadol. Ym mis Medi 2019, cyflwynodd CaBan ei chyrsiau hyfforddi athrawon cyntaf, yn seiliedig ar fframwaith achredu newydd Cymru, ac mae'r bartneriaeth wedi chwyldroi'r berthynas rhwng Prifysgol Bangor ac ysgolion y rhanbarth. Mae'r partneriaid wedi cyd-lunio'r rhaglenni yn seiliedig ar fodel ymarfer clinigol ac yn ddiweddar dyfarnwyd achrediad pum mlynedd ychwanegol iddynt gan y Cyngor Gweithlu Addysg.

**Gwella galluoedd gofodol plant**

Bydd Prifysgol Bangor yn cyfrannu arbenigedd at broject Ewropeaidd newydd i wella galluoedd gofodol plant, gyda'r nod o helpu i gau'r bwlch rhwng y rhywiau ym maes gwyddoniaeth, peirianneg, technoleg a mathemateg (STEM). Mae disgyblion â lefelau uchel o allu gofodol yn llawer mwy tebygol o lwyddo mewn pynciau STEM, mwynhau eu gwneud a'u dewis i'w hastudio ymhellach a'u dewis fel gyrfa o gymharu â disgyblion â llai o allu gofodol. Dyfarnwyd €4.12M yn 2020 i'r project amlasiantaethol, Spatially Enhanced Learning Linked to STEM (SellSTEM) gan y Marie Skłodowska Curie Innovative Training Network fel rhan o Horizon 2020, sef menter flaenllaw gan yr Undeb Ewropeaidd yn 2020 sydd â'r nod o sicrhau bod Ewrop yn gystadleuol yn fyd-eang. Mae'n cael ei arwain gan y Brifysgol Dechnolegol Dulun.

**Y brifysgol yn cydweithredu gyda'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion**

Llofnodwyd memorandwm cyd-ddealltwriaeth gan y brifysgol a GwE, Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru, yn amlinellu gwaith cydweithredol a gweledigaeth strategol ar gyfer addysg i'r dyfodol, gan gynnwys nod cyffredin o ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o addysgwyr blaenllaw - o addysg gychwynnol athrawon trwy gydol eu gyrfa, fel y gallant gefnogi plant a phobl ifanc a datblygu ym mhedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru, 2022. Bydd y bartneriaeth hefyd yn datblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol cydweithredol ar lefel Meistr ar gyfer y proffesiwn addysgu, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer doethuriaeth broffesiynol arloesol mewn addysg a fydd yn ymgorffori ymchwil gyfredol ac ymwneud â chymheiriaid ledled gogledd Cymru.

**Cydweithio â Heddlu Gogledd Cymru ar raglenni gradd newydd**

Cyhoeddodd Prifysgol Bangor a Heddlu Gogledd Cymru eu bod yn cydweithredu ar Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu (PEQF) a ddatblygwyd gan y Coleg Plismona. Mae'r fenter newydd hon, sy'n cynnig arbenigedd addysgu ac ymchwil i addysgu cenhedlaeth nesaf gweithwyr proffesiynol yr heddlu, yn ategu ein portffolio presennol o raglenni addysg broffesiynol a bydd y rhaglenni gradd newydd hyn yn cyfrannu at weithlu cynaliadwy, cymwys a phroffesiynol.

**Amser i Ddaearyddiaeth**

Enillodd fideo addysgol am tswnamis, a wnaed gan Time for Geography ar y cyd â Phrifysgol Bangor a Phrifysgol Dundee, wobr "Silver Publishers' Award" 2020 a ddyfernir gan y Geographical Association. Y wobr arian yw'r clod uchaf a roddir yn flynyddol am ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â daearyddiaeth mewn ysgolion a cholegau sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at addysg ddaearyddol a datblygiad proffesiynol.

**Profiadau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng nghwricwlwm ysgolion**

Penodwyd Charlotte Williams OBE, Athro er Anrhydedd yn yr Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas, gan Lywodraeth Cymru i arwain gweithgor newydd i gynghori a gwella sut y caiff themâu sy'n ymwneud â phobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a'u profiadau ar draws pob rhan o gwricwlwm yr ysgol.

**Rhaglen ar-lein arloesol wedi ei datblygu ar gyfer disgyblion ysgol**

Mae rhaglen ddysgu ar-lein arloesol, a grëwyd gan academyddion fel rhan o ymchwil i effaith Covid-19 ar addysg, wedi bod yn achubiaeth addysgol i deulu o weithwyr allweddol yn Sir y Fflint. Arweiniodd Dr Manon Jones o'r Ysgol Seicoleg dîm i gynllunio cwrs ar-lein wyth wythnos i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wedi ei gyflwyno gan athrawon cymwysedig i fesur llwyddiant gwahanol dechnegau addysgu rhyngweithiol ar sgiliau darllen ac ysgrifennu plant.

# GRANTIAU A CHYLLID YMCHWIL

**Cyllid yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer ynni adnewyddadwy**

Dyfarnwyd £1.5m yn ychwanegol o gyllid yr Undeb Ewropeaidd i ddatblygiad sector ynni adnewyddadwy'r môr yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru. Bydd ymestyn partneriaeth SEACAMS2 rhwng Prifysgol Bangor a Phrifysgol Abertawe yn golygu y gall yr ymchwil barhau tan 2022. Bydd y gwaith yn cyfrannu at y sector carbon isel, ynni a'r amgylchedd.

**Cynllun Ewropeaidd i atal taflu gwastraff bwyd i safleoedd tirlenwi**

Mae gwyddonwyr o Brifysgol Bangor yn gweithio ar gynllun Ewropeaidd tair blynedd sy'n werth £3 miliwn i atal miliynau o dunelli o wastraff cynhyrchu bwyd rhag cael ei daflu i safleoedd tirlenwi neu mewn caeau fel rhan o raglen ymchwil ac arloesi Horizon 2020. Eu nod yw troi'r bwyd sydd dros ben o gnydau amaethyddol megis ffrwythau, llysiau a grawn yn gynhyrchion yn amrywio o gemegion ar gyfer y diwydiant bwyd, deunyddiau adeiladu a chynnyrch harddwch.

**Ymchwil gwrthfiotig yng Nghymru**

Mae Dr Emily Holmes, Uwch Gymrawd Ymchwil yn yr Ysgol Gwyddorau Iechyd wedi derbyn Cymrodoriaeth Ymchwil Iechyd gwerth £355 i gynnal Ymchwil Gwrthfiotig yng Nghymru. Nod y gymrodoriaeth hon, a ariennir gan Lywodraeth Cymru trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, yw datblygu gallu ym maes ymchwil iechyd trwy gefnogi unigolion i ddod yn ymchwilwyr annibynnol ac i ymgymryd â phrojectau ymchwil o ansawdd uchel.

**Llywodraeth Cymru yn buddsoddi yn Sefydliad Dyfodol Niwclear Bangor**

Bydd Prifysgol Bangor yn dod yn safle ymchwil niwclear o safon fyd-eang ar ôl buddsoddiad gwerth £3 miliwn gan Lywodraeth Cymru mewn 15 o swyddi gwyddonol newydd. Bydd y swyddi hyn i unigolion hynod gymwys wedi eu lleoli yn Sefydliad Dyfodol Niwclear y brifysgol ac yn cryfhau uchelgais niwclear y rhanbarth ar ôl y siom o weld Hitachi yn tynnu'n ôl o broject Wylfa B.

**Canolbwynt newydd ar gyfer ynni gwyrdd**

Bydd canolfan gwyddor data newydd ar gyfer ynni gwyrdd yn cael ei chreu ym Mhrifysgol Bangor, gyda chymorth £4.6m o gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd. Bydd y Ganolfan Ynni Effeithlon Craff (SEEC) yn datblygu ymchwil ar y cyd rhwng sefydliadau a busnesau yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Bydd yn ymchwilio i'r dewisiadau ar gyfer defnyddio gwyddor data mawr i wella effeithlonrwydd systemau ynni carbon isel gan gynnwys ynni niwclear, ynni'r môr ac ynni gwynt ar y môr.

**Triawd i ymchwilio i ecosystemau amrywiol**

Bydd tri grant ymchwil gan Leverhulme a ddyfarnwyd i wyddonwyr ym Mhrifysgol Bangor yn eu galluogi i ddatrys rhai o ddirgelion gwyddoniaeth a chofnodi un o ecosystemau mwyaf amrywiol y ddaear.Bydd Dr Olga Golyshina yn ymchwilio i organebau nad ydym yn deall llawer amdanynt ac y gellir eu gweld yn ffynnu o dan amodau asidig iawn yn nyfroedd draenio'r hen fwynfeydd copr ym Mynydd Parys ar Ynys Môn. Bydd Dr Richard Holland yn arwain project tair blynedd i hyrwyddo ei waith ar sut mae ystlumod yn dod o hyd i'w ffordd wrth fudo ac mae'r Athro Roger Thorpe wedi derbyn cymrodoriaeth emeritws am ddwy flynedd i greu canllaw maes newydd a llyfr ar yr ecosystem unigryw a geir ar ynysoedd yr Antilles Lleiaf yn y Caribî. Mae grantiau ymchwil Leverhulme ar gael i ymgymryd â phrojectau ymchwil arloesol a gwreiddiol.

**Ennill cyllid i ymchwilio i ddeallusrwydd artiffisial emosiynol**

Enillodd Andrew McStay a Vian Bakir o'r Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau, Ieithyddiaeth a'r Cyfryngau grant aml-sefydliadol gan UK Research and Innovation a Japan Science & Technology am Emotional AI in Cities: Cross Cultural Lessons from UK and Japan on Designing for An Ethical Life. Mae deallusrwydd artiffisial emosiynol yn cynnwys technolegau deallusrwydd artiffisial sy'n darllen emosiynau pobl. Mae'r project yn archwilio sut gallwn gael mwy o'r manteision o dechnolegau o'r fath wrth osgoi'r anfanteision.















# CYMUNED

**Cydnabod yr her i fyfyrwyr sy'n ofalwyr**

Dewisodd Prifysgol Bangor Ddiwrnod Hawliau Gofalwyr cenedlaethol i lansio'r unig bolisi'n ymwneud â myfyrwyr sy'n ofalwyr yn unrhyw brifysgol yng Nghymru ac i dynnu sylw at sut mae'n cefnogi myfyrwyr sydd hefyd yn ofalwyr. Datblygwyd y polisi gan y brifysgol mewn partneriaeth â Gweithredu dros Blant, y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr a Chyngor Sir Gwynedd. Mae'r brifysgol yn cydnabod yr heriau y mae gofalwyr ifanc yn eu hwynebu, ac mae ganddi sawl strategaeth ar waith i gefnogi a chodi dyheadau'r grŵp hwn, nad yw'r mwyafrif ohonynt mewn addysg neu gyflogaeth lawn amser. Mae'r brifysgol yn cynnig bwrsariaethau gwerth £1,000 i fyfyrwyr sydd hefyd â rôl ofalgar nad yw'n cynnwys magu plant, gan gydnabod y gallai fod ganddynt gostau ychwanegol. Ni hefyd yr unig sefydliad sy'n cynnal cwrs preswyl blynyddol ar gyfer gofalwyr rhwng 16-25 oed gyda'r nod o godi eu dyheadau a darparu blas ar fywyd prifysgol.

**Y garfan gyntaf yn cymhwyso fel nyrsys oedolion**

Mae'r garfan gyntaf o fyfyrwyr nyrsio cyn-gofrestru ôl-radd o'r Ysgol Gwyddorau Iechyd wedi graddio a chofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fel nyrsys oedolion. Dechreuodd y myfyrwyr hyn y ddiploma ôl-radd dwy flynedd mewn nyrsio oedolion ar ôl cwblhau eu gradd gyntaf mewn iechyd neu bwnc gysylltiedig a llwyddo mewn cyfweliad ar sail gwerth i ddangos eu profiad gofal a'u rhinweddau ar gyfer gyrfa mewn nyrsio. Rydym yn falch eu bod i gyd bellach naill ai wedi eu cyflogi mewn arbenigeddau nyrsio oedolion yng Nghymru neu yn parhau â'u hastudiaethau i gymhwyso a chofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fel ymwelwyr iechyd.

**Meithrin entrepreneuriaid y dyfodol**

Mae mwy o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor wedi dechrau eu busnesau eu hunain nag mewn unrhyw brifysgol arall yng Nghymru yn ôl arolwg newydd. Dadansoddodd yr astudiaeth o 404,182 o fyfyrwyr mewn wyth prifysgol yng Nghymru nifer y graddedigion a ddechreuodd eu busnes eu hunain, a benodwyd i swyddi uwch yn rhedeg busnesau sefydledig, neu a ddaeth yn weithwyr llawrydd. Gosodwyd Prifysgol Bangor hefyd yn yr ail safle trwy Gymru ym mhob un o'r categorïau hyn, gydag ychydig llai nag un o bob deg (9.13%) o'n graddedigion yn dewis rhoi prawf ar eu sgiliau entrepreneuraidd.

**Cynhadledd Arweinyddiaeth Myfyrwyr**

Cynhaliom Gynhadledd Arweinyddiaeth Myfyrwyr ym mis Medi 2019 gyda'r nod o ddarparu diwrnod o hyfforddiant i'n harweinwyr myfyrwyr ar bopeth yn ymwneud ag arwain a chefnogi myfyrwyr. Daeth 550 o fyfyrwyr, a staff o bob rhan o'r brifysgol i helpu i ddatblygu a chyflwyno'r sesiynau ar bynciau megis arweinyddiaeth, cynaliadwyedd, iechyd a diogelwch, iechyd meddwl a dwyieithrwydd. Roedd y gynhadledd yn fodd o gyflwyno sgiliau i'r myfyrwyr allu cymryd yr awenau'n hyderus a diogel wrth arwain yr holl weithgareddau gwych a gyflawnir ar gyfer yr aelodau ac er lles y gymuned.

**Darlithoedd cyhoeddus yn denu cynulleidfaoedd amrywiol**

Roedd darlithoedd cyhoeddus 2019/20 y brifysgol yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau gan ddenu siaradwyr o fri rhyngwladol i Fangor. Yn 2019, cynhaliwyd am y tro cyntaf Ŵyl Hanes y Pedair Gwlad yn Pontio, dan arweiniad Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas y brifysgol, a hynny dan nawdd Cronfa Waddol Tom a Raj Parry Jones. Roedd y digwyddiad deuddydd o hyd yn rhoi llwyfan i'r haneswyr poblogaidd Dr David Starkey, Dr Lucy Worsley a Dr David Olusoga. Roedd y rhaglen yn cynnwys cyflwyniadau ac arddangosfeydd am hanes unigol a chysylltiedig Cymru, Iwerddon, yr Alban a Lloegr. Roedd yn ddigwyddiad cymunedol yn cynnwys amgueddfa Storiel Bangor, Cadeirlan Bangor a sefydliadau treftadaeth a thwristiaeth amrywiol.

**Gŵyl Gerddoriaeth Bangor**

Yng ngwanwyn 2020 dathlodd Gŵyl Gerddoriaeth Bangor ei hugeinfed pen-blwydd gyda chyfres o ddigwyddiadau wedi eu plethu o amgylch y thema iechyd a lles, gan danlinellu grym cadarnhaol cerddoriaeth. Mae'r ŵyl yn ddigwyddiad i gyflwyno cerddoriaeth gyfoes a berfformir gan artistiaid o'r radd flaenaf gydag ymrwymiad cryf i gyfoethogi ac addysgu cymunedau Gogledd Cymru trwy weithdai a chyngherddau.

Roedd y rhaglen yn cynnwys 18 perfformiadau cyntaf darnau gan gyfansoddwyr sefydledig a rhai sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys nifer gan fyfyrwyr cyfansoddi yn yr Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau. Ym mis Ionawr a mis Chwefror, bu cerddorion yn gweithio gydag ysgolion lleol mewn rhaglen allgymorth arloesol er mwyn creu cyfansoddiadau newydd, a berfformiwyd wedyn yn ystod yr ŵyl.

**Pontio yn rhoi llwyfan i'r gorau o Gymru**

Cynhaliodd Celfyddydau Pontio Ŵyl Syrcas â chroesawu cwmni teithiol byd-eang o Ethiopia, sef Circus Abyssinia. Mae'r ganolfan wedi cyflwyno amrywiaeth o waith newydd yn y Gymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys Tylwyth, a berfformiwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Llyfr Glas Nebo gan Frân Wen a berfformiwyd i gynulleidfaoedd llawn ac roedd rhai o uchafbwyntiau cerddorol y ganolfan yn cynnwys perfformiadau gan The Villagers, Gruff Rhys, Trials of Cato, 9Bach, a Cherddorfa Genedlaethol Cymru'r BBC. Cynhaliwyd Gŵyl Neithiwr am y tro cyntaf gan ddathlu rhai o'r darnau cerddoriaeth newydd mwyaf cyffrous yng Nghymru, a daeth digrifwyr megis James Acaster â gwên i wynebau myfyrwyr a'r gymuned leol yn Theatr Bryn Terfel.

# CYMORTH RHENG FLAEN COVID-19








**Staff nyrsio yn camu i'r adwy yn ystod y pandemig**

Hyfforddwyd tîm o 170 o staff nyrsio i weithio mewn unedau gofal dwys ledled Gogledd Cymru ac i achub cymaint o fywydau â phosib yn ystod y pandemig Covid-19. Cwblhaodd y staff ychwanegol hyn gwrs carlam a gefnogir gan Ysgol Gwyddorau Iechyd Prifysgol Bangor, gan fwy na dyblu'r niferoedd sydd ar gael i weithio yn unedau gofal dwys y rhanbarth. Roedd y staff hyn, a oedd wedi uwchraddio eu sgiliau, yn gallu gweithio ar y rheng flaen yn erbyn y coronafeirws yn Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor yn Wrecsam.

**Creu cyfarpar diogelu personol am ddim**

Cefnogodd Prifysgolion Santander Brifysgol Bangor a'r rhanbarth i greu cyfarpar diogelu personol am ddim i helpu gweithwyr iechyd ar y rheng flaen yn ystod y pandemig. Daeth y gefnogaeth ar ffurf £4,500 i helpu cymuned o wneuthurwyr, busnesau ac unigolion lleol ddylunio, argraffu 3D, a chydosod fisorau i'w dosbarthu am ddim i staff meddygol a gofalwyr yn y gogledd.

Yn y cyfamser, bu cemegwyr o Ganolfan Biogyfansoddion y brifysgol yn gweithio gyda chwmni o Ogledd Cymru, Pennotec, i ddatblygu gorchudd unigryw sy'n deillio o wastraff cregyn crancod, sydd â'r gallu i ddinistrio firysau. Mae'r deunydd yn cael ei brofi i'w ddefnyddio fel firwsladdwr yn rhan o gyfarpar diogelu personol a dyfeisiau meddygol eraill.

**Trawsnewid adeiladau'r brifysgol gyda lliwiau'r enfys**

Cafodd ein hadeiladau eu goleuo yn lliwiau'r enfys ym mis Ebrill i gyd-fynd â'r digwyddiad wythnosol 'Clap for Carers' pan oedd y cyhoedd yn dangos eu gwerthfawrogiad o'r GIG a gweithwyr allweddol trwy glapio a chymeradwyo ar stepen drws eu cartrefi.

Roedd hefyd yn ffordd o nodi trawsnewidiad Canolfan Brailsford, canolfan chwaraeon a hamdden y brifysgol, yn un o dri ysbyty 'enfys' dros dro Betsi Cadwaladr.

# TWF YN Y DYFODOL



**Asesu dichonoldeb sefydlu ysgol feddygol yng Ngogledd Cymru**

Sefydlodd y Gweinidog Iechyd, Vaughan Gething, grŵp i asesu dichonoldeb sefydlu ysgol feddygol yng Ngogledd Cymru. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu £7m y flwyddyn i ariannu hyfforddiant meddygol israddedig yng Ngogledd Cymru ac yn awr mae'n asesu cynnig gan Brifysgol Bangor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i sefydlu ysgol feddygol newydd.

**Partneriaeth i wella'r agenda sgiliau yng ngogledd ddwyrain Cymru**

Mae Prifysgol Bangor a Choleg Cambria wedi llofnodi datganiad o fwriad ar y cyd sy'n nodi eu dyhead i gydweithio ar draws y lefelau sgiliau ac i gysylltu'r agenda sgiliau yng ngogledd ddwyrain Cymru â'r ymchwil rhagorol a'r sgiliau lefel uwch y mae'r brifysgol yn eu darparu ledled Gogledd Cymru. Er y bydd hyd a lled y cydweithredu'n eang, y bwriad yw targedu'r sectorau hynny y mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio fwyaf arnynt a chanolbwyntio ar yr angen i helpu'r gweithlu i ddysgu sgiliau newydd a datblygu sgiliau uwch mewn meysydd blaenoriaeth yng ngogledd ddwyrain Cymru megis gweithgynhyrchu, peirianneg, peirianneg meddalwedd a chefnogaeth i'r sector niwclear.



# CIPOLWG AR Y BRIFYSGOL

2019 - 20

## 11,000 FYFYRWYR

Mae gan Brifysgol Bangor dros 11,000 o fyfyrwyr o dros 120 o wahanol wledydd. Mae hyn yn ein gwneud yn brifysgol wirioneddol ryngwladol. Roedd 2,500 o fyfyrwyr o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig yn astudio ym Mangor yn 2019/20

5

## 30

Mae Prifysgol Bangor wedi bod yn y 30 uchaf yn y Deyrnas Unedig am foddhad myfyrwyr ers pum mlynedd

TEF Gold Teaching Excellence Framework

## PRIFYSGOL AUR

Mae Prifysgol Bangor yn ymfalchïo yn y safon Aur a gafodd yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu. Mae safon aur yn golygu bod ein haddysgu o'r ansawdd uchaf a geir yn y Deyrnas Unedig.

## PEDAIR SEREN

Bangor yw'r unig brifysgol yng Nghymru sydd â llety a chanolfan gynadledda 4* sy'n gysylltiedig â'r Ysgol Busnes.

77%

## YMCHWIL

Yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf dyfarnwyd bod 77% o ymchwil Bangor naill ai gyda'r orau yn y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol.

## 2il

Rhoddwyd Bangor yn yr ail safle yn y Deyrnas Unedig am gymdeithasau a chwaraeon yn y WhatUni Student Choice Awards 2020.

## CEFNOGI

Prifysgol Bangor sy'n arwain a rheoli SEACAMS2, project gwerth £17 miliwn sy'n cefnogi gwneud defnydd masnachol o ymchwil ym meysydd ynni'r môr, newid hinsawdd a defnyddio adnoddau'r môr yng Nghymru mewn ffordd gynaliadwy.

QAA

## PROFIAD

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd wedi canmol y ffordd y mae dwyieithrwydd yn rhan annatod o holl weithgareddau'r brifysgol ac yn cael dylanwad cadarnhaol ar brofiad myfyrwyr.




£50m

## PONTIO

Mae Pontio, ein canolfan celfyddydau ac arloesi gwerth £50m, yn arddangos y gorau o ddiwylliant lleol a rhyngwladol yn y mannau perfformio ac yn y sinema. Mae hefyd yn gartref i Arloesi Pontio, sydd â mannau pwrpasol i wneuthurwyr, a FABLabs, sy'n galluogi'r boblogaeth leol i fanteisio ar y dechnoleg ddiweddaraf ac ar arbenigedd a chaledwedd arbenigol.

## CYMRAEG

Rydym yn credu mai Bangor yw'r 'brifysgol fwyaf Cymreig a'r fwyaf rhyngwladol ei golygon'.

## DWYIEITHOG

Mae 'Ap Geiriaduron' dwyieithog ein Huned Technolegau Iaith wedi cael ei lawrlwytho 240,000+ o weithiau.

47%

## ASTUDIAETH GYMRAEG

Mae 47% o'r holl fyfyrwyr yng Nghymru sy'n astudio o leiaf 80 credyd o'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg yn gwneud hynny ym Mangor.




## CYNLLUNIAU AR GYFER TWF

Mae M-SParc, y Parc Gwyddoniaeth a ddatblygwyd dair blynedd yn ôl ar Ynys Môn, yn ffynnu ac mae cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer twf pellach. Gyda 200 o bobl yn gweithio yn yr adeilad a 50 o swyddi newydd wedi eu creu, mae enillion cyfartalog y rhai sy'n gweithio i gwmni yn MSParc yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy.

## POSTGRADUATE

Ceir 3,800 o fyfyrwyr yn ein cymuned ôl-radd

## 10FED

Mae Prifysgol Bangor yn y degfed safle trwy'r byd am ei hymrwymiad i gynaliadwyedd yn ôl tabl cynghrair rhyngwladol o sefydliadau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, yr UI GreenMetric World University Ranking.

## LAWRLWYTHO UCHAF

Dechreuwyd cynnig pecyn meddalwedd Cysgliad yn rhad ac am ddim - gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru - ar ddechrau'r pandemig coronafeirws i gynorthwyo gweithio ac astudio o bell. Mae wedi cael ei lawrlwytho bron i 5,000 o weithiau.







## RHYNGWLADOL

Mae ein Rhaglen Profiad Rhyngwladol yn rhoi hyd at flwyddyn dramor i fyfyrwyr ar ben eu gradd, gan alluogi iddynt ddod i gysylltiad â gwahanol ddiwylliannau ac ieithoedd a rhoi cyfleoedd pellach iddynt ddatblygu sgiliau newydd ac ehangu eu gorwelion. Mae pob un o'r elfennau hyn yn ychwanegu at eu cyflogadwyedd fel graddedigion Bangor.



## LLWYBRAU

Mae gennym goleg cynwysiedig ar y campws sy'n cynnig rhaglenni paratoi at astudio am radd i fyfyrwyr rhyngwladol, campws ar y cyd yn Tsieina a phrojectau partneriaeth o bwys yn Bahrain, Singapore, Maleisia ac Uzbekistan, yn ogystal â rhwydwaith o fyfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio trwy raglenni cyfunol a dysgu o bell.




## PRINCE MADOG

Defnyddir Llong Ymchwil y Prince Madog i hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr môr. Mae ymchwilwyr a myfyrwyr Ysgol Gwyddorau'r Eigion a'r Ysgol Gwyddorau Naturiol yn ei defnyddio fel llwyfan i astudio bioleg, cemeg, daeareg a ffiseg ein moroedd.



## CYMRAEG

Mae 45% o'n staff yn siarad Cymraeg yn rhugl, ac mae 27% arall yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg. Rydym yn cyflwyno cyrsiau 'Cymraeg yn y Gweithle' yn rheolaidd i oddeutu 120 o aelodau staff bob blwyddyn, a ddarperir gan dîm penodedig o diwtoriaid llawn amser.

# GWYTNWCH EIN CYMUNED MYFYRWYR

HENRY WILLIAMS AC IWAN EVANS

Mae Undeb Bangor, sef ein hundeb myfyrwyr, wedi cael blwyddyn brysur ond heriol gyda llawer iawn o weithgaredd a gwaith wedi ei gyflawni gan ein myfyrwyr. Mae'r pandemig wedi cael effaith mawr ar ein gweithgareddau ac ar brofiad y myfyriwr wrth i bawb addasu i weithio gartref ac addasu'r ffyrdd rydym yn cynnig ein gwasanaethau i fyfyrwyr.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r brifysgol i sicrhau bod buddiannau ein myfyrwyr yn cael eu cynrychioli'n effeithiol yn ystod y pandemig, o ran eu profiad academaidd ac mewn meysydd allweddol megis llesiant a thai. Mae'r gwaith partneriaeth a welsom yn ystod y cyfnod heriol hwn yn dangos mantais undeb myfyrwyr annibynnol a chryf yn gweithio ar y cyd â'r brifysgol i gynrychioli buddiannau pob myfyriwr.

Yn 2019-20, amcanion yr undeb oedd hybu addysg myfyrwyr ym Mangor er budd y cyhoedd trwy hyrwyddo buddiannau a lles myfyrwyr yn ystod eu cwrs astudio gan gynrychioli, cefnogi a chynghori myfyrwyr; bod yn gyfrwng cynrychioliadol cydnabyddedig rhwng myfyrwyr a Phrifysgol Bangor a chyrff allanol eraill; a darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon a hamdden a fforymau ar gyfer trafodaethau a dadleuon a hynny er datblygiad personol ei myfyrwyr.

Fel llywyddion Undeb y Myfyrwyr ac UMCB (Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor) rydym yn aelodau o Gyngor y Brifysgol ac mae swyddogion sabothol yn aelodau o holl grwpiau strategaeth y brifysgol. Rydym wedi bod yn falch o gyfrannu at lawer o fentrau, gan gynnwys gweithio i adolygu gweithdrefnau a rheoliadau'r brifysgol a chanolbwyntio ar weithdrefnau cwynion myfyrwyr.

Yn ystod y pandemig, mae Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor wedi cael effaith hynod o gadarnhaol ar fyfyrwyr Bangor yn ogystal ag ar y gymuned leol. Yn 2019, am y tro cyntaf, rydym wedi llunio adroddiad effaith gymdeithasol gwirfoddoli, sy'n tynnu sylw at gwmpas y cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael ym Mangor, a'u heffaith gadarnhaol, megis hybu cyflogadwyedd. Mae'r adroddiad hefyd yn pwysleisio'r gwaith anhygoel a wneir gan ein myfyrwyr trwy wirfoddoli, a'r effaith gadarnhaol a gânt ar drigolion lleol.

Yn 2019-20, gwnaethom drefnu 55 o brojectau gwirfoddoli gan ddenu mwy na 650 o fyfyrwyr. Codwyd £40,000 at elusennau lleol a chenedlaethol, y swm uchaf erioed.


Cynhaliwyd yr Wythnos Gwirfoddoli Myfyrwyr yn yr un wythnos ag Wythnos Cyflogadwyedd y brifysgol gyda'r nod o gynnig sgiliau a phrofiadau sy'n gysylltiedig â chyflogadwyedd i fyfyrwyr.

Oherwydd Coivd-19, gwnaethom sefydlu projectau ar-lein amgen, gan gynnwys cynllun cyfeillion ar-lein a sefydlwyd i wirfoddolwyr helpu i gefnogi myfyrwyr rhyngwladol trwy raglen y Ganolfan Iaith Saesneg i Fyfyrwyr Tramor. Mae'r gwirfoddolwyr yn cyfarfod ar-lein yn rheolaidd i gael sgyrsiau anffurfiol i helpu cynyddu eu hyder a'u sgiliau cyfathrebu. Yn ogystal, roedd y project Ffrind Cymraeg yn paru siaradwyr Cymraeg rhugl â dysgwyr er mwyn helpu i ddatblygu eu sgiliau sgwrsio Cymraeg. Parhaodd ein project gwirfoddoli Cyswllt@Bangor i weithio mewn partneriaeth ag ymgynghorwyr iechyd meddwl y brifysgol i gynnig cymorth galw heibio ar-lein i fyfyrwyr.


Gan nad oedd modd i ni gynnig y projectau arferol yr ydym yn eu cynnal i gefnogi'r henoed yn y gymuned, fe anfonom lythyrau at y gymuned leol yng Ngwynedd tra bod gwirfoddolwyr y project Rhoi Mawr yn annog myfyrwyr i gyfrannu at fanc bwyd y Gadeirlan sy'n darparu pecynnau bwyd brys i bobl leol. Mae myfyrwyr wedi cymryd rhan mewn llawer o wahanol weithgareddau gan gynnwys rhedeg, pobi a chanu. Yn ogystal, mae gwirfoddolwyr hefyd wedi trefnu sesiynau casglu sbwriel i gadw Bangor yn daclus, yn ogystal â gwirfoddoli yn Nhreborth a'r Gerddi Iachau. Mae'r Ardd Iachau yn gweithio mewn partneriaeth â Headway Gwynedd a Môn ac yn hyrwyddo ymlacio ac ymwybyddiaeth ofalgar, tra bod gwirfoddolwyr hefyd yn datblygu eu sgiliau garddio.




**Ail**
Daeth Bangor yn ail drwy'r DU am Gymdeithasau a Chwaraeon yn ngwobrauWhatUni Student Choice Awards 2020.







Mae myfyrwyr sy'n gwirfoddoli wedi casglu siopa i bobl sydd wedi bod yn hunanynysu. Gwnaethom ddarparu pecynnau cymorth lles i dros 220 o fyfyrwyr a oedd wedi aros ym Mangor dros y gwyliau a hyfforddiant gwytnwch emosiynol i 400 o fyfyrwyr a oedd angen cefnogaeth ychwanegol.

Mae ein cynghorion 'Dydd Mercher Lles' wedi ffurfio rhan o ymgyrch blwyddyn i atgoffa pawb y dylai ein hiechyd meddwl fod yn flaenoriaeth trwy'r flwyddyn wrth hyrwyddo ein projectau iechyd meddwl a gwasanaethau'r brifysgol, yn cynnwys cyrsiau ymwybyddiaeth ofalgar. Bob wythnos, mae Gwirfoddolwyr Cyswllt@ Bangor yn trefnu trafodaethau grŵp ar-lein i drafod pob agwedd ar les gyda chynghorwyr iechyd meddwl y brifysgol. Dilynir y rhain gan sesiynau galw heibio'r ymgynghorwyr iechyd meddwl sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr siarad yn breifat ag ymgynghorydd. Yn ychwanegol, trefnodd ein gwirfoddolwyr Cerdded a Siarad deithiau cerdded wythnosol o amgylch Bangor i roi cyfle i fyfyrwyr gwrdd â phobl debyg, crwydro Bangor a sgwrsio am sut maent yn teimlo. Mae'r gwirfoddolwyr hefyd yn trefnu sesiynau 'Te a Sgwrs' ar-lein pan nad yw pobl yn gallu cyfarfod wyneb yn wyneb. Mae ein Cynllun Cyfeillion Lles yn cysylltu myfyrwyr gyda gwirfoddolwr a ddewiswyd yn ofalus i fod yn gyfaill lles iddynt. Mae'r cyfeillion yn cefnogi'r myfyrwyr fel ffrind ac yn cefnogi gydag agweddau cymdeithasol bywyd prifysgol. Mae'r projectau hyn i gyd wedi bod o fudd i gynifer o fyfyrwyr, sydd wedi teimlo'n ynysig ac yn unig yn ystod y pandemig.

Mae gwaith a llwyddiant Undeb Bangor ym maes cynaliadwyedd wedi cael effaith ar y sefydliad cyfan. Mae ein hymgyrch i gael mwy o ffynhonnau dŵr ar draws y campws wedi bod yn llwyddiannus a buom yn lobïo'r brifysgol i lofnodi'r People & Planet Fossil Fuel Declaration ac i ddefnyddio 100% o ynni adnewyddadwy, a llwyddwyd i wneud hynny eleni. Ar ben hynny, mae ein cefnogaeth i ymgyrchoedd fel yr Wythnos Ymwybyddiaeth Gwastraff, Byddwch yn Gall, Yfwch yn Gall, y Streiciau Hinsawdd, a'r Carnifal Cynaliadwyedd, yn ogystal â'r holl gymdeithasau a phrojectau gwirfoddoli sydd gennym ar waith, yn cyfrannu at wneud Prifysgol Bangor yn brifysgol sy'n arwain ar gynaliadwyedd.

Mae Undeb Bangor wedi blaenoriaethu gwaith yn ymwneud ag iechyd, iechyd meddwl a lles myfyrwyr, gan ddatblygu mentrau pwrpasol dan arweiniad myfyrwyr, ymgyrchoedd gwybodaeth ac arweiniad ar adegau allweddol o'r flwyddyn sy'n canolbwyntio ar sicrhau iechyd meddwl a chorfforol cadarnhaol i holl fyfyrwyr Prifysgol Bangor. Ymysg yr ymgyrchoedd hyn mae'r Wythnos Byw'n Iach, E-gŵyl, Cwrdd a Chymdeithasu, Dim Tir Llwyd a Chymorth Astudio. Rydym wedi bod yn cydweithredu â'r brifysgol i ddatblygu Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles Myfyrwyr a lansiwyd ym mis Ionawr 2020.

Dyma enghraifft arall o'n hymrwymiad i'r ethos o weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr. Roedd y broses o ddatblygu'r strategaeth hon yn llwyr dan arweiniad myfyrwyr; gwnaethom sicrhau bod myfyrwyr yn cael y cyfle i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r strategaeth, a sicrhau bod eu blaenoriaethau'n cael eu cynnwys, megis annog llesiant a byw'n iach, datblygu ymdeimlad o gymuned, a chydnabod gwahanol anghenion ein corff myfyrwyr amrywiol.



# POBL A DIWYLLIANT

### Arolwg Staff

Cynhaliwyd arolwg staff ddechrau 2020 i roi cyfle i'r staff rannu eu barn am eu profiad gwaith fel rhan o ymrwymiad y brifysgol i wella ansawdd bywyd gwaith ei staff.

Gwnaethom ymrwymo i ddefnyddio'r adborth fel sail i ddatblygu strategaeth pobl a chynllun gweithredu a fydd yn blaenoriaethu meysydd allweddol sy'n rhaid rhoi sylw iddynt er mwyn darparu amgylchedd gwaith deinamig a chefnogol.

Gyda chyfradd ymateb o 62%, roedd 87% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y brifysgol yn lle da i weithio; roedd 80% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y brifysgol wedi ymrwymo i gyfle cyfartal i bawb a bod y brifysgol yn parchu pobl waeth beth eu nodweddion gwarchodedig/ cenedligrwydd a'u cefndir ieithyddol; roedd 60% o'r ymatebwyr yn credu eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y brifysgol; ac roedd 84% o'r ymatebwyr yn teimlo'n falch o weithio i'r brifysgol.

Y meysydd i'w gwella a nodwyd oedd llwyth gwaith, cyfathrebu, arweinyddiaeth, rheoli newid ac adolygiadau datblygu perfformiad.

Bydd y brifysgol yn datblygu ei strategaeth pobl yn 2021 fel rhan o gynllun strategol newydd y brifysgol. Yn y cyfamser, mae ein tîm Adnoddau Dynol wedi datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar themâu'r Arolwg Staff. Mae'r camau gweithredu yn adlewyrchu'r hyn y gellir ei gyflawni yn ystod y pandemig pan mae staff yn gweithio o gartref yn bennaf. Bydd yn gorgyffwrdd â strategaethau eraill sy'n cael effaith uniongyrchol ar bobl a diwylliant yn y brifysgol, megis ein cynllun cydraddoldeb, Athena SWAN, y concordat ymchwil a chynlluniau iechyd a lles.


### Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

Mae Prifysgol Bangor wedi parhau i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad ers y Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwethaf. I wneud hyn rydym wedi gweithio'n agos gyda staff a myfyrwyr i gefnogi ein cymuned amrywiol i ddarparu profiad rhagorol i fyfyrwyr ac i ddarparu addysgu ac ymchwil rhagorol.

Cyhoeddwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 ym mis Mawrth 2020 yn unol â gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Deddf Cydraddoldeb 2010. Er mwyn datblygu'r cynllun, gwnaethom ymgynghori â staff a myfyrwyr am eu barn ynglŷn â chydraddoldeb yn y brifysgol a pha gamau y dymunant eu gweld yn cael eu gweithredu. Mae'r cynllun wedi ei rannu yn bedair thema: Y brifysgol gyfan, myfyrwyr, staff; a'r gymuned a'r elfen ddinesig.

Bydd ein nodau a'n hamcanion lefel uchel, wedi eu hategu gan gynllun gweithredu, yn ein galluogi i gyflawni ein hamcanion cyfredol ac ymateb i flaenoriaethau newydd. Mae ein canolbwynt yn cynnwys nodi cyfleoedd a rhwystrau i recriwtio, dyrchafu a rheoli gweithlu amrywiol.





# CYDRADDOLDEB. AMRYWIAETH.



### Athena SWAN

Rydym yn canolbwyntio ar gyflawni newid diwylliannol go iawn yn y brifysgol a'i hysgolion a'i hadrannau unigol. Mae ein gwobrau Athena Swan yn dangos ymrwymiad parhaus i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau ac amrywiaeth, cynrychiolaeth, dilyniant a llwyddiant i bawb.

I gydnabod hyn, mae gennym wobr efydd sefydliadol ac ar hyn o bryd mae gan bedair ysgol wobrau efydd ar lefel adrannol (Ysgol Seicoleg, Ysgol Gwyddorau'r Eigion, Ysgol Busnes Bangor a'r Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig).

Sefydlwyd siarter Athena Swan gan yr Uned Her Cydraddoldeb yn 2005 i annog a chydnabod ymrwymiad i hyrwyddo gyrfaoedd i ferched ym maes STEMM mewn addysg uwch ac ymchwil. Yn 2015 ehangwyd y siarter i gydnabod gwaith a wnaed yn y celfyddydau, y dyniaethau, gwyddorau cymdeithas, busnes a'r gyfraith, ac mewn swyddi proffesiynol a chefnogi, ac i staff a myfyrwyr traws. Yn dilyn adolygiad annibynnol yn 2020, mae'r siarter bellach yn cydnabod gwaith a wnaed i ymdrin â chydraddoldeb rhywiol yn ehangach ac nid unig y rhwystrau i ddilyniant sy'n effeithio ar ferched. Mae Bangor yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i'r siarter a'i hegwyddorion



### Astudiaeth achos

**Mae'r brifysgol yn dathlu unigolion sy'n cael effaith sylweddol ar ein cynnydd tuag at sicrhau cydraddoldeb rhywiol.**

Mae Dr Daniel Roberts yn Gyfarwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn yr Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig. Mae'n ddarlithydd Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn Peirianneg Electronig yn yr Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig. Graddiodd gydag MEng dosbarth cyntaf yn 2012 ac aeth ymlaen i gwblhau doethuriaeth mewn peirianneg electronig yn 2016, y cyntaf yn yr ysgol i gael ei noddi gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Yn ystod ei astudiaethau israddedig ac ôl-radd, daeth Daniel yn ymwybodol iawn o dangynrychiolaeth merched yn yr ysgol ac o "ddelwedd" wrywaidd ystrydebol peirianneg electronig yn gyffredinol. Cafodd ei ysgogi i helpu i newid hyn er mwyn sicrhau bod y genhedlaeth nesaf o beirianwyr yn fwy amrywiol a bod y maes yn elwa o ddoniau pob rhan o gymdeithas.

Mae wedi cymryd rhan weithredol yn rhaglen allgymorth yr ysgol a luniwyd i annog plant ysgol i astudio cyfrifiadureg a pheirianneg electronig trwy gydol ei amser yn yr ysgol ac mae bellach yn arwain ar y gwaith hwn yn ei waith fel 'Swyddog Cyswllt Ysgolion'.

Yn 2019, llwyddodd Daniel i ddenu grant gan gynllun Ingenious y Royal Academy of Engineering sy'n cefnogi projectau sy'n dod â'r cyhoedd i gyswllt â pheirianwyr a pheirianneg. Mewn partneriaeth â Chanolfan Ehangu Mynediad y brifysgol, mae'n arwain project i ysbrydoli plant 9-13 oed i ddylunio eu hofferynnau cerdd eu hunain trwy ddefnyddio sgiliau codio a defnyddio ffotoneg i greu sgôr gerddoriaeth i'w berfformio yn adeilad Pontio. Mae'r project yn cynnwys dros gant o ddisgyblion o ysgolion lleol ac mae'n cynnwys sesiynau a gyflwynir gan beirianwyr a gafodd eu recriwtio'n benodol fel rhan o'r project. Prif nod (a llwyddiant) y project yw bod 50% o'r peirianwyr yn ogystal â thua 50% o'r disgyblion sy'n cymryd rhan yn ferched.

O ran ymdrin â materion amrywiaeth a chydraddoldeb rhyw ym Mhrifysgol Bangor, mae Daniel yn teimlo ei bod yn allweddol ei fod ef a'i gydweithwyr sy'n ddynion yn cymryd rhan yn yr agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn gweithredu fel hyrwyddwyr dros newid. Yn enwedig mewn ysgolion megis yr Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig sydd ag ychydig iawn o staff a myfyrwyr sy'n ferched, mae'n bwysig cydnabod y bydd newidiadau cadarnhaol o fudd i bawb a'n bod felly'n rhannu'r cyfrifoldeb i ymdrin â'r materion hyn. Penodwyd Daniel yn Gyfarwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr ysgol yn 2018 ac arweiniodd ar gais llwyddiannus yr ysgol am Wobr Efydd Athena SWAN ym mis Ebrill 2020. Cafodd Daniel ei galonogi gan ymroddiad ei gydweithwyr gwrywaidd, a chefnogaeth pennaeth gwrywaidd yr ysgol, wrth weithio ar gais Athena SWAN. Mae'r cynllun gweithredu manwl sydd wedi ei lunio yn dangos ymrwymiad yr ysgol i faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth a'r ymrwymiad i ymgorffori hynny yng ngweithrediad yr ysgol o ddydd i ddydd.

Mae gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth yr Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig yn rhan o ymrwymiad sector cyfan i ymdrin â materion yn ymwneud â diffyg amrywiaeth ym maes peirianneg. Fel cefnogwr brwd o Fformiwla 1, mae Daniel yn arbennig o awyddus i gefnogi mentrau megis y rhai dan arweiniad Syr Lewis Hamilton sy'n anelu at sicrhau mwy o amrywiaeth mewn chwaraeon a'r diwydiannau cysylltiedig, gan gynnwys sefydlu Comisiwn Hamilton mewn partneriaeth â'r Royal Academy of Engineering

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# LLYWODRAETHU

BLWYDDYN EITHRIADOL

# LLYWODRAETHU



### MARIAN WYN JONES,
### CADEIRYDD, CYNGOR PRIFYSGOL BANGOR

Mae hi wedi bod yn flwyddyn eithriadol. Mae'r pandemig Covid wedi achosi newidiadau mawr i'n holl fywydau, mewn ffyrdd na allem erioed fod wedi dychmygu pan ysgrifennais atoch yr adeg hon y llynedd. Mae'r effaith ar addysg uwch yma ym Mangor, fel mewn mannau eraill ledled y byd, wedi bod yn ddifrifol.

Ymunodd yr Athro Iwan Davies â ni eleni o Abertawe, fel ein hwythfed is-ganghellor. Rwy'n hynod o falch o'r modd y mae staff a myfyrwyr y brifysgol wedi ymateb i heriau'r cyfnod digynsail hwn. Maent wedi gweithio'n ddiflino gydag egni ac ymrwymiad, gan wneud pethau newydd a gweithio mewn gwahanol ffyrdd ar adeg anodd i'r sefydliad. Mae wedi bod yn ysbrydoliaeth gweld ein myfyrwyr yn cael canlyniadau mor rhagorol, a gallwn fod yn falch iawn ohonynt.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn arbennig o heriol yn y dirwedd gynyddol gystadleuol ac anrhagweladwy hon. Mae'r Is-ganghellor a'r tîm gweithredu yn ymateb i amrywiaeth o heriau; effaith Covid ar recriwtio myfyrwyr rhyngwladol, heb sôn am ansicrwydd cyllido sy'n deillio o Brexit ac Augur, ac yn olaf, yr argyfwng pensiwn ar draws y sector, a arweiniodd yn anffodus at weithredu diwydiannol yn gynharach eleni.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae wedi bod yn braf gweld y brifysgol yn symud i fyny wyth safle am foddhad myfyrwyr yn y Sunday Times' WhatUni Guide. Rwy'n falch iawn bod Bangor wedi cadw ei safle ymhlith y 10 gorau yn y byd am ei hymrwymiad i gynaliadwyedd. Mae'r ymchwil arloesol i bresenoldeb Covid mewn dŵr gwastraff yn enghraifft amserol o'n gweithgaredd ymchwil blaengar ac effeithiol.

Wrth i ni baratoi at ail-lunio ein cynllun strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, rydym yn symud i gyfnod newydd yn hanes Bangor, ac yn adeiladu ar y gwerthoedd sydd wedi datblygu dros y 136 mlynedd diwethaf. Egwyddorion sylfaenol cymhwyso ein haddysgu a'n hymchwil er budd y cyhoedd, ymfalchïo yn ein treftadaeth ddwyieithog, ehangu mynediad a rhoi sylw i anghydraddoldeb yw'r union egwyddorion a wnaeth fy ysbrydoli i gymryd swydd cadeirydd y Cyngor. Ac maent yr un mor berthnasol heddiw. Mae ein Is-ganghellor eisoes wedi dechrau gweithio gyda'r Cyngor i ddatblygu gweledigaeth a strategaeth newydd, a fydd yn cynnwys cynigion uchelgeisiol ar gyfer Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd newydd. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad, ledled y rhanbarth.

Byddwn yn adeiladu ar ein cryfderau craidd sef rhagoriaeth addysgu ac ymchwil o'r radd flaenaf trwy adfyfyrio ar ein gwerthoedd ac ailddiffinio'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn Brifysgol Bangor, sef prifysgol Gogledd Cymru yn yr 21ain ganrif. Gellir dadlau mai dyma'r brifysgol fwyaf Cymraeg o ran iaith ac agwedd a'r mwyaf rhyngwladol ei golygon o holl brifysgolion Cymru. Rydym yn codi dyheadau, yn newid bywydau ac yn gwella lles cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ein cymunedau, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn rhyngwladol.

Mae'n fraint gwasanaethu fel cadeirydd y Cyngor yn y ddinas lle rwyf wedi treulio llawer o fy mywyd gwaith. Rwy'n gobeithio y bydd ein hadroddiad blynyddol yn rhoi mwy o wybodaeth ac eglurder i chi am ein gweithgareddau, sy'n cyfoethogi pobl a lle, ac yn newid bywydau er gwell.



## **LLYWODRAETHU:** PARHAD

### Cyngor y Brifysgol

Y Cyngor yw corff llywodraethu'r brifysgol. Mae'n gyfrifol am gyllid, ystadau, buddsoddiadau a busnes cyffredinol y brifysgol ac am bennu cyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad. Mae'r Cyngor yn ceisio gwneud ei waith yn unol â'r saith egwyddor a nodwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth).

Mae'r Cyngor wedi nodi'r cod ymarfer ar lywodraethu yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghod Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (Medi 2020) a gofynion Adolygiad Camm o Lywodraethu Prifysgolion yng Nghymru (Rhagfyr 2019 ).

Mae'r Brifysgol wedi ymgorffori nifer o argymhellion Adroddiad Adolygiad Camm (lle nad oedd y Brifysgol eisoes yn gwneud y pethau hynny) a bydd yn parhau i ystyried mabwysiadu rhagor o argymhellion yn ystod 2020/21.

Mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau gwelliannau parhaus wrth lywodraethu ac yn adolygu effeithiolrwydd y drefn lywodraethu'n rheolaidd. Cynhaliwyd adolygiad ffurfiol o effeithiolrwydd y drefn lywodraethu yn 2018/19 a rhoddwyd cynllun gweithredu ar waith.

Pennir y materion a neilltuir yn arbennig i'w penderfynu gan y Cyngor yn siarter a statudau'r brifysgol, trwy arfer ac o dan y cod rheolaeth ariannol gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Mae swyddogaethau'r Canghellor, Cadeirydd y Cyngor, y Dirprwy Ganghellor yn rhai ar wahân i swyddogaeth prif weithredwr y brifysgol, sef yr Is-ganghellor. Daw mwyafrif aelodau'r Cyngor o'r tu allan i'r brifysgol (disgrifir hwy fel aelodau annibynnol). Rhaid dewis Cadeirydd y Cyngor o blith yr aelodau lleyg. Hefyd ymhlith ei aelodau mae cynrychiolwyr o blith staff y brifysgol ac o blith y myfyrwyr.

Cyfarfu'r Cyngor bum gwaith yn ystod 2019-20 ond ymdrinnir â llawer o'i waith manwl gan bwyllgorau sefydlog y Cyngor yn y lle cyntaf. Mae'r holl bwyllgorau wedi eu cyfansoddi'n ffurfiol gyda chylch gorchwyl ac aelodaeth sy'n cynnwys aelodau annibynnol o'r Cyngor.

Gellir gweld aelodaeth y pwyllgorau a bywgraffiadau'r aelodau yma: **https://www.bangor.ac.uk/cy/amdanom-ni/rheolaeth-a-llywodraethiant**

| | |
|---|---|
| Cadeirydd y Cyngor | **Marian Wyn Jones** (tan 8 Chwefror 2025) |
| Dirprwy Ganghellor | **Yr Athro Gareth Roberts** (tan 31 Awst 2022) |
| *Ex-officio* | |
| Is-ganghellor | **Yr Athro Iwan Davies** |
| Dirprwy i'r Is-ganghellor | **Yr Athro Oliver Turnbull** |
| Llywydd, Undeb y Myfyrwyr | **Henry Williams** (tan 30 Mehefin 2021) |
| Llywydd, UMCB | **Iwan Evans** (tan 30 Mehefin 2021) |
| *Wedi eu penodi* | |
| Gan y Senedd | **Dr Llion Jones** (tan 31 Awst 2023) |
| | **Dr Lynne Williams** (tan 12 Hydref 2024) |
| Gan y staff academaidd | **Dr Myfanwy Davies** (tan 30 Medi 2023) |
| Gan y staff cefnogi | **Tudur Williams** (tan 31 Gorffennaf 2022) |

*Aelodau Annibynnol*
**Julie Perkins** (tan 31 Hydref 2024)
**Dr Karen Jones** (tan 31 Hydref 2021)
**Dr Griff Jones** (tan 31 Mawrth 2022)
**Alison Lea-Wilson** (tan 31 Gorffennaf 2023)
**Dr Ian Rees** (tan 31 Gorffennaf 2023)
**Syr Paul Lambert** (tan 31 Awst 2024)
**Marc P. Jones** (tan 31 Awst 2024)
**Eric Hepburn** (tan 31 Hydref 2024)
**Atul Devani** (tan 31 Hydref 2024)
**Kailesh Karavadra** (tan 31 Hydref 2024)
Ysgrifennydd y Cyngor: **Gwenan Hine**





### Aelodau Annibynnol y Cyngor/ Amrywiaeth a Chynhwysiant y Corff Llywodraethu

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a chaiff pob hysbyseb am aelodau annibynnol eu hysbysebu'n allanol a chroesawir ceisiadau'n arbennig gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Ystyrir ceisiadau gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a chânt eu hystyried yn erbyn yn y matrics sgiliau cyfredol. Nid yw'r un o'r aelodau annibynnol yn derbyn unrhyw dâl, ac eithrio ad-daliad treuliau, am y gwaith a wnânt i'r brifysgol. Mae'r holl aelodau a benodir i'r Cyngor yn gwasanaethu am gyfnod o 4 blynedd, ond gellir eu hailbenodi am gyfnod o 8 mlynedd y mwya

### Is-bwyllgorau'r Cyngor

***Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu***
**Cadeirydd - Marian Wyn Jones**

Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yw Cadeirydd y Cyngor ac mae'n cynnwys tri aelod annibynnol o'r Cyngor, ynghyd â'r aelod Senedd sydd wedi gwasanaethu hwyaf ar y Cyngor a'r aelod staff academaidd ar y Cyngor. Mae Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn ogystal ag uwch swyddogion y brifysgol hefyd yn aelodau.

Mae'r pwyllgor, ar ran y Cyngor, yn goruchwylio pedwar maes allweddol: Llywodraethu'r brifysgol, pwyllgorau'r Cyngor a'u haelodaeth, cymrodoriaethau a graddau er anrhydedd a'r adolygiad effeithiolrwydd


***Y Pwyllgor Archwilio a Risg***
**Cadeirydd - Dr Griff Jones**

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael ei gadeirio gan aelod annibynnol o'r Cyngor ac mae'r pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter. Mae'n cynnwys tri aelod annibynnol o'r Cyngor a dau aelod allanol cyfetholedig gydag archwilwyr mewnol ac allanol y Brifysgol yn bresennol.

Mae'r pwyllgor yn ystyried adroddiadau ac argymhellion ar gyfer gwella systemau rheoli mewnol y Brifysgol, ynghyd ag ymatebion rheoli a chynlluniau gweithredu. Mae aelodau'r tîm gweithredu ac uwch staff eraill yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, yn ôl yr angen.

Mae'r pwyllgor yn cynghori'r Cyngor ar benodi a chydnabyddiaeth yr archwilwyr mewnol ac allanol. Yn unol â'r polisi rheoli risg, mae gan y Brifysgol brosesau ffurfiol ar waith i werthuso a rheoli risgiau sylweddol sy'n wynebu'r sefydliad. Bydd yn derbyn adroddiadau sy'n nodi dangosyddion perfformiad a risg allweddol ac yn ystyried materion posibl sy'n ymwneud gyda chamau rheoli wedi'u hamlygugan fecanweithiau rhybuddio cynnar wedi'u lleoli yn unedau gweithredol y Brifysgol ac wedi'u hatgyfnerthu gan hyfforddiant ymwybyddiaeth risg. Mae'r pwyslais ar gael mesur addas o sicrwydd ac nid ar adrodd yn ôl eithriadau yn unig.

Mae'r pwyllgor yn ystyried dogfennaeth prosesau rheoli risg ac archwilio mewnol y Brifysgol ac yn ystyried digwyddiadau ers diwedd y flwyddyn flaenorol.



## LLYWODRAETHU: PARHAD

### Risg a Rheolaethau Mewnol

Mae Cyngor y Brifysgol yn gyfrifol am y system rheolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni nodau ac amcanion y Brifysgol, tra'n diogelu arian cyhoeddus a chronfeydd eraill.

Mae systemau'r camau rheoli hyn wedi'u cynllunio i reoli, yn hytrach na dileu, risgiau sylweddol sy'n bygwth amcanion busnes y Brifysgol; felly nid oes ond sicrwydd rhesymol yn hytrach na sicrwydd absoliwt yn erbyn camddatganiad neu golled faterol.

Mae'r Cyngor yn derbyn adroddiad blynyddol ar waith yr archwilydd mewnol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae hyn yn rhoi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol a phrosesau rheoli risg a llywodraethu'r brifysgol.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020 mae'r adroddiad yn mynegi barn foddhaol bod gan y Brifysgol fframwaith digonol ac yn effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu, rheolaeth fewnol ac economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, yn amodol ar nodi gwelliannau pellach i sicrhau ei bod yn parhau'n ddigonol ac yn effeithiol. Mae'r Cyngor yn fodlon bod hyn wedi bod ar waith yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 a'i fod yn unol â chanllawiau CCAUC hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol; a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ar ran y Cyngor. Ni nodwyd unrhyw wendidau arwyddocaol mewn perthynas â chamau rheoli yn y cyfnod.

Mae'r Cyngor yn fodlon bod gan y Brifysgol brosesau digonol ac effeithiol ar waith mewn perthynas â rheoli risg, rheoli a llywodraethu; effeithlonrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd; a rheoli a sicrhau ansawdd y data a gyflwynir i gyrff statudol – o gofio na all unrhyw system rheolaeth fewnol ond darparu sicrwydd rhesymol, heb gyfiawnhad, yn erbyn camddatganiad neu golled.

Mae elfennau allweddol system rheoli cyllidol fewnol y Brifysgol, a gynlluniwyd i gyflawni'r cyfrifoldebau a nodir uchod, yn cynnwys y canlynol:

- diffiniadau clir o gyfrifoldebau penaethiaid adrannau academaidd a gweinyddol a dirprwywyd yr awdurdod iddynt
- proses gynllunio tymor canolig a thymor byr gynhwysfawr, wedi'i hategu gan incwm blynyddol manwl, gwariant a chyllidebau cyfalaf
- adolygiadau rheolaidd o berfformiad academaidd ac adolygiadau chwarterol o ganlyniadau ariannol gan gynnwys adrodd ar amrywiant a diweddaru'r canlyniadau a ragwelir
- gofynion wedi'u diffinio a'u ffurfioli'n glir ar gyfer cymeradwyo a rheoli gwariant, gyda phenderfyniadau buddsoddi sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf neu re feniw yn cael eu gwerthu mor ffurfiol ac yn fanwl ac yn cael eu hadolygu yn unol â lefelau cymeradwyo a bennwyd gan y Cyngor
- rheoliadau ariannol cynhwysfawr, yn nodi manylion camau rheoli a gweithdrefnau ariannol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth
- swyddogaeth archwilio mewnol broffesiynol a drefnir drwy gontract allanol, y cymeradwyir ei rhaglen flynyddol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

### *Pwyllgor Taliadau*

**Cadeirydd - Yr Athro Gareth Roberts**

Caiff y Pwyllgor Taliadau ei gadeirio gan Ddirprwy Ganghellor y Brifysgol ac mae ei aelodaeth yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor, Llywydd Undeb y Myfyrwyr, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth, cynrychiolydd staff academaidd a thri aelod annibynnol o'r Cyngor. Mae ei Gylch Gorchwyl wedi'i osod yn unol â chod Cadeiryddion Cyngor y Prifysgolion (CUC). Mae'r pwyllgor yn pennu ac yn adolygu cydnabyddiaeth ariannol yr Is-Ganghellor, aelodau'r Bwrdd Gweithredol a staff sy'n derbyn cyflogau £ £100,000 ac uwch, yn pennu'r strategaeth ar gyfer taliadau diswyddo i uwch staff yn y Brifysgol ac yn ystyried adroddiadau ar gyflog cyfartal a thâl rhyw o fewn y Brifysgol.

### *Pwyllgor Cyllid a Strategaeth*

**Cadeirydd - Syr Paul Lambert**

Mae'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ac mae'n gyfrifol am fonitro pob agwedd ar reoli'n ymwneud ag adnoddau ffisegol ac ariannol y brifysgol. Aelod annibynnol o'r Cyngor sy'n cadeirio'r pwyllgor, ac mae hefyd yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor, yr Is-ganghellor, Dirprwy Is-ganghellor, Llywydd Undeb y Myfyrwyr, aelod staff ar y Cyngor a thri aelod annibynnol ychwanegol o'r Cyngor.


### *Y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch*

**Cadeirydd - Yr Athro Gareth Roberts**

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn gyfrifol am gyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol y brifysgol mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch, am sicrhau bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i hyrwyddo iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr, ymwelwyr awdurdodedig ac aelodau'r cyhoedd sy'n dod i mewn i'r brifysgol yn gyfreithlon.

Mae hefyd yn cynghori'r brifysgol ar gwestiynau polisi iechyd a diogelwch, yn goruchwylio'r gwaith o weithredu polisi iechyd a diogelwch cymeradwy'r brifysgol ac yn argymell i'r Cyngor unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

Caiff y Pwyllgor ei gadeirio gan y Dirprwy Ganghellor, ac mae hefyd yn cynnwys aelod o staff ar y Cyngor, Llywydd Undeb y Myfyrwyr, yr Is-Ganghellor a'r Dirprwy Is-Ganghellor yn ogystal â nifer o uwch weithredwyr a chynrychiolwyr iechyd a diogelwch o'r colegau a'r Pwyllgor Gwasanaethau Proffesiynol a Diogelwch









## LLYWODRAETHU: PARHAD

***Pwyllgor Materion y Gymraeg***
**Cadeirydd - Yr Athro Gareth Roberts**

Mae Pwyllgor Materion y Gymraeg yn gyfrifol am hyrwyddo dwyieithrwydd, ar ran y Cyngor, yn y brifysgol, a hefyd mewn perthynas ag unrhyw un o amcanion y brifysgol. Mae hefyd yn sicrhau y cydymffurfir â fframwaith deddfwriaethol y Gymraeg a pholisi iaith y brifysgol. Mae'r pwyllgor yn adrodd i'r Cyngor ac yn paratoi adroddiad blynyddol i'r Cyngor.

Cadeirir y pwyllgor gan y Dirprwy Ganghellor, ac mae'r pwyllgor hefyd yn cynnwys yr Is-ganghellor, Dirprwy Is-ganghellor, Llywydd UMCB, aelod staff sydd ar y Cyngor yn ogystal ag uwch swyddogion perthnasol eraill o'r brifysgol.

***Pwyllgor Diswyddiadau***
**Cadeirydd - Dr Ian Rees**

Mae'r Pwyllgor Diswyddiadau yn ymdrin â materion yn ymwneud â diswyddo a chontractau cyfnod penodol. Cadeirir y pwyllgor gan aelod annibynnol o'r Cyngor, ac mae hefyd yn cynnwys dau aelod annibynnol arall o'r Cyngor a dau aelod staff academaidd a enwebwyd gan y Senedd.

Ar hyn o bryd mae swyd- dogaeth y pwyllgor ei hun yn ymwneud ag ymgynghori rhwng y brifysgol a'r undebau llafur mewn perthynas â'r newidiadau i'r Siarter a chael gwared â'r Statudau wedi hynny. Mae nifer o Ordinhadau, yn cynnwys polisi contract cyfnod penodol a pholisi rheoli newid yn cael eu trafod gyda'r undebau llafur a allai olygu na fydd angen y pwyllgor hwn mwyach.

**Y Senedd**

Y Senedd yw awdurdod academaidd y brifysgol a daw ei haelodaeth yn gyfan gwbl o blith staff academaidd a myfyrwyr y sefydliad. Mae'r Senedd yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn fel rheol. Mae aelodaeth y Senedd wedi ei bennu yn Ordinhad 12 a'r Is-ganghellor yw'r cadeirydd. Mae'r aelodaeth hefyd yn cynnwys y Dirprwy i'r Is-ganghellor, y dirprwy is-gangellorion, deoniaid, pob pennaeth ysgol, pennaeth pob sefydliad rhyngddisgyblaethol, un cynrychiolydd pellach o bob ysgol academaidd, pum cynrychiolydd myfyrwyr a benodir gan Undeb y Myfyrwyr, hyd at bum aelod cyfetholedig a hyd at ddeg aelod acade- maidd annibynnol.

Mae'r is-bwyllgorau canlynol yn adrodd i'r Senedd: Panel Apeliadau'r Senedd, byrddau arholi, y Pwyllgor Gwobrau a Dyfarniadau, y Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig, y Pwyllgor Llywodra- ethu Ymchwil a Moeseg, y Pwyllgor Enwebiadau a'r Bwrdd Disgyblu.

**Y Llys**

Mae'r Llys yn gorff mawr, ffurfiol yn bennaf sydd ychydig yn debyg i gyfarfod rhanddeiliaid. Mae'n gyfrwng i gysylltu'r sefydliad â'r buddiannau ehangach y mae'r brifysgol yn eu gwasanaethu,ac mae'n fforwm cyhoeddus lle gall aelodau'r Llys godi unrhyw faterion yn ymwneud â'r brifysgol. Fel rheol mae'r Llys yn cyfarfod unwaith y flwyddyn i dderbyn adroddiad blynyddol a chyfrifon y brifysgol. Daw mwyafrif aelodau'r Llys o'r tu allan i'r brifysgol, gan gynrychioli cymunedau gogledd Cymru a chyrff penodol eraill sydd â diddordeb yng ngwaith y brifysgol, ond mae'r aeloda-eth hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith staff y brifysgol (academaidd a gwasanaethau proffesiynol) ac o blith y myfyrwyr.

**Y Tîm Gweithredu**

Y tîm gweithredu yw uwch grŵp rheoli'r Brifysgol, ac mae'n gyfrifol am reoli a gweinyddu'r Brifysgol yn gyffredinol. Cadeirir y tîm gweithredu gan yr Is-Ganghellor ac mae hefyd yn cynnwys y Dirprwy Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Gangellorion, y Prif Swyddog Gweithredu, y Cyfarwyddwr Cyllid dros dro, y cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a'r Prif Swyddog Marchnata/Is-lywydd Rhyngwladol.

**Aelodau annibynnol o'r Cyngor**

**Marian Wyn Jones - Cadeirydd y Cyngor**

Mae Marian Wyn Jones yn gyn newyddiadurwr a gwneuthurwr ffilmiau dogfen a enillodd sawl gwobr. Cafodd Marian yrfa ddisglair yn y BBC cyn datblygu gyrfa fel cyfarwyddwr anweithredol ar lefel uchaf bywyd cyhoeddus, yn cynnwys gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Celfyddydau Cymru, lle mae'n is-gadeirydd. Mae hefyd wedi gwasanaethu ar gyrff llywodraethu nifer o elusennau eraill a sefydliadau addysgol. Mae hi eisoes wedi bod yn aelod o'r Cyngor, ac o'r herwydd mae ganddi ddealltwriaeth drylwyr o'r brifysgol a'r heriau sy'n wynebu'r sector addysg uwch.

Cafodd Marian, sy'n siaradwr Cymraeg rhugl, ei magu yng nghanolbarth Cymru a'i haddysgu yn Aberystwyth a Llundain. Mae wedi byw yng Ngogledd Cymru ers dros 30 mlynedd. Ymhlith ei diddordebau mae cerddoriaeth a'r theatr, ac mae'n mwynhau cerdded yng nghefn gwlad Cymru yn ogystal â chefnogi tîm pêl-droed cenedlaethol Cymru.

Mae Marian yn aelod o'r pwyllgorau canlynol: Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu (Cadeirydd); Pwyllgor Taliadau; Pwyllgor Cyllid a Strategaeth

**Yr Athro Gareth Ffowc Roberts: Dirprwy Ganghellor a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor**

Bu Gareth Roberts yn brifathro'r Coleg Normal ym Mangor (1994-96). Wedi hynny bu'n Ddirprwy Is-ganghellor ym Mhrifysgol Bangor (1996-2005) ac yn Athro Addysg (2000-2005) ac mae bellach yn Athro Emeritws yn y brifysgol.

Mae wedi arbenigo mewn addysg fathemateg gyda phwyslais arbennig ar addysg ddwyieithog. Cyn ei benodi i'r Coleg Normal bu'n ymgynghorydd mathemateg i Gyngor Sir Gwynedd. Trwy gyfrwng erthyglau a llyfrau, ac ar y cyfryngau, mae wedi cyfrannu'n helaeth at boblogeiddio mathemateg. Yn 2010 dyfarnodd yr Eisteddfod Genedlaethol y Fedal Gwyddoniaeth a Thechnoleg iddo am ei gyfraniad at fathemateg. Cafodd ei urddo i Orsedd y Beirdd yn Eisteddfod Wrecsam yn 2011. Cafodd ei ethol yn Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn 2016. Ar hyn o bryd mae'n olygydd 'Gwyddonwyr Cymru/Scientists of Wales', a gyhoeddir gan Wasg Prifysgol Cymru. Cyfres yw hon sy'n mawrygu cyfraniad gwyddoniaeth a thechnoleg at hanes Cymru.

## LLYWODRAETHU: PARHAD

Mae Gareth yn aelod o'r pwyllgorau canlynol: Pwyllgor Iechyd a Diogelwch (cadeirydd); Pwyllgor Strategol y Gymraeg (cyd-gadeirydd); Pwyllgor Archwilio a Risg

### Atul Devani

Mae Atul Devani wedi dal nifer o uwch swyddi mewn cwmnïau technoleg meddalwedd mewn amryw o sectorau gan gynnwys cyllid, technoleg symudol, telathrebu, bwyd a diod, iechyd a deunydd fferyllol. Ef oedd sylfaenydd a phrif swyddog gweithredol United Clearing Plc, a restrwyd gan AIM ac a werthwyd i BSG yn 2006. Ar hyn o bryd mae Atul yn brif swyddog gweithredol darparwr gofal iechyd yn y Deyrnas Unedig ac yn gadeirydd ymddiriedolaeth cyfalaf menter yn Maven Capital ac yn fuddsoddwr mewn nifer o gwmnïau preifat. Mae hefyd yn fentor i entrepreneuriaid yn y Company of Information Technologists yn Llundain. Mae gan Atul radd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Peirianneg Electronig o Brifysgol Bangor.

Mae Atul yn aelod o'r pwyllgorau canlynol: Pwyllgor Archwilio a Risg

### Eric Hepburn CBE

Bu Eric yn gyfarwyddwr diogelwch Senedd San Steffan rhwng mis Medi 2016 a mis Rhagfyr 2020, swydd a oedd yn ymwneud â diogelwch corfforol, gweithredol a phersonél Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ac roedd yn aelod o fwrdd rheoli'r ddau dŷ. Mae'n gyfarwyddwr anweithredol ar raglen seiberddiogelwch Senedd San Steffan ac yn uwch berchennog cyfrifol (SRO) ar gyfer rhaglen adfer ac adnewyddu proffil uchel gwerth £5bn yn Senedd San Steffan.

Mae ei swyddi blaenorol wedi cynnwys: Cyfarwyddwr diogelwch i'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad (FCO) gyda chyfrifoldeb am bob agwedd ar ddiogelwch ffisegol, technegol a diogelwch personél mewn 286 o swyddfeydd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad dramor yn ogystal ag yn y Deyrnas Unedig; Gwasanaethau Corfforaethol Prif Gonswl EM (FCO), 2015 - 2015, Washington DC; Prif Swyddog Gweithredu (10 Downing Street), 2006 - 2012, gan gynnwys adnewyddu'r adeilad; Cyfarwyddwr Seilwaith (Swyddfa'r Cabinet), 2002 - 2006 yn gweithio ar ystadau, rheoli cyfleusterau, TG a thelathrebu, diogelwch; amrywiol swyddi TG a rheoli project yn y sector preifat. Mae'n aelod o dîm adolygiadau risg uchel Gateway a chanddo brofiad o weithio gyda'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae'n gyfrifydd rheoli siartredig ac yn fanciwr siartredig, mae ganddo MBA gyda rhagoriaeth o Henley Management College ac mae wedi graddio o academi Major Projects Leadership Academy Prifysgol Rhydychen/Awdurdod Projectau a Seilwaith Trysorlys EM.

Mae Eric yn aelod o'r pwyllgorau canlynol: Pwyllgor Archwilio a Risg; Pwyllgor Iechyd a Diogelwch; Pwyllgor Taliadau. Ef hefyd yw'r prif lywodraethwr Prevent ar y Cyngor.

### Dr Griff Jones

Mae Dr Griff Jones yn fiocemegydd a oedd, tan iddo ymddeol, yn uwch reolwr ar safle Peboc Eastman Chemicals yn Llangefni. Bu'n gadeirydd corff llywodraethu Coleg Menai o 2009 tan 2012, ac mae bellach yn is-gadeirydd i Grŵp Llandrillo Menai.

Mae Griff yn aelod o'r pwyllgorau canlynol: Pwyllgor Archwilio a Risg (Cadeirydd)

### Dr Karen Jones

Mae Karen Jones yn gyn-gyfarwyddwr marchnata ac is-lywydd BAE Systems. Hyfforddodd fel microbiolegydd yn University College Hospital, Llundain. Mae wedi gweithio i British Aerospace, bioMerieux a Medeva plc. Mae ganddi brofiad o gyflwyno rhaglenni addysgol, diwylliannol a thechnolegol mewn gwahanol rannau o'r byd.

### Marc Proudlove Jones

Cafodd Marc Jones ei fagu ar fferm y teulu ym Mathrafal, Meifod lle cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2003 a 2015, ac mae bellach yn rheoli'r ffarm. Mae'n gyn fanciwr buddsoddi yn dilyn gyrfa o 30 mlynedd gyda JP Morgan ac RBS. Mae ganddo brofiad rhyngwladol helaeth ar draws Ewrop a'r Dwyrain Pell, yn cynnwys 9 mlynedd yn Hong Kong. Mae Marc bellach yn canolbwyntio ar ddatblygu busnes fel cyfarwyddwr anweithredol neu ymgynghorydd.

Mae Marc yn aelod o'r pwyllgorau canlynol: Pwyllgor Cyllid a Strategaeth; Pwyllgor Taliadau.

### Kailesh Karavadra

Kailesh yw Arweinydd Marchnadoedd Twf Strategol Ernst & Young, yng Nghaliffornia, UDA. Dechreuodd Kailesh ei yrfa yn y Deyrnas Unedig fel cyfrifydd siartredig bron i 30 mlynedd yn ôl, cyn symud i Silicon Valley yn ystod y cyfnod dot-com yn yr 1990au. Ganwyd Kailesh yn Affrica ac ar ôl cael ei orfodi i adael fel ffoadur, teithiodd i India ac yna i'r Deyrnas Unedig, lle dysgodd siarad Saesneg. Ei swydd gyntaf oedd dosbarthu papurau newydd ac ar ôl gweithio mewn siop manwerthu a glanhau mewn cegin bwyty, mae'n dweud ei fod yn deall gwerth gwaith caled.

Mae Kailesh yn falch o fod wedi graddio ym Mhrifysgol Bangor, gan ennill gradd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Peirianneg Electronig ac yna Gradd MEng yn arbenigo mewn deallusrwydd artiffisial. Mae Kailesh yn gyfrifydd siartredig yn y Deyrnas Unedig ac mae wedi cwblhau rhaglenni dysgu busnes gweithredol yn Kellogg, Harvard, Ysgol Busnes Llundain, Stanford, a Phrifysgol Singularity. Pan oedd yn astudio ym Mangor, derbyniodd ysgoloriaeth hedfan gyda'r Llu Awyr Brenhinol.

Yn 2017 dyfarnodd Prifysgol Bangor Gymrodoriaeth er Anrhydedd i Kailesh am ei wasanaethau i fusnes a'r gymuned, ac ymunodd â bwrdd cyn-fyfyrwyr Prifysgol Bangor yn 2019.

Yn ei amser hamdden, mae Kailesh yn mwynhau reidio beiciau modur a hyfforddi timau pêl-droed dynion a merched, mae wedi cwblhau triathlon, awyrblymio, rapelio lawr adeiladau i godi arian at elusen, dringo Mynydd Kilimanjaro i godi arian i adeiladu ffynhonnau dŵr yn Affrica a chadw merched yn yr ysgol, ac wedi dysgu pêl-droed ym Mumbai. Hoff ddyfyniad Kailesh yw "nid oes ots gan bobl beth rydych chi'n ei wybod nes eu bod nhw'n gwybod bod ots gennych chi" ac mae'n ymdrechu i fyw ei fywyd yn unol â hynny.

Mae Kailesh yn aelod o'r pwyllgorau canlynol: Pwyllgor Cyllid a Strategaeth

### Yr Is-lyngesydd Syr Paul Lambert

Mae Syr Paul Lambert wedi meithrin sgiliau strategol, ariannol ac arweinyddiaeth mewn cyfres o swyddi ac apwyntiadau amlwg yn Whitehall a'r sector elusennol. Mae ar hyn o bryd yn Ysgrifennydd Cyffredinol St John International a chynt bu'n ddirprwy bennaeth y Staff Amddiffyn (Gallu i Weithredu), gan fod yn gyfrifol am gyllideb offer a chefnogaeth gwerth £14bn ac am roi cyngor annibynnol i Weinidogion. Cafodd ei urddo'n farchog yn 2012 ac mae wedi ymrwymo i ddysgu gydol oes. Mae ganddo brofiad rhyngwladol helaeth.

Mae Paul yn aelod o'r pwyllgorau canlynol: Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (Cadeirydd); Pwyllgor Taliadau.

### Alison Lea-Wilson MBE

Alison Lea-Wilson yw sylfaenydd Sw Môr Môn ac mae'n un o gyfarwyddwr Halen Môn. Graddiodd o Brifysgol Bangor ac mae'n Gymrawd er Anrhydedd.

Mae Alison yn aelod o'r pwyllgorau canlynol: Pwyllgor Archwilio a Risg; Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu

### Julie Perkins

Mae Julie Perkins yn gyn-fyfyrwraig ym Mangor ac yn Gyfarwyddwr Gweithleoedd Digidol yn y Lloyds Banking Group. Mae'n weithiwr technoleg gwybodaeth proffesiynol, gyda phrofiad o gyflwyno newid, gan ymgorffori newid trawsnewidiol ac mae'n frwd iawn dros hyrwyddo amrywiaeth.

Mae Julie yn aelod o'r pwyllgorau canlynol: Taliadau; Pwyllgor Cyllid a Strategaeth; Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu; Pwyllgor Taliadau

### Dr Ian Rees

Mae Ian Rees yn gyn Bennaeth Coleg Menai ac yn Uwch Gyfarwyddwr gyda chyfrifoldeb am Faterion Allanol gyda Grŵp Llandrillo Menai. Cyn hynny roedd yn Bennaeth/Prif Weithredwr Coleg Meirion-Dwyfor ac yn Bennaeth Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog.

Dros y blynyddoedd mae hefyd wedi bod yn gyfarwyddwr nifer o gyrff, gan gynnwys Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn, Fforwm a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Roedd hefyd yn aelod o Bwyllgor Rhanbarthol Canolbarth Cymru, ELWa.

Rhwng 2006 a 2012 roedd yn aelod o Gyngor Celfyddydau Cymru. Ef oedd Is-gadeirydd y Cyngor, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg rhwng 2009 a 2012.

Rhwng 2012 a 2015 bu Ian yn cadeirio Panel Ymgynghorol Comisiynydd y Gymraeg ac yn 2018 cafodd ei benodi'n gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg y Comisiynydd.

Mae Ian yn aelod o'r pwyllgorau canlynol: Pwyllgor Archwilio a Risg; Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, Pwyllgor Diswyddiadau (Cadeirydd)

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# DATGANIADAU ARIANNOL

BLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

# ADOLYGIAD STRATEGOL

## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

**Ein cenhadaeth**
Sefydliad cryf a hyderus a gydnabyddir yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel canolfan ragoriaeth am ei bortffolio amrywiol o addysgu ac ymchwil, ac am y profiad unigryw, amlddiwylliannol a chynhwysol y mae'n ei roi i'w staff a'i fyfyrwyr.

**Y brifysgol mewn cyd-destun**
Mae Prifysgol Bangor yn parhau i ragori ar adeg pan mae Addysg Uwch yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn wynebu cyfnod heriol, i raddau mwy fyth yn sgil effaith y pandemig Coronafeirws. Rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar lwyddiannau diweddar, gan weithio gyda chymunedau amrywiol a nodedig i ddarparu addysgu, ysgolheictod ac ymchwil rhagorol, gan gadw ein pwyslais cryf ar gyfraniad nodedig a gwerthfawr ein myfyrwyr a pharhau'n ffyddlon i'n cyd-destun dwyieithog a diwylliannol unigryw.

Mae gwelliannau parhaus o ran boddhad myfyrwyr a safonau addysgu'n cael eu hadlewyrchu yn y canlyniadau gwell a gafwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ar ben hynny cafwyd nifer o lwyddiannau nodedig yng ngwobrau WhatUni.com yn 2019.

Mewn ymchwil, mae'r cyfraniad mawr yr ydym yn ei wneud i wella gofal iechyd a lles, dwyieithrwydd a gwarchod yr amgylchedd, yn ei gwneud yn amlwg bod yr ymchwil sy'n cael ei wneud gan academyddion Prifysgol Bangor yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi ac ar fywydau pobl ledled y byd.

Gan edrych ymlaen at Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021, rydym yn parhau i adeiladu ar ein rhagoriaeth ymchwil, i ddarparu amgylchedd lle gall y gymuned ymchwil ffynnu, gan gefnogi'r meysydd presennol o gryfder ymchwil, meithrin meysydd ymchwil newydd ar draws yr holl ddisgyblaethau, a bod yn sail i addysgu sy'n cael ei lywio gan ymchwil sef yr hyn sy'n gefn i'r haddysgu o ansawdd uchel a'r profiad a gaiff ein myfyrwyr. Rydym yn gweithio gyda busnesau, llywodraethau a chyn-fyfyrwyr i sicrhau bod Prifysgol Bangor yn parhau'n berthnasol i'w hanghenion ac i anghenion egin-farchnadoedd, gan sicrhau ein bod yn uchafu ein cyfraniad cadarnhaol i'r economi leol a r hanbarthol.

Mae'r brifysgol yn parhau i fod wedi ymrwymo i ffurfio cysylltiadau strategol manteisiol yn y rhanbarth. Yn benodol, cryfhau ymhellach y berthynas â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel llwyfan i adeiladu cryfder cydweithredol pellach mewn ymchwil ac addysg sy'n ymwneud ag iechyd a meddygaeth.

**Cyfeiriad strategol**
Mae cynllun strategol y brifysgol am y cyfnod 2015-2020 yn gosod cyfeiriad strategol i Brifysgol Bangor fel prifysgol hyderus a llwyddiannus, sy'n gallu meddwl yn wahanol i adnabod heriau, risgiau a chyfleoedd ym mhob maes o'n busnes. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i adolygu'r cyfeiriad strategol ar gyfer y cam nesaf yn natblygiad y brifysgol a bydd yn cael ei lansio yn 2021.

Rydym yn parhau i lunio strategaeth optimaidd ar gyfer ein hystâd. Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi cwblhau nifer o ddatblygiadau newydd, sy'n cynnwys llety myfyrwyr yn ogystal â mannau ar gyfer addysgu ac ymchwil ac ymwneud â'r gymuned. Maent yn amrywio o ddatblygiadau newydd i waith ar brif adeilad hanesyddol y brifysgol, er mwyn sicrhau y bydd myfyrwyr y dyfodol yn elwa o gael cyfleusterau academaidd rhagorol a phrofiad penigamp fel myfyrwyr.

**Gweledigaeth**
Bod yn brifysgol flaengar gydag enw da rhyngwladol am addysgu ac ymchwil, sy'n meithrin datblygiad deallusol a phersonol ei myfyrwyr a'i staff, yn darparu amgylchedd amlddiwylliannol cefnogol, yn hyrwyddo ehangu mynediad a chynwysoldeb, ac yn sicrhau y bydd ein gweithgareddau'n arwain at fudd amgylcheddol a chynnydd cymdeithasol o fewn economi gadarn.

Ein nod yw bod yn brifysgol gynaliadwy ym mhob agwedd ar ein gwaith. Mae ein huchelgais yn cynnwys nid yn unig isadeiledd a gweithrediad safleoedd y brifysgol, ond hefyd sut mae'r brifysgol yn cynllunio ar gyfer twf, yn ogystal â'n swyddogaeth ar gyfer Cymru a thu hwnt.

**Recriwtio myfyrwyr**
Mae recriwtio myfyrwyr yn parhau i fod yn farchnad gystadleuol iawn, a does dim cap go iawn wedi ei roi ar niferoedd sefydliadau addysg uwch yn Lloegr nac yng Nghymru. Yn dilyn recriwtio niferoedd cymharol sefydlog dros y 7 neu 8 mlynedd flaenorol, llwyddodd y brifysgol i wella recriwtio myfyrwyr yn gyffredinol, gan ragori ar lefelau recriwtio'r flwyddyn flaenorol a'n disgwyliadau. Roedd recriwtio myfyrwyr tramor yn llawer gwell, yn enwedig ar lefel ôl-radd.

Ym mis Medi 2018 newidiodd y cyllid ar gyfer addysgu a'r ffioedd a delir gan israddedigion, ac mae system sydd wedi'i seilio ar fenthyciadau bellach yn cael ei gweithredu i israddedigion o Gymru a Lloegr, tra bo israddedigion o Gymru hefyd yn manteisio ar grant cynhaliaeth o rhwng £1,000 a mymryn dros £10,000 a hynny'n seiliedig ar brawf modd.

Mewn ymateb i'r farchnad newydd hon, gwelwyd cynnydd mewn myfyrwyr yn ehangu eu gorwelion daearyddol ac mae pob sefydliad yn y Deyrnas Unedig wedi cynyddu eu gweithgarwch o ran marchnata a throsi ceisiadau'n dderbyniadau pendant. Rydym yn parhau i fonitro ein marchnata ac yn parhau i ddatblygu dulliau arloesol o farchnata a byddwn yn parhau i ddatblygu rhaglenni traddodiadol a chyfoes mewn meysydd y mae galw amdanynt gan fyfyrwyr neu gyflogwyr, yn lleol ac yn fyd-eang, er mwyn sicrhau bod Prifysgol Bangor yn parhau'n gystadleuol yn y farchnad newydd.

Mae HEFCW wedi cytuno ar gynllun ffioedd, sy'n cynnwys ffioedd o £9,000 i israddedigion cartref a myfyrwyr TAR am y blynyddoedd hyd at 2020/21. Mae'r cynllun ffioedd yn cynnwys nifer cynyddol o fuddsoddiadau i gefnogi ehangu mynediad, profiad myfyrwyr, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyflogadwyedd, gan gynnwys rhoi mynediad am ddim i'r holl glybiau chwaraeon, cymdeithasau a gweithgareddau gwirfoddoli yn undeb y myfyrwyr, a rhoi gwell darpariaeth llyfrgell a chwaraeon. Mae'r brifysgol yn parhau i berfformio'n well na'r meincnod o ran boddhad cyffredinol yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr.

Mae cynyddu niferoedd myfyrwyr ôl-radd a rhyngwladol yn bwysig hefyd, a byddwn yn sicrhau bod y cyrsiau a gynigiwn yn gynaliadwy ac yn ddeniadol, gan adeiladu ar brofiad myfyrwyr, a chryfhau brand y brifysgol gartref a thramor. Mae datblygu cysylltiadau agosach gyda nifer o bartneriaid rhyngwladol, yn ogystal â pharhau i ddatblygu Coleg Bangor yn Tsieina, yn gamau allweddol i ddatblygu llif cyson o fyfyrwyr i'r Deyrnas Unedig, yn ogystal ag ehangu ôl troed ein haddysg a'r mannau y daw ein myfyrwyr ohonynt.

**Datblygiadau cyfalaf**
Fel rhan o'r adolygiad o gyfeiriad strategol y brifysgol, mae adolygiad o'n Strategaeth Ystadau ar y gweill ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau bod gennym y gallu i ddarparu'n effeithiol ar gyfer ystod eang o weithgarwch addysgu ac ymchwil ar draws portffolio eang o ddisgyblaethau. Bydd hyn yn ystyried tueddiadau newydd a thueddiadau sy'n cael eu rhagweld ar gyfer mannau gwaith ac amgylcheddau addysgu a dysgu, a'r angen hefyd am fannau dysgu cymdeithasol ochr yn ochr ag ystafelloedd addysgu mwy ffurfiol.

Un elfen greiddiol yn ein cynlluniau ar gyfer yr ystad fydd sicrhau ein bod yn ymgorffori cynaliadwyedd yn rhan o unrhyw brojectau newydd o'r cychwyn cyntaf. Bydd y dull hwn yn cefnogi'r rhaglen y mae'r brifysgol wedi ei dilyn i nodi cyfleoedd i sicrhau effeithlonrwydd ynni mewn tua 30 adeilad ar draws ystad Prifysgol Bangor a fydd yn rhoi adenillion gwarantiedig ar gost y buddsoddiad o fewn 8 mlynedd. Bydd yr holl ynni sy'n cael ei arbed yn cyfrannu at ein targedau o ran parhau i ostwng ein hôl-troed carbon, sydd wedi bod yn gostwng yn gyson ers nifer o flynyddoedd bellach.

**Prif risgiau ac ansicrwydd**
Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod risgiau ac ansicrwydd cynhenid yn gysylltiedig â sawl agwedd ar ei gweithrediadau. Mae'n anelu at adnabod, rheoli a lliniaru'r risgiau hynny lle bynnag y bo modd a hyrwyddo diwylliant o reoli risgiau drwy'r Brifysgol gyfan. Caiff y gofrestr risg sefydliadol ei hadolygu'n ffurfiol gan y Grŵp Tasg Rheoli Risg a'r Pwyllgor Gweithredu'n rheolaidd a rhoddir adroddiad ar y mater yn achlysurol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r broses hon, ynghyd ag ystyriaethau eraill, yn llywio'r cynllun archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn i ddod, yn ogystal â galluogi'r Pwyllgor Archwilio a Risg i roi sicrwydd i'r Cyngor trwy gyfrwng yr Adroddiad Blynyddol.

Ymysg y risgiau allweddol sydd o bwysigrwydd neilltuol i'r Brifysgol ar hyn o bryd mae'r canlynol:

Effaith 'Brexit' yn y dyfodol ar lefelau cyllid ymchwil, cydweithrediadau grant a recriwtio/cyfnewid myfyrwyr ynghyd â statws staff sy'n wladolion yr Undeb Ewropeaidd;

Methu â chynnal iechyd ariannol y sefydliad, a chynnal hylifedd, ar adeg o gyfyngiadau economaidd sylweddol a chystadleuaeth gynyddol.

Methu ag ymateb yn ddigonol i farchnad gynyddol gystadleuol, gan gynnwys ein gallu i gyflawni rhagolygon recriwtio myfyrwyr, o ystyried diwygiadau a wnaed i drefn cyllido myfyrwyr a chynnydd mewn buddsoddi ym maes marchnata gan sefydliadau sy'n cystadlu â ni; ac

Effaith bosibl y cynnydd parhaus o ran cost darparu pensiynau â buddion wedi'u diffinio ac, yn achos yr USS, gwasanaethu'r diffyg sylweddol. Er cytuno ar gynllun adfer is wedi diwedd y flwyddyn, bydd yn destun pwysau parhaus gan symudiadau'r farchnad cyn y prisiad nesaf.

Mae risgiau eraill y mae'r brifysgol yn eu rheoli ar sail barhaus. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Sicrhau bod ystâd y brifysgol yn cydymffurfio ac yn addas i'r diben;
- Sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a rheoliadau e.e. diogelwch data, rheoliadau'n ymwneud â fisas;
- Sicrhau ein bod yn parhau i gynnal profiad o ansawdd uchel i fyfyrwyr; a
- Sicrhau bod cyfamodau benthyciadau banc yn cael eu bodloni.

**Perfformiad gweithredol**
Yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2020, roedd y brifysgol yn teimlo effaith sylweddol y pandemig Coronafeirws ar draws pob agwedd ar ei gweithgarwch. Er bod yr effaith ariannol yn debygol o fod yn fwy yn y blynyddoedd nesaf, bu effaith yn 2019/20, yn bennaf o ran preswylfeydd ac effaith fasnachol. Hefyd effeithiwyd ar yr is-gwmnïau sef Canolfan Datblygu Rheolaeth Gogledd Orllewin Cymru ac UNDEB yn dilyn y cyfnod clo cenedlaethol o fis Mawrth 2020 ymlaen. Defnyddiodd y brifysgol y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws i gefnogi'r brifysgol ac i helpu i warchod staff y mae effaith y coronafeirws yn effeithio arnynt.

Effeithir ar y gwarged gweithredu yr adroddwyd amdano ar gyfer y flwyddyn o £9.4miliwn gan nifer o ffactorau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys addasiadau pensiwn ac effaith y pandemig coronafeirws. Mae'r perfformiad sylfaenol fel y caiff ei fesur gan EBITDA (enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddio) yn well adlewyrchiad o'r perfformiad cyfredol.

Mae'r brifysgol, felly, wedi mabwysiadu mesur ychwanegol sef cynaliadwyedd ariannol, wedi ei seilio ar addasu canlyniadau ar gyfer symudiadau blynyddol anghylchol, yn unol â methodoleg a ddatblygwyd i'w defnyddio ar draws y sector addysg uwch. Mae'r mesur a fabwysiadwyd yn seiliedig ar EBITDA, ond yna tynnir effaith addasiadau anghylchol sy'n bresennol yn y ffigyrau cyhoeddedig; mae hyn yn caniatáu cymharu, mewn modd mwy realistig ac ystyrlon, berfformiad rhwng blynyddoedd, neu hyd yn oed sefydliadau.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r canlyniadau a geir wrth ddefnyddio methodoleg 'EBITDA Addasedig Addysg Uwch':

| | 2019/20 | 2018/19 | Symudiad |
|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m |
| Gwarged/(Diffyg) | 11.1 | (20.1) | 31.2 |
| *Ychwanegu yn ôl* | | | |
| Dibrisiad | 13.3 | 12.6 | 0.7 |
| Llog | 5.8 | 5.7 | 0.1 |
| EBITDA | 30.2 | (1.8) | 32.0 |
| Addasiadau | | | |
| Enillion ar waredu asedau sefydlog | 0 | (0.2) | 0.2 |
| Pensiynau | (7.2) | 19.3 | (26.5) |
| Grantiau Cyfalaf | (1.5) | (1.6) | 0.1 |
| Gwaddolion newydd | (0.3) | 0 | (0.3) |
| Costau Ailstrwythuro | 0 | 1.4 | (1.4) |
| EBITDA Addasedig | 21.2 | 17.1 | 4.1 |

Mae EBITDA Addasedig AU 2019/20 o £21.2m yn cynrychioli canlyniad cadarnhaol mewn blwyddyn heriol, ac mae ychydig yn uwch na'r hyn a adroddwyd y llynedd sef £17.1m, ar sail gymharol. Mae hyn yn adlewyrchu cyflawni'r targed dros dro o £20m ac roedd yn gyflawniad arbennig o gymeradwy yng ngoleuni'r heriau sy'n wynebu'r brifysgol, yn anad dim oherwydd y pandemig Coronafeirws. Cydnabyddir fodd bynnag bod gwaith sylweddol i'w wneud o hyd i symud i se-fyllfa o gynaliadwyedd ariannol tymor hir.

Cynyddodd cyfanswm yr incwm gan £1.3 miliwn. Roedd y cynnydd mewn incwm ffioedd dysgu a grantiau cyrff cyllido yn gwrthbwyso'r gostyngiad mewn incwm arall yn dilyn effaith y pandemig Coronafeirws ar incwm arall. Bu i incwm ffioedd elwa o'r cynnydd mewn ffioedd gan fyfyrwyr rhyngwladol gan wrthbwyso gostyngiad mewn incwm ffioedd gan fyfyrwyr cartref.

Bu i grantiau cyrff cyllido elwa o gynnydd yn y grant cylchol gan HEFCW ac o ganlyniad i nifer o ffrydiau cyllido ychwanegol, yn rhannol i alluogi'r brifysgol i ymateb i effaith y pandemig Coronafeirws. Roedd incwm ymchwil yn sefydlog, o ran cwantwm cyffredinol a ffynhonnell y cyllid.

Bu i incwm preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau ddioddef gostyngiad sylweddol o £3.3 miliwn i £10.8 miliwn yn 2019/20. Roedd hyn yn ganlyniad uniongyrchol i effaith y Coronafeirws a'r cyfnod clo o ddiwedd mis Mawrth 2020. Yn yr un modd, bu i incwm gwasanaethau eraill a ddarperir gan y brifysgol ddioddef gostyngiad o £1.2miliwn i £3.8 miliwn yn 2019/20.

Cafodd hyn ei wrthbwyso gan gynnydd mewn incwm arall wrth i'r brifysgol dderbyn incwm o fentrau'r llywodraeth a ddyluniwyd i wrthbwyso effaith y pandemig, yn fwyaf arbennig y Cynllun Cadw Swyddi.

O ran costau, bu gostyngiad mewn costau cyflog rheolaidd (o £81.6m i £79.7m). Mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu canlyniad y newidiadau sefydliadol a roddwyd ar waith mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r cyfanswm costau staff yn cynnwys y symudiadau sylweddol yn y darpariaethau pensiwn a drafodir yn ddiweddarach. Cânt eu dangos ar wahân er mwyn osgoi ystumio'r ffigyrau cymharol. Ac eithrio'r symudiadau ar ddarpariaethau USS a Chynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor (BUPAS), mae'r metrig cymhareb costau staff i gyfanswm incwm wedi gostwng o 55.7% i 54.0% eleni.

Mae costau heblaw cyflogau'n parhau i gael eu rheoli'n llym tra aeth costau dibrisiant i fyny o ychydig o ganlyniad i fuddsoddiad parhaus mewn offer ac isadeiledd sy'n gweithio trwodd.

Yn dilyn y costau ychwanegol sylweddol a gydnabuwyd mewn perthynas â'r ddau gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio yr ydym yn eu gweithredu ym mlwyddyn ariannol 2018/19, budd cyffredinol oedd y symudiad yn y darpariaethau ym mlwyddyn ariannol 2019/20. Roedd hyn oherwydd i'r darpariaethau blaenorol a wnaed ar gyfer USS wrthdroi'n rhannol yn ystod 2019/20, gan arwain at fudd o £11.4m yn 2019/20 o gymharu â chost o £18.2m yn y flwyddyn flaenorol. Yn achos y cynllun pensiwn BUPAS lleol, cynyddodd y ddarpariaeth i £4.2m o gymharu â £1.2m yn y flwyddyn flaenorol.

Mewn blynyddoedd blaenorol, nid yw'r gwarged yng nghynllun pensiwn y brifysgol (BUPAS) wedi'i gydnabod yn y datganiadau ariannol. Am y tro cyntaf newidiwyd y dull datgelu hwn gan adlewyrchu newid yn nhriniaeth dechnegol gwargedion cynlluniau pensiynau gan adlewyrchu bod y brifysgol yn defnyddio elfen o'r gwarged i gynnal lefelau cyfraniadau. Cafodd canlyniadau'r flwyddyn flaenorol ei hailddatgan i adlewyrchu'r newid yn y dull datgelu. Symudodd y cynllun i fod mewn diffyg ar 31 Gorffennaf 2020. Cymharol ychydig yw'r materion sy'n werth sylw mewn perthynas â'r fantolen. Mae gwariant cyfalaf eleni wedi bod yn gyfyngedig, a dim ond yn rhannol y mae'n gwrthbwyso'r tâl dibrisiad, gan esbonio felly pam fod gostyngiad mewn asedau anghyfredol. Cynyddodd asedau cyfredol net o ganlyniad i gynnydd mewn symiau masnach derbyniadwy a rhagdaliadau ac incwm cronedig. Yn ogystal, cynyddodd balansau arian parod cyffredinol diwedd blwyddyn ar ôl cynnwys arian parod a ddelir fel buddsoddiadau mewn adneuon o fwy na thri mis, gan bron i £3m i £32.8m.

Fel y nodwyd yn flaenorol, yn dilyn y symudiadau mewn darpariaethau pensiwn yn ystod y flwyddyn, bu gostyngiad cyffredinol yn y darpariaethau pensiwn i £23.6m, i lawr o £23.7m yn y flwyddyn flaenorol.

Mae asedau net cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn yn £226.4m, i fyny o £225.8m, a hynny bron yn gyfan gwbl oherwydd y symudiad yn y ddarpariaeth bensiwn. Yn olaf, mewn perthynas â llif arian, cynyddodd y mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredol i £12.4m, cynnydd o 42% ar yr arian parod a gynhyrchwyd yn y flwyddyn flaenorol, sef £8.7m, gan adlewyrchu'r cynnydd mewn EBITDA addasedig.

**Cynlluniau pensiwn**
Cwblhawyd prisiad tair blynedd 'Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor' (BUPAS) 2017 yn ystod 2017/18, a chytunwyd ar atodlen cyfraniadau newydd gyda'r ymddiriedolwyr ym mis Gorffennaf 2018. Mae'r ffigyrau sy'n sail i'r prisiad hwnnw wedi darparu'r sail ar gyfer ffigyrau prisiad 31 Gorffennaf 2020 sydd wedi ei gynnwys yn y cyfrifon hyn. Ar sail FRS102 symudodd y cynllun i warged ym mis Gorffennaf 2018, ac arhosodd felly yn 2019 ond symudodd i sefyllfa o ddiffyg ym mis Gorffennaf 2020. Mae hyn yn adlewyrchu'r adenillion ar asedau twf o £14.5m sy'n parhau i fod yn uwch na'r hyn a gynlluniwyd, sydd yn lliniaru'r rhan fwyaf o'r cynnydd yng nghyfanswm y rhwymedigaethau o £17.6m, o ganlyniad i'r strategaeth ymddiogelu hynod effeithiol - Buddsoddi ar sail Rhwymedigaethau - a fabwysiadwyd gan yr ymddiriedolwyr. Ar nodyn llai cadarnhaol, mae cost cronni buddion y cynllun at y dyfodol yn parhau i godi i lefelau uwch nag erioed oherwydd ffactorau'r farchnad. Arweiniodd hyn at symud y cynllun i sefyllfa o ddiffyg ar 31 Gorffennaf 2020.

Bydd effaith y cynnydd mewn rhwymedigaethau yn cael ei hystyried yn fwy manwl wrth gwblhau gwerthusiad Teirblwydd 2020.

Yn dilyn y newid yn y gofynion datgelu, mae'r ffigyrau am y flwyddyn hyd at Orffennaf 2019 wedi cael eu hailddatgan i gynnwys datgelu'r gwarged o fewn BUPAS ar 31 Gorffennaf 2019.

Bu'n bryder mawr i'r brifysgol, ac i'r sector addysg uwch, bod y cynllun cenedlaethol i staff academaidd a chysylltiedig (USS) wedi wynebu diffygion cynyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ym mis Ionawr 2019 y cadarnhawyd yn derfynol yr atodlen cyfraniadau, ynghyd â'r cynllun adfer diffyg cysylltiedig ar gyfer canlyniad prisiad 2017 a daeth y ffigyrau hyn i rym o 1 Ebrill 2019, gan arwain at gyfraniadau uwch gan gyflogwyr a staff.

Defnyddiwyd y sail hon hefyd ar gyfer cyfrifo'r darpariaethau ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Gorffennaf 2020, gan mai dyna'r sail gyfreithiol gyffredinol yr oedd yn ofynnol i bob cyflogwr ei dilyn wrth wneud cyfraniadau o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

Ar ôl cwblhau prisiad actiwaraidd 2018, cytunwyd ar gynllun adfer diffyg newydd lle bydd angen taliadau adfer diffyg o 2% o gyflogau rhwng 1 Hydref 2019 a 30 Medi 2021 ac yna taliadau o 6% o gyflogau rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Mawrth 2028. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth adfer diffyg wedi gostwng yn sylweddol i £19.4m.

Yn ôl y disgwyl, mae credyd mawr o £10.6m yn ymddangos yn natganiadau ariannol 2019/20 sy'n adlewyrchu'r cynnydd mewn cyfraniadau adfer diffyg.

**Polisïau ac amcanion y trysorlys**
Mae gan y brifysgol nifer o gronfeydd yn deillio o gymynroddion a rhoddion eraill, sy'n cael eu cydnabod yn y cyfrifon hyn fel naill ai gwaddolion neu roddion gyda neu heb gyfyngiadau. Bu'r cronfeydd hyn yn cael eu buddsoddi ar sail gyfun a'u rheoli gan UBS yn unol â pholisi buddsoddi cynaliadwy'r brifysgol. Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchodd y cronfeydd adenillion negyddol o £218k ochr yn ochr ag incwm o £208k, a chyfanswm gwerth y cronfeydd a fuddsoddwyd ar ddiwedd y flwyddyn oedd £5.8m (2018/19 £6.0m).

Buddsoddir adnau hylifedd tymor byr y brifysgol naill ai gyda'n bancwyr perthynas, Santander, hyd at derfyn credyd penodedig, a thu hwnt i hynny fe'u rheolir gan y Royal London Asset Management Group sy'n buddsoddi'r cronfeydd mewn cronfeydd cyfun â graddfa uchel a dyddiadau byr. Eleni, roedd rhai o'r adneuon am gyfnodau hwy na 3 mis ac felly cânt eu dosbarthu fel buddsoddiadau yn hytrach nag arian parod o fewn yr asedau cyfredol. Fel cyfanswm bu cynnydd o bron i £3m yn y daliadau, o £29.9m i £32.8m, gan adlewyrchu balans y symudiadau rhwng dyled net a newidiadau cyfalaf gweithio a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fel yr amlinellwyd yn y Datganiad Llif Arian Cyfunol.

**Llif arian a hylifedd**
Caeodd sefyllfa llif arian a hylifedd y brifysgol mewn sefyllfa well. Cynyddodd asedau cyfredol net i £24.2miliwn (2018/19 £18.6miliwn). Gwellodd mewnlif arian parod net a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredol i £12.4 miliwn (2018/19 £8.7miliwn).

Mae'r sefyllfa hylifedd ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli lefel normal ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn, ac fe'i cyfnerthir gan gyfleuster credyd cylchol gyda Santander na chafodd ei ddefnyddio yn ystod 2018/19 ond yr ydym yn dal gafael ynddo i gefnogi anwadalrwydd mewn llifoedd arian yn ystod y flwyddyn os oes angen.

**Arian cyfalaf**
Cafwyd gwariant o £5.3miliwn ar brojectau cyfalaf yn 2019/20 (2018/19 £6.3miliwn). Buddsoddwyd mewn asedau offer sy'n cefnogi gweithgarwch addysgu ac ymchwil a gweithgarwch y gwasanaethau proffesiynol ar draws yr holl safleoedd a ddefnyddiwn.

**Busnes hyfyw**
Paratoir y datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw. Cred y cyngor fod hwn yn ddull priodol am y rhesymau canlynol: Mae'r grŵp yn cyflawni ei ofynion o ran cyfalaf gweithio o ddydd i ddydd drwy falansau arian parod anghyfyngedig presennol, sy'n ddigonol i gwrdd â rhwymedigaethau fel y dônt yn ddyledus hyd y gellir rhagweld. Mae'r cyngor wedi paratoi gwybodaeth fanwl am lif arian fesul mis ar gyfer 2019/20 a 2020/21. Ar sail yr wybodaeth hon am y llif arian, mae'r cyngor o'r farn y bydd y grŵp yn parhau â hylifedd digonol hyd y gellir rhagweld.
Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys amcangyfrifon o effaith y pandemig Coronafeirws dros y blynyddoedd nesaf. O'r herwydd bu angen i'r brifysgol gynnal ymarfer ailstrwythuro yn 2020/21 i liniaru'r sefyllfa er mwyn sicrhau bod y brifysgol yn rheoli ei sefyllfa arian parod ac yn cynnal hylifedd digonol.

Wrth baratoi'r cyfrifon a'r rhagamcaniadau ar gyfer y dyfodol, rhoddwyd sylw dyledus i lefel ddigynsail y gystadleuaeth a'r ansicrwydd sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y sector addysg uwch, gan gynnwys effaith y pandemig Coronafeirws, ac nid yw'r ffactorau hynny'n debygol o ddiflannu'n fuan. Mae'r brifysgol wedi ymateb i hyn trwy barhau i fonitro ei pherfformiad ariannol a thrwy fuddsoddi mewn datblygu rhaglenni ar gyfer y dyfodol a marchnata gan barhau i ganolbwyntio ar gyfyngu ar gostau. Cydnabyddir bod gwireddu'r rhagamcaniadau ariannol yn allweddol er mwyn parhau i gydymffurfio â chyfamodau banc, yn ogystal â darparu'r arian parod angenrheidiol i barhau â'r buddsoddiad cyfalaf pellach a gynlluniwyd. Yn seiliedig ar yr hyn a nodir uchod, mae'r cyngor yn credu ei bod yn parhau i fod yn briodol paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

**Syr Paul Lambert**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth

# ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL BANGOR

## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

**ADRODDIAD AR YR ARCHWILIAD O'R DATGANIADAU ARIANNOL**

**Barn**
Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Bangor ("y Brifysgol") am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2020 sy'n cynnwys Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfunol a Prifysgol, Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn Cyfunol a Phrifysgol, Mantolenni Cyfunol a Phrifysgol, Datganiad Llif Arian Cyfunol a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y Datganiad Polisïau Cyfrifo.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion y Grŵp a'r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2020, ac o incwm a gwariant y Grŵp a'r Brifysgol, enillion a cholledion a newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn, ac o lif arian y Grŵp, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifo'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102 The Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland, a chyda Statement of Recommended Practice – Accounting for Further and Higher Education 2019;
- yn bodloni gofynion Cyfarwyddyd i Sefydliadau Addysg Uwch ynglŷn â'u Cyfrifon 2019-20 a gyhoeddwyd gan HEFCW ar 24 Mehefin 2020; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

**Sail y farn**
Penodwyd ni yn archwiliwr o dan Erthygl 12(ii) Siarterau a Statudau'r Brifysgol ac yn unol ag adran 144 Deddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) ac rydym yn adrodd yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 154 y Ddeddf honno.

Cynhaliom ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig) a chyfraith berthnasol. Caiff ein cyfrifoldebau eu disgrifio isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol o dan, ac rydym yn annibynnol ar y grŵp yn unol â, gofynion moesegol y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn sail ddigonol a phriodol i ni roi barn.

**Busnes hyfyw**
Mae'r Cyngor wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw gan nad ydynt yn bwriadu datod y Grŵp na'r Brifysgol na rhoi'r gorau i weithredu, a gan eu bod wedi dod i'r casgliad bod sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Brifysgol yn golygu bod hyn yn realistig. Daethant hefyd i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd materol berthnasol a allai fod wedi bwrw amheuaeth sylweddol ar eu gallu i barhau fel busnes hyfyw am o leiaf blwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ("y cyfnod busnes hyfyw").

Mae'n ofynnol i ni adrodd wrthych os ydym wedi dod i'r casgliad bod defnyddio sail cyfrifo busnes hyfyw yn amhriodol neu os oes ansicrwydd materol berthnasol heb ei ddatgelu a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar ddefnyddio'r sail honno am gyfnod o flwyddyn o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Yn ein gwerthusiad o gasgliadau'r Cyngor, ystyriom y risgiau cynhenid i fodel busnes y Grŵp, a dadansoddi sut y gallai'r risgiau hynny effeithio ar y Grŵp ac ar adnoddau ariannol y Brifysgol neu ar ei gallu i barhau i weithredu dros y cyfnod busnes hyfyw. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

Fodd bynnag, gan na allwn ragfynegi pob digwyddiad neu amod yn y dyfodol ac oherwydd y gall digwyddiadau o'r fath arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â barn a oedd yn rhesymol pan gawsant eu ffurfio, nid yw peidio â chyfeirio at ansicrwydd materol berthnasol yn yr adroddiad hwn gan yr archwiliwr yn gwarantu y bydd y Grŵp neu'r Brifysgol yn parhau i weithredu.

**Gwybodaeth arall**
Y Cyngor sy'n gyfrifol am weddill yr wybodaeth, sef yr Adolygiad Strategol a'r Datganiad Budd Cyhoeddus, a'r Datganiadau Llywodraethu Corfforaethol a Chyfrifoldebau'r Cyngor. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn ymwneud â gweddill yr wybodaeth ac felly nid ydym yn mynegi barn archwilio nac yn dod i unrhyw fath o gasgliad sicrwydd am yr wybodaeth honno.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen gweddill yr wybodaeth ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth ynddi, yn seiliedig ar ein gwaith yn archwilio'r datganiadau ariannol, yn gamddatganiad materol berthnasol neu'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth archwilio. Yn seiliedig ar y gwaith hwnnw yn unig, nid ydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau materol berthnasol yng ngweddill yr wybodaeth.

**Materion y mae angen i ni adrodd arnynt drwy eithriad**
Nid oes gennym ddim i adrodd arno o ran y materion canlynol lle mae Deddf Elusennau 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd wrthych os, yn ein barn ni:

- bod yr wybodaeth a roddwyd yn yr Adolygiad Strategol yn anghyson mewn unrhyw ffordd faterol berthnasol â'r datganiadau ariannol; neu
- os nad yw'r Brifysgol wedi bod yn cadw cofnodion cyfrifo digonol; neu
- os nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifo; neu
- Nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnom eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

**Cyfrifoldebau'r Cyngor**
Fel yr esboniwyd yn llawnach yn eu datganiad a nodir ar dudalen 102, mae'r Cyngor yn gyfrifol am y canlynol: paratoi'r datganiadau ariannol a bodloni eu bod yn rhoi golwg wir a theg; camau rheoli mewnol fel sy'n angenrheidiol ym marn y Cyngor i alluogi paratoi datganiadau ariannol lle na cheir unrhyw gamddatganiad materol berthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall; asesu gallu'r grŵp a'r rhiant-brifysgol i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â bod yn fusnes hyfyw; a defnyddio sail cyfrifo busnes hyfyw oni bai ei fod naill ai'n bwriadu datod y grŵp neu'r rhiant-brifysgol neu roi'r gorau i weithredu, neu bod dim dewis arall realistig ond gwneud hynny.

**Cyfrifoldebau'r Archwiliwr**
Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol na cheir yn y datganiadau ariannol, drwodd a thro, gamddatganiad materol berthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac i gyflwyno ein barn mewn adroddiad archwiliwr. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig) bob amser yn canfod camddatganiad materol berthnasol pan fo un yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn faterol berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu'n yn gyfun, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed yn seiliedig ar y datganiadau ariannol.

Ceir disgrifiad llawnach o'n cyfrifoldebau ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

**ADRODDIAD AR OFYNION CYFREITHIOL A RHEOLEIDDIO ERAILL**
Mae'n ofynnol i ni adrodd ar y materion canlynol o dan God Ymarfer Archwilio HEFCW a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd faterol:

- mae arian o ba ffynhonnell bynnag a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi'u defnyddio'n briodol at y dibenion hynny ac wedi'u rheoli'n unol â deddfwriaeth berthnasol;
- mae'r arian a ddarparwyd gan HEFCW wedi'i ddefnyddio'n unol â'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd ac unrhyw delerau ac amodau eraill sy'n gysylltiedig â nhw.

**PWRPAS EIN GWAITH ARCHWILIO AC I BWY Y MAE EIN CYFRIFOLDEBAU NI YN DDYLEDUS**
Llunnir yr adroddiad hwn i'r Cyngor yn unig, yn unol ag Erthygl 12(ii) o Siartrau a Statudau'r Brifysgol ac adran 124B o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 y Ddeddf honno. Gwnaed ein gwaith archwilio er mwyn i ni gael datgan y materion hynny y mae angen i ni eu datgan wrth y Cyngor mewn adroddiad archwiliwr ac i ddim diben arall. Hyd yr eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb dros unrhyw un heblaw'r Brifysgol a'i Chyngor am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, neu am y farn y daethom iddi.

**Timothy Cutler**
dros ac ar ran KPMG LLP,
Archwiliwr Statudol
*Cyfrifwyr Siartredig*
1 St Peter's Square
Manceinion
M2 3AE

**Dyddiad: 25 Chwefror 2021**

# DATGANIAD CYFUNOL O INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

| | Nodiadau | 2019/20 Cyfunol £'000 | 2019/20 Prifysgol £'000 | 2018/19 (Ailddatganwyd) Cyfunol £'000 | 2018/19 (Ailddatganwyd) Prifysgol £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | |
| Ffioedd dysgu a chontractau addysg | 1 | **82,418** | **82,418** | 80,698 | 80,698 |
| Grantiau cyrff cyllido | 2 | **15,869** | **15,869** | 13,688 | 13,688 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | 3 | **21,551** | **21,551** | 21,098 | 21,098 |
| Incwm arall | 4 | **26,796** | **23,966** | 29,936 | 26,744 |
| Incwm buddsoddi | 5 | **545** | **619** | 520 | 667 |
| Gwaddolion a rhoddion | 6 | **517** | **516** | 440 | 440 |
| **Cyfanswm incwm** | | **147,696** | **144,939** | 146,380 | 143,335 |
| **Gwariant** | | | | | |
| Costau staff | 7 | **84,599** | **82,994** | 84,123 | 82,376 |
| Symudiad yn Narpariaeth Pensiwn USS | 7 | **(11,384)** | **(11,384)** | 18,158 | 18,158 |
| Treuliau gweithredu eraill | | **44,336** | **43,444** | 45,908 | 45,035 |
| Dibrisiad | 11 | **13,257** | **12,838** | 12,607 | 12,169 |
| Llog a chostau ariannu eraill | 8 | **5,812** | **5,634** | 5,652 | 5,534 |
| **Cyfanswm gwariant** | 9 | **136,620** | **133,526** | 166,448 | 163,272 |
| **Gwarged/(Diffyg) cyn enillion/(colledion) eraill a chyfran o warged gweithredu menter ar y cyd** | | **11,076** | **11,413** | (20,068) | (19,937) |
| Enillion ar waredu asedau sefydlog | | **28** | **28** | 198 | 198 |
| Colled ar fuddsoddiadau | | **(218)** | **(218)** | (34) | (34) |
| Cyfran o warged gweithredu mewn mentrau ar y cyd | 15 | **38** | **0** | 63 | 0 |
| **Gwarged/(Diffyg) cyn treth** | | **10,924** | **11,223** | (19,841) | (19,773) |
| Trethiant | 10 | **0** | **0** | 0 | 0 |
| **Gwarged/(Diffyg) am y flwyddyn wedi ei briodoli i:** | | **10,924** | **11,223** | (19,841) | (19,773) |
| Symudiad yn y Ddarpariaeth Pensiwn | 21 | **(10,266)** | **(10,266)** | (1,970) | (1,970) |
| **Cyfanswm (gwariant)/incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **658** | **957** | (21,811) | (21,743) |
| **Cynrychiolir gan:** | | | | | |
| Incwm gwaddol cynhwysfawr am y flwyddyn | | **0** | **0** | (137) | (137) |
| Incwm cyfyngedig cynhwysfawr am y flwyddyn | | **34** | **34** | 47 | 47 |
| Incwm anghyfyngedig cynhwysfawr am y flwyddyn | | **624** | **923** | (11,869) | (11,801) |
| | | **658** | **957** | (11,959) | (11,891) |
| **Gwarged/(Diffyg) am y flwyddyn wedi ei briodoli i:** | | | | | |
| Budd anrheolaethol | | **38** | **0** | 63 | 0 |
| Prifysgol | | **10,886** | **11,223** | (19,904) | (19,973) |
| **Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr am y flwyddyn wedi ei briodoli i:** | | | | | |
| Budd anrheolaethol | | **38** | **0** | 63 | 0 |
| Prifysgol | | **620** | **957** | (12,022) | (11,891) |

Mae holl eitemau cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr yn ymwneud â gweithgareddau sy'n parhau.
Mae'r Datganiad Polisïau Cyfrifo a'r Nodiadau ar dudalennau 68 i 99 yn rhan o'r datganiadau ariannol.





# DATGANIAD O NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN CYFUNOL A PHRIFYSGOL
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

| **Cyfunol** | Cyfrif incwm a gwariant Gwaddol £'000 | Cyfyngedig £'000 | Anghyfyngedig £'000 | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Ar 1 Awst 2018** | **7,240** | **533** | **229,958** | **237,731** |
| Effaith yr ailddatgan | | | 9,852 | **9,852** |
| Ar 1 Awst 2018 (ailddatganwyd)* | | | 239,810 | **247,583** |
| Gwarged/(diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant | 189 | 186 | (20,216) | **(19,841)** |
| Incwm cynhwysfawr arall | 0 | 0 | (1,970) | **(1,970)** |
| Rhyddhau cronfeydd cyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | (326) | (139) | 465 | **0** |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | (137) | 47 | (21,721) | **(21,811)** |
| **Ar 1 Awst 2019 (Ailddatganwyd)** | **7,103** | **580** | **218,089** | **225,772** |
| Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant | 303 | 166 | 10,455 | **10,924** |
| Incwm cynhwysfawr arall | 0 | 0 | (10,266) | **(10,266)** |
| Rhyddhau cronfeydd cyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | (303) | (132) | 435 | **0** |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | 0 | 34 | 624 | **658** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **7,103** | **614** | **218,713** | **226,430** |

| **Prifysgol** | Cyfrif incwm a gwariant Gwaddol £'000 | Cyfyngedig £'000 | Anghyfyngedig £'000 | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Ar 1 Awst 2018** | **7,240** | **533** | **230,099** | **237,872** |
| Effaith yr ailddatgan | | | 9,852 | **9,852** |
| Ar 1 Awst 2018 (ailddatganwyd)* | | | 239,951 | **247,724** |
| Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant | 189 | 186 | (20,148) | **(19,773)** |
| Incwm cynhwysfawr arall | 0 | 0 | (1,970) | **(1,970)** |
| Rhyddhau cronfeydd cyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | (326) | (139) | 465 | **0** |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | (137) | 47 | (21,653) | **(21,743)** |
| **Ar 1 Awst 2019 (Ailddatganwyd)** | **7,103** | **580** | **218,298** | **225,981** |
| Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant | 303 | 166 | 10,754 | **11,223** |
| Incwm cynhwysfawr arall | 0 | 0 | (10,266) | **(10,266)** |
| Rhyddhau cronfeydd cyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | (303) | (132) | 435 | **0** |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | 0 | 34 | 923 | **957** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **7,103** | **614** | **219,221** | **226,938** |

* Gweler Nodyn 33

Mae'r Datganiad Polisïau Cyfrifo a'r Nodiadau ar dudalennau 68 i 99 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

# DATGANIAD SEFYLLFA ARIANNOL CYFUNOL A PHRIFYSGOL
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

| | Nodiadau | 2020 Cyfunol £'000 | 2020 Prifysgol £'000 | 2019 (Ailddatganwyd) Cyfunol £'000 | 2019 (Ailddatganwyd) Prifysgol £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Asedau sefydlog | 11 | **320,527** | **314,854** | 328,822 | 322,797 |
| Buddsoddiadau | 14 | **5,959** | **6,009** | 6,118 | 6,168 |
| Buddsoddiad mewn menter ar y cyd | 15 | **175** | **0** | 137 | 0 |
| | | **326,661** | **320,863** | 335,077 | 328,965 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Stoc | 16 | **68** | **43** | 109 | 78 |
| Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | 17 | **25,606** | **32,010** | 21,657 | 27,474 |
| Buddsoddiadau | 18 | **5,133** | **5,133** | 10,463 | 10,463 |
| Arian parod a chywerthoedd arian parod | 24 | **27,693** | **27,089** | 19,412 | 18,991 |
| | | **58,500** | **64,275** | 51,641 | 57,006 |
| Llai: Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn | 19 | **(34,315)** | **(33,824)** | (33,040) | (32,275) |
| **Asedau cyfredol net** | | **24,185** | **30,451** | 18,601 | 24,731 |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **350,846** | **351,314** | 353,678 | 353,696 |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn | 20 | **(100,598)** | **(100,558)** | (103,460) | (103,269) |
| **Darpariaethau** | | | | | |
| Darpariaethau pensiwn | 21 | **(23,628)** | **(23,628)** | (23,708) | (23,708) |
| Darpariaethau eraill | 21 | **(190)** | **(190)** | (738) | (738) |
| **Cyfanswm asedau net** | | **226,430** | **226,938** | 225,772 | 225,981 |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | | | |
| Cronfa gwaddol | 22 | **7,103** | **7,103** | 7,103 | 7,103 |
| Cronfa incwm a gwariant | 23 | **614** | **614** | 580 | 580 |
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | | | |
| Cronfa incwm a gwariant | | **218,713** | **219,221** | 218,089 | 218,298 |
| **Cyfanswm Cronfeydd** | | **226,430** | **226,938** | 225,772 | 225,981 |

Mae'r Datganiad Polisïau Cyfrifo a'r Nodiadau ar dudalennau 68 i 99 yn rhan o'r datganiadau ariannol.
Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Cyngor ar 12 Chwefror 2021 a chawsant eu llofnodi gan:

Yr Athro Iwan Davies,
Is-ganghellor

Mrs Marian Wyn Jones
Cadeirydd y Cyngor

Syr Paul Lambert,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth





# DATGANIAD LLIF ARIAN CYFUNOL
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

| | Nodiadau | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwarged / (Diffyg) am y flwyddyn | | **10,924** | (19,841) |
| **Addasiad ar gyfer eitemau nad arian parod mohonynt** | | | |
| Dibrisiad | 11 | **13,257** | 12,607 |
| Colled / (Enillion) ar fuddsoddiadau | | **218** | 34 |
| (Cynnydd) / Gostyngiad mewn stoc | 16 | **41** | (18) |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn dyledwyr | | **(3,949)** | 402 |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn credydwyr | | **1,591** | (4,876) |
| Cynnydd / (Gostyngiad) yn y ddarpariaeth pensiwn | 21 | **(10,346)** | 19,057 |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn darpariaethau eraill | 21 | **(548)** | 738 |
| Cyfran o warged gweithredu mewn mentrau ar y cyd | 15 | **(38)** | (63) |
| | | **226** | 27,881 |
| **Addasiad ar gyfer gweithgareddau buddsoddi neu gyllido** | | | |
| Incwm grant cyfalaf | | **(3,217)** | (3,969) |
| Adenillion ar werthu asedau sefydlog | | **(28)** | (198) |
| Incwm buddsoddi | 5 | **(545)** | (520) |
| Llog sy'n daladwy | 8 | **5,333** | 5,365 |
| Incwm gwaddol | 6 | **(313)** | (6) |
| | | **1,230** | 672 |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **12,380** | 8,712 |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Derbyniadau grant cyfalaf | | **3,185** | 2,344 |
| Derbyniadau o werthu asedau sefydlog | | **343** | 212 |
| Taliadau a wnaed i gaffael asedau sefydlog | | **(5,758)** | (5,078) |
| Incwm buddsoddi | 5 | **545** | 520 |
| Buddsoddiadau asedau cyfredol newydd | 18 | **0** | (10,463) |
| Gwaredu buddsoddiadau asedau cyfredol | 18 | **5,330** | 0 |
| Buddsoddiadau asedau anghyfredol newydd | | **(3,848)** | (2,094) |
| Gwaredu buddsoddiadau asedau anghyfredol | | **3,787** | 2,126 |
| | | **3,584** | (12,433) |
| **Llifoedd arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Llog a dalwyd | 8 | **(1,418)** | (1,424) |
| Elfen log prydles gyllidol a thaliadau consesiwn gwasanaeth | 8 | **(3,915)** | (3,941) |
| Arian parod gwaddol a dderbynnir | 22 | **313** | 6 |
| Ad-dalu prydlesi cyllidol a chonsesiynau gwasanaeth | 19/20 | **(469)** | (1,417) |
| Benthyciadau ansicredig newydd | 19/20 | **2,614** | 2,334 |
| Ad-dalu benthyciadau sicredig | 19/20 | **(305)** | (2,409) |
| Ad-dalu benthyciadau ansicredig | 19/20 | **(4,503)** | (2,464) |
| | | **(7,683)** | (9,315) |
| **(Gostyngiad) / Cynnydd mewn arian parod a chywerthoedd arian parod yn y flwyddyn** | | **8,281** | (13,036) |
| Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | 24 | **19,412** | 32,448 |
| Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | 24 | **27,693** | 19,412 |
| | | **8,281** | (13,036) |

Mae'r Datganiad Polisïau Cyfrifo a'r Nodiadau ar dudalennau 68 i 99 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

# DATGANIAD PRIF BOLISÏAU CYFRIFO
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

**1 Gwybodaeth gyffredinol**

Mae Prifysgol Bangor wedi ei chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau (rhif 1141565). Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw Prifysgol Bangor, Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG.

**2 Sail paratoi**

Paratowyd y datganiadau ariannol Cyfunol a Phrifysgol yn unol â Safonau Cyfrifeg y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102) a Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifo ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch a gyhoeddwyd yn 2015. Fe'u paratowyd hefyd yn unol â phwerau a dyletswyddau a 'ddygwyd ymlaen' o ddeddfwriaeth flaenorol (Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Addysg Uwch 2004) a phwerau newydd Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 yn ystod y cyfnod trosglwyddo hyd 31 Gorffennaf 2020, y Siarter Frenhinol a'r Cyfarwyddyd ynghylch Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW).

Mae'r Brifysgol yn endid budd cyhoeddus ac felly mae wedi gweithredu gofynion budd cyhoeddus perthnasol deddfau a safonau cyfrifeg y Deyrnas Unedig.

Paratowyd y datganiadau ariannol Cyfunol a Phrifysgol o dan y confensiwn cost hanesyddol (a addaswyd trwy ailbrisio rhai asedau a rhwymedigaethau ariannol ar werth teg).

Paratoir y datganiadau ariannol mewn sterling sef arian cyfred gweithredol y grŵp a chaiff y symiau eu talgrynnu i'r £'000 agosaf.

**3 Eithriadau o dan FRS 102**

Mae'r Brifysgol wedi manteisio ar yr eithriad a geir o dan adran 3.3 SORP (1.12(b) yn FRS 102) i beidio â chynhyrchu datganiad llif arian ar gyfer y Brifysgol yn ei datganiadau ariannol ar wahân.

**4 Sail cyfuno**

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys datganiadau ariannol y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau ynghyd â chyfran canlyniadau mentrau ar
y cyd a chwmnïau cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2020.

Mae canlyniadau is-gwmnïau a gafodd eu caffael neu eu gwaredu yn ystod y cyfnod wedi eu cynnwys yn y datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr o'r dyddiad caffael neu hyd at y dyddiad gwaredu. Caiff trafodion rhyng-grŵp eu dileu pan gânt eu cyfuno.

Mae enillion neu golledion ar unrhyw drafodion rhyng-grŵp yn cael eu dileu yn llawn. Mae symiau mewn perthynas â dyledion a hawliadau rhwng ymgymeriadau sydd wedi'u cynnwys wrth gyfuno hefyd yn cael eu dileu. Ni chaiff balansau rhwng y Brifysgol a'i chwmnïau cysylltiedig a'i mentrau ar y cyd eu dileu. Mae trafodion masnachu arferol nad ydynt wedi'u setlo erbyn dyddiad y fantolen yn cael eu cynnwys fel asedau neu rwymedigaethau cyfredol. Mae unrhyw enillion neu golledion wedi'u cynnwys yn swm cario asedau'r naill endid neu'r llall, a chaiff y rhan sy'n ymwneud â chyfran y Brifysgol ei dileu.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys Undeb y Myfyrwyr gan nad oes gan y Brifysgol reolaeth na dylanwad llywodraethol dros benderfyniadau polisi.

Defnyddir y dull ecwiti i roi cyfrif am fentrau ar y cyd.

**5 Busnes Hyfyw**

Mae gweithgareddau'r Grŵp a'r Brifysgol, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad, ei berfformiad a'i safle yn y dyfodol, wedi'u nodi yn yr Adolygiad Strategol sy'n rhan o'r Adolygiad Blynyddol. Mae'r Adolygiad Blynyddol hefyd yn disgrifio sefyllfa ariannol y
sefydliad, ei lif arian, ei sefyllfa hylifedd a'i gyfleusterau benthyca.

Mae'r Cyngor wedi paratoi rhagolygon llif arian manwl am o leiaf gyfnod o 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Ar ôl adolygu'r rhagolygon hyn, mae'r Cyngor o'r farn, o ystyried risgiau anfantais difrifol ond credadwy, gan gynnwys effaith bosibl y pandemig, y bydd gan y Grŵp a'r Brifysgol ddigon o arian i gyflawni eu rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros gyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol (y cyfnod asesu busnes hyfyw).

Effeithiodd y pandemig coronafeirws ar y Brifysgol yn weithredol ac yn ariannol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2020. Amcangyfrifir y bydd y Brifysgol yn parhau i gael ei heffeithio yn y blynyddoedd i ddod. Mewn ymateb, mae'r Brifysgol yn parhau i reoli ei chostau a'i phrojectau gwariant cyfalaf yn ofalus. Cychwynnwyd rhaglen ailstrwythuro gyda'r nod o sicrhau digon o arbedion mewn costau cylchol i wrthbwyso colled incwm o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws.

Er bod y sefyllfa'n esblygu'n gyson gan wneud cynllunio senarios yn anodd, paratôdd y Brifysgol nifer o senarios yn ystod haf 2020 a oedd yn asesu effeithiau ariannol amrywiol y pandemig ar nifer o feysydd, yn enwedig niferoedd myfyrwyr a chynhyrchu incwm ffioedd ynghyd ag incwm preswylfeydd ac incwm masnachol. Roeddent yn cynnwys canlyniadau realistig, canlyniadau pesimistaidd a'r canlyniadau gwaethaf posibl.

Yn dilyn yr adolygiad beirniadol o'r senarios, cymeradwyodd y Cyngor i ailstrwythuro'r Brifysgol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2021 er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn cynnal digon o arian trwy'r cyfnod busnes hyfyw. Mae gan y Brifysgol Gyllideb ar gyfer 2020/21 yn seiliedig ar y sefyllfa wirioneddol o ran recriwtio myfyrwyr a chyflawni'r ailstrwythuro, ynghyd â rheolaeth dros wariant cyfalaf i gynnal hylifedd. Nid oes gan y Brifysgol unrhyw gynlluniau i gynyddu lefel ei chyfleusterau cyllido, ac eithrio'r rhai sy'n gysylltiedig â chynlluniau cymorth y llywodraeth lle bo hynny'n briodol, y tu hwnt i'r rhai hynny oedd ar waith ar 31 Gorffennaf 2020 yn ystod y cyfnod asesu busnes hyfyw. Ni thorrwyd unrhyw gyfamodau bancio ac ni ragwelir y bydd hynny'n digwydd yn ystod y cyfnod asesu busnes hyfyw. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, mae'r Cyngor o'r farn bod y Grŵp a'r rhiant-Brifysgol yn gallu rheoli ei risgiau cyllid a'i risgiau busnes ac yn parhau i gyflawni ei rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus am o leiaf 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ac felly paratowyd datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

**6 Cydnabod incwm**

Caiff incwm o werthiant nwyddau neu wasanaethau ei gredydu i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfunol pan gaiff y nwyddau neu'r gwasanaethau eu cyflenwi i'r cwsmeriaid allanol neu pan fo telerau'r contract wedi cael eu bodloni.

Caiff incwm ffioedd ei ddatgan fel ffigwr gros o unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt a'i gredydu i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfunol dros y cyfnod y mae'r myfyrwyr yn astudio. Lle mae swm y ffioedd dysgu wedi ei ostwng, er enghraifft, drwy ddisgownt am dalu'n brydlon neu ffurf arall ar hepgoriad, dangosir yr incwm a dderbynnir fel ffigwr net o unrhyw ostyngiadau o'r fath. Mae taliadau bwrsariaethau ac ysgoloriaethau wedi eu cyfrifo'n gros fel gwariant ac nid ydynt wedi'u didynnu o incwm.

Caiff incwm buddsoddi ei gredydu i'r datganiad incwm a gwariant ar sail dderbyniadwy.

Nid yw cyllid y mae'r Brifysgol yn ei dderbyn a'i alldalu fel asiant talu ar ran corff cyllido wedi ei gynnwys yn incwm a gwariant y Brifysgol lle nad oes fawr ddim risg na budd economaidd i'r Brifysgol mewn perthynas â'r trafodyn.

***Cyllid grant***

Caiff cyllid grant yn cynnwys grant bloc gan gyngor cyllido, grantiau ymchwil o ffynonellau llywodraeth a grantiau (yn cynnwys grantiau ymchwil) o ffynonellau anllywodraethol eu cydnabod fel incwm pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm a phan fo amodau'n ymwneud â pherfformiad wedi cael eu cyflawni. Caiff incwm a dderbynnir ymlaen llaw cyn cyflawni amodau'n ymwneud â pherfformiad ei gydnabod fel incwm gohiriedig o fewn credydwyr ar y fantolen a'i ryddhau i incwm wrth i'r amodau gael eu cyflawni.

***Rhoddion a gwaddolion***

Mae trafodion digyfnewid nad oes iddynt amodau'n ymwneud â pherfformiad yn rhoddion a gwaddolion.
Caiff rhoddion a gwaddolion sydd â chyfyngiadau gan y rhoddwr yn gysylltiedig â nhw eu cydnabod mewn incwm pan fo gan y Brifysgol hawl i'r cyllid. Cedwir yr incwm o fewn y gronfa gyfyngedig hyd nes caiff ei ddefnyddio yn unol â'r cyfryw gyfyngiadau pryd y caiff yr incwm ei ryddhau drwy drosglwyddiad i gronfeydd cyffredinol.

Caiff rhoddion heb gyfyngiadau eu cydnabod mewn incwm pan fo gan y Brifysgol hawl i'r cyllid.

Cofnodir incwm buddsoddi ac adbrisiant gwaddolion mewn incwm yn y flwyddyn pan mae'n codi naill ai fel incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig yn unol â thelerau'r gronfa waddol unigol. Ceir pedwar prif fath o roddion a gwaddolion o fewn cronfeydd:

1. ***Rhoddion cyfyngedig*** - mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid defnyddio'r rhodd ar gyfer amcan neilltuol.
2. ***Gwaddolion parhaol anghyfyngedig*** - mae'r rhoddwr wedi pennu bod y cyllid i'w fuddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.
3. ***Gwaddolion gwariadwy cyfyngedig*** - mae'r rhoddwr wedi pennu amcan neilltuol ac eithrio prynu neu adeiladu asedau diriaethol sefydlog, ac mae gan y Brifysgol rym i ddefnyddio'r cyfalaf.
4. ***Gwaddolion parhaol cyfyngedig*** - mae'r rhoddwr wedi pennu bod y cyllid i'w fuddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm i'w defnyddio ar gyfer amcan neilltuol.

# DATGANIAD PRIF BOLISÏAU CYFRIFO (PARHAD)
Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

***Grantiau Cyfalaf***
Caiff grantiau cyfalaf eu cydnabod mewn incwm pan fo gan y Brifysgol hawl i'r cyllid yn amodol ar gyflawni unrhyw amodau'n ymwneud â pherfformiad.

**7 Cyfrifo buddion ymddeol**
Y ddau brif gynllun pensiwn i staff y Brifysgol yw Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) a Chynllun Pensiwn ac Ysgwiriant Prifysgol Bangor 1978 (BUPAS). Mae'r cynlluniau'n gynlluniau â buddion wedi'u diffinio a gyllidir yn allanol ac sydd wedi eu contractio allan o Ail Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth (S2P).

Caiff y ddwy gronfa eu prisio bob tair blynedd gan actiwariaid annibynnol gyda chymwysterau proffesiynol.

Cynllun aml-gyflogwr â buddion wedi'u diffinio yw'r USS ac nid yw'n bosibl nodi'r asedau a'r rhwymedigaethau yn ôl y prifysgolion sy'n aelodau oherwydd natur gydfuddiannol y cynllun ac felly cyfrifir y cynllun hwn fel cynllun buddion ymddeol â chyfraniadau wedi'u diffinio. Cofnodir rhwymedigaeth o fewn y darpariaethau ar gyfer unrhyw ymrwymiad contract i ariannu diffygion yn y gorffennol yng nghynllun yr USS.

**Cynllun â Chyfraniadau wedi'u Diffinio**
Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio lle mae'r Brifysgol yn talu cyfraniadau sefydlog i endid ar wahân ac ni fydd unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol na thrwy ddehongliad arno i dalu symiau pellach. Caiff rhwymedigaethau am gyfraniadau i gynlluniau pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio eu cydnabod fel traul yn y datganiad incwm yn y cyfnodau pryd y rhoddwyd gwasanaethau gan weithwyr.

**Cynlluniau aml-gyflogwr**
Pan na all y Brifysgol nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol mewn cynllun aml-gyflogwr ar sail resymol a chyson, bydd yn cyfrifo fel pe bai'r cynllun yn gynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio. Pan fo'r Brifysgol wedi mynd i gytundeb â chynllun aml-gyflogwr o'r fath sy'n pennu sut y bydd y Brifysgol yn cyfrannu at gynllun adfer diffyg, mae'r Brifysgol yn cydnabod ei rhwymedigaeth dros y cyfraniadau sy'n
daladwy sy'n deillio o'r cytundeb, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r diffyg, a chaiff y draul o ganlyniad i hynny ei chydnabod fel gwariant.

**Cynlluniau â buddion wedi'u diffinio**
Cynllun buddion ôl-gyflogaeth nad yw'n gynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio yw cynllun â buddion wedi'u diffinio. Dan gynlluniau â buddion wedi'u diffinio, rhwymedigaeth y Brifysgol yw darparu'r buddion y cytunwyd arnynt i weithwyr presennol ac i gyn-weithwyr, ac mae'r risg actiwaraidd (y bydd y buddion yn costio mwy neu lai nag a ddisgwyliwyd) a'r risg buddsoddi (y bydd adenillion ar asedau a neilltuwyd i gyllido'r buddion yn wahanol i'r hyn a ddisgwyliwyd) yn cael eu dwyn, yn eu hanfod, gan y Brifysgol.

Cydnabyddir y rhwymedigaeth net yn y fantolen mewn perthynas â phob cynllun a dyma werth presennol y rhwymedigaeth ar gyfer buddion wedi'u diffinio ar y dyddiad adrodd llai gwerth teg asedau'r cynllun ar y dyddiad adrodd.

Dylai'r Grŵp gydnabod rhwymedigaeth am ei ymrwymiadau dan gynlluniau â buddion wedi'u diffinio yn net o asedau'r cynllun. Caiff y rhwymedigaeth hon am fuddion net wedi'u diffinio ei mesur fel amcangyfrif o swm y buddion y mae gweithwyr wedi ei ennill yn gyfnewid am eu gwasanaeth yn y cyfnod cyfredol ac mewn cyfnodau blaenorol, wedi'i ddisgowntio i bennu ei werth presennol, llai gwerth teg asedau'r cynllun (ar bris bidio).

Gwneir y cyfrifiad hwn gan actiwari cymwysedig yn defnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd. O dan adran 28.22 (Buddion Gweithwyr - ased cynllun â buddion wedi'u diffinio) yn FRS 102 nid yw'r Brifysgol yn cydnabod gwarged y cynllun gan nad yw'n gallu adennill y gwarged trwy gyfraniadau is yn y dyfodol na thrwy ad-daliadau o'r cynllun. Mae darpariaeth yn y Weithred Ymddiriedolaeth i'r Brifysgol, yn unochrog, ddirwyn Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor i ben, ac os digwydd hynny bod unrhyw symiau gweddilliol ar ôl setlo holl rwymedigaethau'r cynllun yn cael eu had-dalu i'r Brifysgol. O ganlyniad, mae'r Brifysgol wedi penderfynu bod ganddi hawl ddiamod i gael ad-daliad wrth ddirwyn i ben. Fodd bynnag, mae darpariaeth yn y Weithred Ymddiriedolaeth hefyd i Ymddiriedolwyr y Gronfa drosglwyddo polisïau blwydd-dal i enwau aelodau unigol heb fod angen cydsyniad y Brifysgol. Oherwydd bodolaeth yr hawliau hynny i Ymddiriedolwyr y Gronfa, mae'r Brifysgol o'r farn ei bod yn briodol peidio â chydnabod y gwarged o fewn y datganiadau ariannol mewn perthynas â'r Gronfa Bensiwn.

Bob blwyddyn mae'r Brifysgol yn cyflogi actiwarïaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth ar gyfer pob cynllun. Pennir y gwerth presennol trwy ddisgowntio taliadau amcangyfrifedig yn y dyfodol ar gyfradd ddisgowntio sy'n seiliedig ar gynnyrch y farchnad ar fondiau corfforaethol ansawdd uchel mewn sterling sydd â thelerau sy'n cyfateb i gyfnod amcangyfrifedig y taliadau yn y dyfodol.

Caiff gwerth teg asedau cynllun ei fesur yn unol â hierarchaeth gwerth teg FRS 102 ac yn unol â pholisi'r Brifysgol ar gyfer asedau tebyg. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technegau prisio priodol.

Caiff enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau profiad a newidiadau i dybiaethau actiwaraidd eu codi neu eu credydu i incwm cynhwysfawr arall. Caiff y symiau hyn ynghyd â'r adenillion ar asedau'r cynllun, llai symiau sydd wedi'u cynnwys mewn llog net, eu datgelu fel enillion a cholledion actiwaraidd.

Mae cost y cynllun â buddion wedi'u diffinio, a gydnabyddir mewn gwariant fel costau staff, ac eithrio pan gaiff ei gynnwys yng nghost ased, yn cynnwys y cynnydd o ran y rhwymedigaeth buddion pensiwn sy'n deillio o wasanaeth gweithwyr yn ystod y cyfnod a chost cyflwyno i'r cynllun, newidiadau i fuddion, cwtogiadau, a setliadau. Cyfrifir cost llog net trwy gymhwyso'r gyfradd ddisgowntio i'r rhwymedigaeth net. Cydnabyddir y gost hon mewn gwariant fel cost cyllid.

Darperir rhagor o fanylion am y cynlluniau pensiwn penodol yn Nodyn 29 y cyfrifon.

**8 Buddion cyflogaeth**
Caiff buddion cyflogaeth tymor byr, megis cyflogau ac absenoldebau digolledol eu cydnabod fel traul yn y flwyddyn pryd y rhoddodd y gweithwyr wasanaeth i'r Brifysgol. Cronnir unrhyw fuddion na ddefnyddir a'u mesur fel y swm ychwanegol y mae'r Brifysgol yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i hawl na ddefnyddiwyd.

**9 Prydlesi cyllidol**
Caiff prydlesi lle mae'r Brifysgol yn ysgwyddo yn eu hanfod yr holl risgiau a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar yr ased ar brydles eu dosbarthu fel prydlesi cyllidol. Mae asedau ar brydles a gafodd eu caffael drwy brydles gyllidol a rhwymedigaethau'r prydlesi hynny'n cael eu cydnabod yn y lle cyntaf ar swm sy'n hafal â'r isaf o blith eu gwerth teg a gwerth presennol y taliadau prydles isaf ar gychwyniad y brydles.
Caiff y taliadau prydles isaf eu dosrannu rhwng y tâl cyllid a'r gostyngiad yn y rhwymedigaeth sy'n ddyledus. Pennir y tâl cyllid i bob cyfnod yn ystod oes y brydles er mwyn rhoi cyfradd gyfnodol gyson o log ar y balans sy'n weddill o'r rhwymedigaeth.

**10 Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth**
Mae trafodion Mentrau Cyllid Preifat (PFI), sydd o fewn diffiniad trefniant consesiwn gwasanaeth, yn cael eu cyfrifo fel bod 'ar y Fantolen' gan y Brifysgol. Caiff yr asedau sylfaenol eu cydnabod fel Asedau Sefydlog ar eu gwerth teg fel y pennir hynny ym model y gweithredwyr. Cydnabyddir rhwymedigaeth ariannol gyfwerth yn unol â FRS 102.

Caiff taliadau blynyddol y contract eu dosrannu rhwng ad-dalu'r rhwymedigaeth, cost cyllid a'r taliadau am wasanaethau. Cyfrifir y gost cyllid gan ddefnyddio'r gyfradd llog ymhlyg ar gyfer y cynllun

Caiff y tâl gwasanaeth ei gydnabod yn y treuliau gweithredu a chodir y gost cyllid i Gostau Cyllid yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Caiff elfen o'r cynnydd yn y tâl unedol blynyddol o ganlyniad i fynegeio cronnus ei dyrannu i'r brydles gyllidol. Yn unol â FRS 102, ni chaiff y swm hwn ei gynnwys yn y taliadau prydles isaf, ond yn hytrach caiff ei drin fel rhent amodol. Mewn gwirionedd, mae'r swm hwn yn gost cyllid mewn perthynas â'r rhwymedigaeth a chyflwynir y draul fel cost cyllid amodol yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Caiff costau adnewyddu cylch oes eu cydnabod mewn treuliau gweithredu yn seiliedig ar y rhaglen adnewyddu y mae'r gweithredwyr wedi ei chynllunio.

**11 Prydlesi gweithredol**
Codir costau'n ymwneud â phrydlesi gweithredol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Caiff unrhyw bremiymau neu gymhellion prydles eu gwasgaru dros y cyfnod prydlesu lleiaf.

**12 Arian tramor**
Caiff trafodion mewn arian tramor eu trosi i arian swyddogaethol endidau'r Grŵp ar y gyfradd gyfnewid dramor ar ddyddiad y trafodyn. Caiff asedau ariannol a rhwymedigaethau mewn arian tramor ar ddyddiad y fantolen eu trosi i'r arian swyddogaethol ar y gyfradd gyfnewid dramor ar y dyddiad hwnnw. Caiff gwahaniaethau cyfnewid tramor a geir wrth drosi eu cydnabod fel Gwarged neu Ddiffyg.

Caiff asedau a rhwymedigaethau anariannol a fesurir yn nhermau cost hanesyddol mewn arian tramor eu trosi gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodyn. Caiff asedau a rhwymedigaethau anariannol mewn arian tramor a gaiff eu datgan ar werth teg eu haildrosi i'r arian swyddogaethol ar gyfraddau cyfnewid tramor ar y dyddiadau y pennwyd y gwerth teg.

# DATGANIAD PRIF BOLISÏAU CYFRIFO (PARHAD)
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

**13 Eiddo, Peirianwaith ac Offer**

***Tir ac adeiladau***
Caiff tir ac adeiladau eu cyfalafu ar gost wrth eu cydnabod y tro cyntaf.

Ar ôl cael eu cydnabod y tro cyntaf caiff tir ac adeiladau eu mesur ar gost dybiedig llai dibrisiad cronedig a cholledion amhariad cronedig.

Cafodd rhai tiroedd ac adeiladau eu hailbrisio i werth teg ar ddyddiad y trawsnewid i FE HE SORP 2015, ac fe'u mesurir ar sail cost dybiedig, sef swm yr ailbrisiad ar ddyddiad yr ailbrisiad hwnnw. Gwnaed y prisiad gan gwmni proffesiynol cymwys o Syrfewyr Siartredig. Ni chafodd rhai asedau eu cynnwys yn y prisiad gan eu bod yn cael eu hystyried i'w gwaredu, eu dymchwel neu eu hadnewyddu'n sylweddol.

Caiff costau a gafwyd mewn perthynas â thir ac adeiladau ar ôl y prynu neu'r adeiladu cychwynnol eu cyfalafu i'r graddau eu bod yn cynyddu'r buddion a ddisgwylir i'r Brifysgol yn y dyfodol.

Ni ddibrisir tir rhydd-ddaliol gan yr ystyrir bod iddo oes fuddiol amhenodol. Oni bai eu bod yn cael eu cydrannu, caiff adeiladau rhydd-ddaliol eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes fuddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeiladau | 50 mlynedd |
| Adnewyddiadau i adeiladau | 15 mlynedd |

Lle bo'n briodol, caiff adeiladau eu cydrannu'n dair rhan: adeiladwaith, ffitiadau ac elfennau mecanyddol a pheirianegol. Nodir y rhain fel eitemau ar wahân o asedau sefydlog a chaiff pob rhan ei dibrisio ar sail llinell syth dros gyfnod eu hoes fuddiol:

| | |
|---|---|
| Adeiladwaith | Hyd at 50 mlynedd |
| Ffitiadau | Hyd at 20 mlynedd |
| Elfennau Mecanyddol a Pheirianegol | Hyd at 20 mlynedd |

Pan fo eitem o dir ac adeiladau'n cynnwys dwy neu ragor o brif elfennau a chanddynt oes economaidd ddefnyddiol sy'n sylweddol wahanol i'w gilydd, mae pob elfen yn cael ei chyfrif ar wahân a'i dibrisio dros ei hoes economaidd ddefnyddiol unigol. Mae gwariant sy'n ymwneud ag amnewid elfennau wedi hynny yn cael ei gyfalafu wrth i hynny ddigwydd.

Dibrisir gwelliannau i eiddo prydles dros gyfnod oes y brydles.

Ni chodir dibrisiad ar asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu.

Adolygir dulliau dibrisio, oes fuddiol a gwerthoedd gweddilliol ar ddyddiad paratoi pob Datganiad Sefyllfa Ariannol.

***Offer***
Caiff offer ei gyfalafu ar gost wrth eu cydnabod y tro cyntaf ac wedi hynny ar gost llai dibrisiad cronedig a cholledion amhariad cronedig. Caiff offer, gan gynnwys cyfrifiaduron a meddalwedd, sy'n costio llai na £10,000 fesul eitem unigol de minimus, neu grŵp o eitemau cysylltiedig, ei gydnabod fel gwariant. Caiff pob offer arall eu cyfalafu.

Nodir offer a gyfalafwyd ar gost a chaiff ei ddibrisio dros ei oes fuddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Offer Cyfrifiadurol | 5 mlynedd |
| Offer ar gyfer projectau ymchwil penodol | 5 mlynedd |
| Cyfarpar arall | Hyd at 10 mlynedd |
| Cerbydau modur | 5 mlynedd |

Adolygir dulliau dibrisio, oes fuddiol a gwerthoedd gweddilliol ar ddyddiad paratoi pob Datganiad Sefyllfa Ariannol.

***Amhariad***
Adolygir amhariad i eiddo, peirianwaith ac offer os oes digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn dangos efallai na fydd modd adennill swm cario eiddo, peirianwaith ac offer.

***Costau benthyca***
Cydnabyddir costau benthyca fel gwariant yn y cyfnod pryd maent yn digwydd.

**14 Asedau treftadaeth**
Mae'r Brifysgol yn berchen ar gasgliad helaeth o weithiau celf, a chasgliadau amgueddfa eraill, gan gynnwys llestri, offerynnau cerdd, eitemau astudiaethau natur, arteffactau daearegol a llawysgrifau, sydd gan fwyaf wedi eu rhoi neu eu gadael i'r Brifysgol yn ystod y 130 mlynedd ddiwethaf. Nid yw'r eitemau hyn wedi eu cynnwys yn y datganiadau ariannol gan fod y Brifysgol yn ystyried na fyddai'n ymarferol cael prisiad ystyrlon ohonynt yn y rhan fwyaf o achosion, oherwydd eu natur unigryw. Ychydig iawn o asedau treftadaeth y gallai'r Brifysgol eu gwerthu oherwydd natur gyfyngiadol eu caffael. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn Nodyn 12. Nodir cost cadwraeth ac adfer y casgliad treftadaeth yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr am y flwyddyn pryd y digwyddodd.

**15 Buddsoddiadau**
Rhoddir buddsoddiadau asedau anghyfredol mewn gwarantau heb eu rhestru ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol ar gost llai amhariad. Caiff buddsoddiadau mewn endidau a reolir ar y cyd, cwmnïau cysylltiedig ac is-gwmnïau eu cario ar gost llai amhariad yn Natganiadau Ariannol y Brifysgol.

Rhoddir buddsoddiadau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol fel asedau ariannol sylfaenol a chânt eu mesur yn unol â Nodyn 18 y polisi cyfrifyddu.

**16 Stoc**
Caiff stoc ei ddal ar yr isaf o blith cost a gwerth gwireddadwy net, a chaiff ei fesur yn defnyddio fformiwla costau cyfartalog.

**17 Arian parod a chywerthoedd arian parod**
Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac adneuon sy'n ad-daladwy ar gais. Mae adneuon yn ad-daladwy ar gais os ydynt ar gael o fewn 24 awr heb gosb.

Buddsoddiadau tymor byr hynod hylifol yw cywerthoedd arian parod y gellir eu trosi'n rhwydd i symiau hysbys o arian parod heb risg sylweddol y bydd newid mewn gwerth

**18 Darpariaethau, rhwymedigaethau amodol ac asedau amodol**
Cydnabyddir darpariaethau yn y datganiadau ariannol pan:

(a) mae gan y Brifysgol rwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu trwy ddehongliad) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;
(b) mae'n debygol y bydd angen all-lif o fuddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth; a
(c) gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Pennir y swm a gydnabyddir fel darpariaeth drwy ddisgowntio'r llifoedd arian disgwyliedig yn y dyfodol ar gyfradd cyn treth sy'n adlewyrchu risgiau penodol i'r rhwymedigaeth.

Mae rhwymedigaeth amodol yn codi o ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i'r Brifysgol ond y cadarnheir ei bodolaeth yn unig gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol, neu fel arall, na fydd yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol. Mae rhwymedigaethau amodol yn codi hefyd mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth mewn modd dibynadwy.

Mae ased amodol yn codi pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi ased posibl i'r Brifysgol ond y cadarnheir ei bodolaeth yn unig gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol, neu fel arall, na fydd yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol.

Ni chaiff asedau a rhwymedigaethau amodol eu cydnabod yn y Fantolen ond maent yn cael eu datgelu yn y Nodiadau.

**19 Cyfrifo ar gyfer Gweithrediadau ar y Cyd, Asedau a Reolir ar y Cyd a Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd**
Mae'r Brifysgol yn defnyddio'r dull ecwiti i roi cyfrif am ei chyfran o fentrau ar y cyd.

Mae'r Brifysgol yn rhoi cyfrif am ei chyfran o drafodion o weithrediadau ar y cyd ac asedau a reolir ar y cyd yn y Datganiad Cyfunol o Incwm a Gwariant.

# DATGANIAD PRIF BOLISÏAU CYFRIFO (PARHAD)
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

**20 Trethiant**

Caiff y dreth gyfredol, gan gynnwys treth gorfforaeth y Deyrnas Unedig a threth dramor, ei darparu ar symiau y disgwylir eu talu (neu eu hadennill) gan ddefnyddio'r cyfraddau treth a'r cyfreithiau a ddeddfwyd erbyn dyddiad y fantolen.

Ystyrir bod y Brifysgol yn pasio'r profion a nodir ym Mharagraff 1 Atodlen 6 Deddf Cyllid 2010 ac felly mae'n cyflawni'r diffiniad o gwmni elusennol i ddibenion treth gorfforaeth y Deyrnas Unedig. Felly, mae'r Brifysgol o bosibl wedi ei heithrio o drethiant mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a dderbyniwyd o fewn categorïau a ddaw dan adran 478-488 Deddf Treth Gorfforaeth 2010 (CTA 2010) neu adran 256 Deddf Trethiant Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y defnyddir y cyfryw incwm neu enillion i ddibenion elusennol yn unig.

**21 Offerynnau Ariannol**

Mae'r Brifysgol wedi dewis mabwysiadu Adrannau 11 a 12 FRS 102 mewn perthynas â chydnabod, mesur a datgelu offerynnau ariannol. Cydnabyddir asedau a rhwymedigaethau ariannol pan ddaw'r Brifysgol yn rhan o ddarpariaeth gontractol yr offeryn, ac fe'u dosbarthir yn ôl sylwedd y trefniadau contractol yr ymrwymwyd iddynt.

Caiff ased ariannol a rhwymedigaeth ariannol eu gwrthbwyso dim ond pan fo hawl y gellir ei gorfodi'n gyfreithiol i wrthbwyso'r symiau a gydnabyddir a bwriad naill ai i setlo ar sail net, neu i wireddu'r ased a setlo'r rhwymedigaeth ar yr un pryd.

***Asedau ariannol***

Mae asedau ariannol sylfaenol yn cynnwys symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill, arian parod a chywerthoedd arian parod, a buddsoddiadau mewn papur masnachol (h.y. adneuon a bondiau). Caiff yr asedau hyn eu cydnabod y tro cyntaf ar bris y trafodyn oni bai bod y trefniant yn drafodyn cyllido, pan gaiff y trafodyn ei fesur yn ôl gwerth presennol y derbyniadau yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd llog y farchnad. Yn dilyn hynny, caiff asedau o'r fath eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Asesir asedau ariannol i weld a oes arwyddion o amhariad ar bob dyddiad adrodd. Os oes tystiolaeth wrthrychol bod amhariad, caiff colled amhariad ei chydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr

Yn achos asedau ariannol sy'n cael eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio y golled amhariad yw'r gwahaniaeth rhwng swm cario'r ased a gwerth presennol llifoedd arian amcangyfrifedig yn y dyfodol, wedi'i ddisgowntio ar gyfradd llog effeithiol wreiddiol yr ased.

Mae asedau ariannol eraill, gan gynnwys buddsoddiadau mewn offerynnau ecwiti nad ydynt yn is-gwmnïau, yn gwmnïau cysylltiedig nac yn fentrau ar y cyd, yn cael eu mesur y tro cyntaf ar werth teg, sef pris y trafodyn fel arfer. Wedi hynny, caiff yr asedau hyn eu cario ar werth teg a chaiff newidiadau mewn gwerth teg ar y dyddiad adrodd eu cydnabod yn y datganiad o incwm cynhwysfawr. Pan nad yw'r buddsoddiad mewn offerynnau ecwiti'n cael ei fasnachu'n gyhoeddus a phan na ellir mesur y gwerth teg yn ddibynadwy, caiff yr asedau eu mesur ar gost llai amhariad.

Caiff asedau ariannol eu dad-gydnabod pan fo hawliau contractol i lifoedd arian o'r ased yn dod i ben neu'n cael eu setlo neu pan fo holl risgiau a manteision bod yn berchen ar yr ased yn cael eu trosglwyddo yn eu hanfod i barti arall.

***Rhwymedigaethau ariannol***

Mae rhwymedigaethau ariannol sylfaenol yn cynnwys symiau masnach a symiau taladwy eraill, benthyciadau banc a benthyciadau rhyng-grŵp. Caiff y rhwymedigaethau hyn eu cydnabod y tro cyntaf ar bris y trafodyn oni bai bod y trefniant yn drafodyn cyllido, pan gaiff yr offeryn dyled ei fesur ar werth presennol taliadau yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd llog y farchnad. Yn dilyn hynny, caiff offerynnau dyled eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol.

Caiff ffioedd a delir wrth sefydlu cyfleusterau benthyciad eu cydnabod fel costau trafod y benthyciad i'r graddau ei bod yn debygol y bydd peth neu'r cyfan o'r cyfleuster yn cael ei dynnu i lawr.

Rhwymedigaethau yw symiau masnach taladwy i dalu am nwyddau a gwasanaethau a gafwyd fel rhan o'r busnes arferol oddi wrth gyflenwyr. Dosberthir cyfrifon taladwy fel rhwymedigaethau cyfredol os ydynt yn daladwy o fewn blwyddyn neu lai. Os nad ydynt, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol. Caiff symiau masnach taladwy eu cydnabod y tro cyntaf ar bris y trafodyn ac wedi hynny cânt eu mesur ar
gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol.

Nid yw deilliadau ariannol, gan gynnwys blaen-gontractau cyfnewid tramor, yn offerynnau ariannol sylfaenol. Caiff deilliadau ariannol eu cydnabod y tro cyntaf ar werth teg ar ddyddiad ymrwymo i'r contract deilliadol ac wedi hynny cânt eu hail-fesur yn ôl eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd. Caiff newidiadau yng ngwerth teg deilliadau ariannol eu cydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr mewn costau cyllid neu incwm cyllid fel y bo'n briodol, oni bai eu bod wedi eu cynnwys mewn trefniant ymddiogelu.

I'r graddau y mae'r Brifysgol yn ymrwymo i flaen-gontractau cyfnewid tramor sy'n parhau i fod heb eu setlo ar y dyddiad adrodd, adolygir gwerth teg y contractau ar y dyddiad hwnnw. Mesurir y gwerth teg cychwynnol fel pris y trafodyn ar ddyddiad sefydlu'r contractau. Caiff prisiadau dilynol eu hystyried ar sail blaen-gyfraddau'r contractau hynny sydd heb eu setlo ar y dyddiad adrodd. Nid yw'r Brifysgol yn defnyddio cyfrifyddu ymddiogelu mewn perthynas â blaen-gontractau cyfnewid tramor a ddelir er mwyn rheoli achosion o amlygu llifoedd arian i drafodion arian tramor sy'n cael eu rhagweld.

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu dad-gydnabod pan fydd y rhwymedigaeth yn cael ei rhyddhau, ei chanslo neu pan ddaw i ben.

**22 Cronfeydd wrth gefn**

Dosberthir cronfeydd yn rhai cyfyngedig neu anghyfyngedig. Mae cronfeydd gwaddol cyfyngedig yn cynnwys rhai balansau sydd, drwy waddol i'r Brifysgol, yn cael eu dal fel cronfa gyfyngedig barhaol y mae'n rhaid i'r Brifysgol ei dal yn fythol barhaus.

Mae cronfeydd cyfyngedig eraill yn cynnwys balansau lle mae'r rhoddwr wedi pennu diben penodol ac felly mae'r Brifysgol wedi ei chyfyngu o ran defnyddio'r cyllid hwn.

**Barn gyfrifyddu gritigol a ffynonellau allweddol ansicrwydd amcangyfrif**

23 Wrth baratoi datganiadau ariannol y Brifysgol mae angen i'r rheolwyr ffurfio barn a gwneud amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar sut y defnyddir polisïau cyfrifo ac ar symiau asedau a rhwymedigaethau, incwm a threuliau yr adroddir amdanynt. Mae'r farn, yr amcangyfrifon a'r tybiaethau hyn yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ran digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau. Anaml, trwy ddiffiniad, y bydd yr amcangyfrifon cyfrifyddu a geir yn hafal i'r canlyniadau gwirioneddol cysylltiedig.

Mae'r rheolwyr o'r farn mai'r meysydd a nodir isod yw'r rhai lle cafodd barn gyfrifyddu gritigol ei defnyddio a gall yr amcangyfrifon a'r tybiaethau sy'n deillio o hynny arwain at addasiadau i symiau cario asedau a rhwymedigaethau yn y dyfodol:

***Cydnabod incwm***

Defnyddir barn wrth bennu gwerth ac amseriad rhai eitemau incwm sydd i'w cydnabod yn y datganiadau ariannol. Mae hyn yn cynnwys penderfynu pryd y mae amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad wedi cael eu bodloni, a phenderfynu ar y refeniw sy'n gysylltiedig â
chyrsiau a hyfforddiant a gyflwynwyd yn rhannol pan nad yw'r gweithgareddau wedi'u cwblhau'n llawn ar y dyddiad adrodd.

***Oes fuddiol eiddo, peirianwaith ac offer***

Mae eiddo, peirianwaith ac offer yn cynrychioli cyfran sylweddol o gyfanswm asedau'r Brifysgol. Felly, gall amcangyfrif oes fuddiol gael effaith sylweddol ar y dibrisiad a godir ac ar y perfformiad y mae'r Brifysgol yn adrodd yn ei gylch. Pennir oes fuddiol pan gaiff ased ei
chaffael a chaiff ei adolygu'n rheolaidd o ran priodoldeb. Mae'r oes yn seiliedig ar brofiad hanesyddol o ymwneud ag asedau tebyg yn ogystal â rhagweld digwyddiadau yn y dyfodol. Dangosir manylion gwerthoedd cario eiddo, peirianwaith ac offer yn Nodyn 11

***Adenilladwyedd dyledwyr***

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus yn seiliedig ar amcangyfrif i ba raddau y gellir adennill y dyledion hynny. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar sefyllfa bresennol y cwsmer, proffil oedran y ddyled a natur y swm sy'n ddyledus

Mae balans Symiau Masnach Derbyniadwy, Nodyn 17, y Brifysgol yn datgelu'r swm sy'n ddyledus i'r Brifysgol ac i'r Grŵp ar ôl didynnu'r ddarpariaeth drwgddyled o £2,020k (2019: £1,508k) a £2,117k (2019: £1,587k) yn y drefn honno. Mae'r ddarpariaeth drwgddyled yn
ymwneud yn bennaf â ffioedd neuaddau a ffioedd dysgu sy'n ddyledus gan fyfyrwyr.

Mae'r rheolwyr wedi adolygu dyledion unigol ac wedi asesu i ba raddau y gellid eu hadennill gan ystyried oedran, statws y dyledwr, ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall sy'n ymwneud â'r oedi wrth dalu.

***Cytundebau consesiwn gwasanaeth***

Mae gan y Brifysgol ddau gytundeb consesiwn gwasanaeth ar ei Mantolen, sef cynlluniau Ffordd Ffriddoedd a'r Santes Fair (Nodyn 13). Cafwyd y rhwymedigaethau cyllid cysylltiedig drwy ddefnyddio offeryn modelu ar gyfer cytundebau consesiwn gwasanaeth dan gyfarwyddyd ymgynghorwyr proffesiynol y Brifysgol, gyda mewnbynnau'n deillio o'r modelau gweithredwyr a oedd yn sail i'r contractau a luniwyd â'r partneriaid o'r sector preifat. Mae gwerth yr asedau'n seiliedig ar gostau a gymerwyd o'r un modelau gweithredwyr, ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu am amhariad bob blwyddyn. Ni chododd unrhyw amhariad yn 2019/20 (2018/19 - Dim).

Tybiwyd bod unrhyw wariant cylch oes yn refeniw yn ei natur yn seiliedig ar yr wybodaeth yn y modelau gweithredwyr.

# DATGANIAD PRIF BOLISÏAU CYFRIFO (PARHAD)
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 202

***Rhwymedigaethau buddion ymddeol***

***Darpariaeth pensiwn USS***

Pennir cost cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio yn defnyddio prisiadau actiwaraidd. Mae'r prisiad actiwaraidd yn golygu gwneud tybiaethau ynghylch cyfraddau disgowntio, codiadau cyflog yn y dyfodol, cyfraddau marwolaethau a chodiadau pensiwn yn y dyfodol. Oherwydd cymhlethdod y prisiad, y tybiaethau sylfaenol a natur tymor hir y cynlluniau hyn, mae ansicrwydd sylweddol yn gysylltiedig ag amcangyfrifon o'r fath. Rhoddir rhagor o fanylion yn Nodyn 29

Mae'r rheolwyr yn fodlon bod Cynllun Pensiwn y Prifysgolion yn cyflawni'r diffiniad o gynllun aml-gyflogwr ac felly wedi cydnabod gwerth teg disgowntiedig y cyfraniadau contractol dan y cynllun ariannu sydd mewn bodolaeth ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Gan fod y Brifysgol yn rhwym o dan gontract i wneud taliadau adfer diffyg i'r USS, caiff hyn ei gydnabod fel rhwymedigaeth ar y fantolen. Ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar gynllun adfer diffyg yr USS y cytunwyd arno ar ôl prisiad actiwaraidd 2017, sy'n diffinio'r taliad adfer diffyg sy'n ofynnol fel canran o gyflogau'r dyfodol tan 2034. Bydd y cyfraniadau hyn yn cael eu hailasesu ym mhrisiad y cynllun bob tair blynedd.

Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar amcangyfrif y rheolwyr o chwyddiannau cyflog disgwyliedig yn y dyfodol, newidiadau yn nifer y staff a chyfradd gyffredinol y disgownt. Nodir manylion pellach yn Nodyn 29A.

***Buddion ymddeol (BUPAS)***

Mae sefyllfa'r rhwymedigaeth pensiwn, fel y ceir yn y cyfrifon, yn seiliedig ar nifer o asesiadau cymhleth ac ar farn yn ymwneud â chyfraddau disgowntio, codiadau cyflog rhagamcanol, newidiadau i oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac elw a ddisgwylir ar asedau'r cynllun. Mae'r Brifysgol yn cyflogi cwmni proffesiynol o actiwarïaid i roi cyngor arbenigol ar y tybiaethau i'w gweithredu ac i gyfrifo rhwymedigaeth y cynllun.

Manylir ar y tybiaethau a ddefnyddir yn y flwyddyn gyfredol yn Nodyn 29B





# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 202

| | | 2019/20 | | 2018/19 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyfunol £'000** | **Prifysgol £'000** | Cyfunol £'000 | Prifysgol £'000 |
| **1** | **Ffioedd dysgu a chontractau addysg** | | | | |
| | Myfyrwyr llawn amser o'r DU/UE | **48,253** | **48,253** | 51,475 | 51,475 |
| | Myfyrwyr rhyngwladol llawn amser | **18,778** | **18,778** | 13,807 | 13,807 |
| | Myfyrwyr rhan amser | **1,925** | **1,925** | 2,034 | 2,034 |
| | Grantiau cefnogi hyfforddiant ymchwil | **899** | **899** | 923 | 923 |
| | Ffioedd cyrsiau byr | **1,030** | **1,030** | 892 | 892 |
| | Contractau addysg | **11,533** | **11,533** | 11,567 | 11,567 |
| | | **82,418** | **82,418** | 80,698 | 80,698 |
| **2** | **Grantiau cyrff cyllido** | | | | |
| | **Grant rheolaidd** | | | | |
| | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | **9,074** | **9,074** | 8,156 | 8,156 |
| | **Grantiau penodol** | | | | |
| | ***Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru*** | | | | |
| | Cronfa Newton a'r Her Fyd-eang | **96** | **96** | 86 | 86 |
| | Ymgeisio'n uwch, ymgeisio'n ehangach | **342** | **342** | 384 | 384 |
| | Grantiau cyfalaf | **1,517** | **1,517** | 1,571 | 1,571 |
| | Myfyrwyr Ôl-radd Hyfforddedig Meistr | **318** | **318** | 395 | 395 |
| | Mentrau cyfrwng Cymraeg | **1,018** | **1,018** | 935 | 935 |
| | Lles ac Iechyd Myfyrwyr | **131** | **131** | 0 | 0 |
| | Cronfa Datblygu Gallu Arloesi | **210** | **210** | 0 | 0 |
| | Cyllid Ymchwil Cymru | **473** | **473** | 0 | 0 |
| | Prentisiaethau Gradd | **262** | **262** | 0 | 0 |
| | Cydweithrediad AU ac AB | **352** | **352** | 0 | 0 |
| | Arall | **67** | **67** | 98 | 98 |
| | ***Llywodraeth Cymru*** | | | | |
| | Ymarferwyr cenedlaethol | **308** | **308** | 380 | 380 |
| | Canolfan Cymraeg i Oedolion | **1,518** | **1,518** | 1,574 | 1,574 |
| | Ysbyty Enfys | **120** | **120** | 0 | 0 |
| | Arall | **63** | **63** | 109 | 109 |
| | | **15,869** | **15,869** | 13,688 | 13,688 |
| **3** | **Grantiau a chontractau ymchwil** | | | | |
| | Cynghorau ymchwil | **3,488** | **3,488** | 3,636 | 3,636 |
| | Y Deyrnas Unedig - Elusennau | **1,184** | **1,184** | 1,103 | 1,103 |
| | Y Deyrnas Unedig - Llywodraeth | **6,115** | **6,115** | 5,797 | 5,797 |
| | Y Deyrnas Unedig - Diwydiant a Masnach | **327** | **327** | 316 | 316 |
| | Yr Undeb Ewropeaidd - Llywodraeth | **9,662** | **9,662** | 9,491 | 9,491 |
| | Yr Undeb Ewropeaidd - Arall | **56** | **56** | 8 | 8 |
| | Tramor - Arall | **588** | **588** | 618 | 618 |
| | Ffynonellau eraill | **131** | **131** | 129 | 129 |
| | | **21,551** | **21,551** | 21,098 | 21,098 |

Mae'r cyfansymiau contractau a grantiau ymchwil yn cynnwys incwm a gydnabyddir yn llawn o £1.7m (2018/19 - £1.6m) a dderbyniwyd i grantiau cyfalaf lle mae amodau perfformiad wedi'u bodloni. Bydd yr offer cysylltiedig a brynwyd yn cael eu dibrisio dros 5 mlynedd yn unol â Pholisïau Cyfrifo'r Brifysgol.

| | | 2019/20 Cyfunol £'000 | 2019/20 Prifysgol £'000 | 2018/19 Cyfunol £'000 | 2018/19 Prifysgol £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **4** | **Incwm arall** | | | | |
| | Preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau | **10,805** | **10,805** | 14,138 | 14,138 |
| | Gwasanaethau eraill a ddarperir gan y Brifysgol | **3,784** | **3,785** | 4,971 | 4,979 |
| | Incwm arall | **9,377** | **9,376** | 7,690 | 7,627 |
| | ***Is-gwmnïau*** | | | | |
| | NWWMDC Cyf | **1,983** | **0** | 2,493 | 0 |
| | Eraill | **847** | **0** | 644 | 0 |
| | | **26,796** | **23,966** | 29,936 | 26,744 |

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

| | | 2019/20 | | 2018/19 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyfunol £'000** | **Prifysgol £'000** | Cyfunol £'000 | Prifysgol £'000 |
| 5 | **Incwm buddsoddi** | | | | |
| | Incwm buddsoddi ar waddolion | **207** | **207** | 217 | 217 |
| | Incwm buddsoddi arall | **338** | **412** | 303 | 450 |
| | | **545** | **619** | 520 | 667 |
| 6 | **Incwm rhoddion a gwaddolion** | | | | |
| | Gwaddolion newydd | **313** | **313** | 6 | 6 |
| | Rhoddion gyda chyfyngiadau | **166** | **166** | 186 | 186 |
| | Rhoddion anghyfyngedig | **38** | **37** | 248 | 248 |
| | | **517** | **516** | 440 | 440 |
| 7 | **Costau staff** | | | | |
| | Cyflogau | **61,806** | **60,530** | 64,923 | 63,344 |
| | Costau nawdd cymdeithasol | **6,280** | **6,047** | 6,257 | 6,134 |
| | Costau Ailstrwythuro | **12** | **12** | 1,353 | 1,353 |
| | Symudiad ar ddarpariaeth USS | **(11,384)** | **(11,384)** | 18,158 | 18,158 |
| | Symudiad ar ddarpariaeth USS | **4,894** | **4,894** | 1,164 | 1,164 |
| | Costau pensiwn eraill | **11,607** | **11,511** | 10,426 | 10,381 |
| | Cyfanswm | **73,215** | **71,610** | 102,281 | 100,534 |

**Taliadau i'r Is-ganghellor 1 Awst 2019 i 31 Gorffennaf 2020:**

| | Yr Athro I Davies o 01/09/19 | Yr Athro G Upton o 01/01/19 - 30/08/19 | | Yr Athro J Hughes hyd 31/12/18 |
|---|---|---|---|---|
| | **2019/20 £'000** | **2019/20 £'000** | 2018/19 £'000 | 2018/19 £'000 |
| Cyflog | **202** | **16** | 106 | 124 |
| Buddion nad ydynt yn drethadwy: Llety Byw | **0** | **0** | 0 | 6 |
| Cyfraniadau pensiwn i USS mewn perthynas â'r cynllun adfer diffyg | **0** | **0** | 0 | 2 |
| Tâl yn lle rhybudd diswyddo | **0** | **0** | 0 | 112 |
| Cyfanswm y tâl | **202** | **16** | 106 | 244 |

| **Tâl yr Is-ganghellor fel cymhareb â chyflog yr holl weithwyr eraill ar sail CALI** | **2019/20** | **2019/20** | 2018/19 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|
| Canolrif cyflog sylfaenol | **1 : 5.70** | **1 : 5.03** | 1 : 5.15 | 1 : 6.82 |
| Canolrif cyfanswm y tâl | **1 : 5.70** | **1 : 5.03** | 1 : 5.15 | 1 : 7.27 |

Dangosir taliadau i'r Is-ganghellor ar yr un sail â staff ar gyflogau uwch ond maent yn cynnwys cyfraniad y cyflogwr i gynllun adfer diffyg yr USS.

Penododd Cyngor y Brifysgol Is-ganghellor newydd o 1 Medi 2019 am gyfnod penodol o 5 mlynedd, y gellir ei adnewyddu, ac ar y sail mai £220,000 yw cyflog cychwynnol y swydd, heb unrhyw fuddion eraill y tu hwnt i'r rhai a dderbynnir gan aelodau eraill o'r staff. Wrth bennu cyflog yr Is-ganghellor, cymerodd y panel penodi Arolwg Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau o Dâl Uwch Staff i ystyriaeth ynghyd ag Arolwg Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol o gyflogau Is-gangellorion.

Nid yw'r Is-ganghellor yn aelod o gynllun pensiwn yr USS ac felly ni wnaed unrhyw gyfraniadau cyflogwr yn y cyfnod hwn.





Caiff perfformiad yr Is-ganghellor ei fonitro trwy gydol y flwyddyn gan gynnwys gwerthusiadau perfformiad 1: 1 gyda Chadeirydd y Cyngor. Mae Cadeirydd y Cyngor yn gosod amcanion i'r Is-ganghellor yn unol â chyfeiriad strategol y Brifysgol. Mae'r adolygiad blynyddol hefyd yn cynnwys adborth gan aelodau'r Cyngor a chan Bwyllgor Gweithredu'r Brifysgol. Y Pwyllgor Taliadau sy'n pennu ac yn adolygu tâl yr Is-ganghellor. Byddant yn ystyried fforddiadwyedd, gwybodaeth gymharol am daliadau yn y sector neu mewn mannau eraill, a metrigau perthnasol a data perfformiad. Bydd perfformiad uwch aelodau staff yn cael ei ystyried yn erbyn safonau a nodwyd.

**Taliadau i staff ar gyflogau uwch, (ac eithrio'r Is-ganghellor a heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr)**

| | **2019/20 Rhif** | 2018/19 (ailddatganwyd) Rhif |
|---|---|---|
| £100,000 i £104,999 | **5** | 2 |
| £105,000 i £109,999 | **0** | 3 |
| £110,000 i £114,999 | **3** | 2 |
| £115,000 i £119,999 | **3** | 2 |
| £120,000 i £124,999 | **1** | 0 |
| £130,000 i £134,999 | **0** | 1 |
| £135,000 i £139,999 | **2** | 2 |
| £145,000 i £149,999 | **0** | 1 |
| £270,000 i £274,999 | **0** | 1 |
| | **14** | 14 |

| Cyfartaledd nifer staff fesul prif gategori: | **Rhif** | Rhif |
|---|---|---|
| Academaidd a chysylltiedig ac ymchwil | **938** | 944 |
| Clercyddol | **333** | 329 |
| Technegol | **91** | 94 |
| Arall | **282** | 300 |
| | **1,644** | 1,667 |

Mynegir niferoedd staff fel niferoedd cyfwerth ag amser llawn.

£1.89m (2018/19 - £1.95m) oedd y costau staff annodweddiadol (costau staff Is-gwmnïau, Asiantaethau, Hunangyflogedig a digontract), ac eithrio costau staff yr Is-gwmnïau £281k (2018/19 - 210k)

Talwyd iawndal am golli swydd i ddau gyn weithiwr ar gyflog uwch o dan delerau cynllun diswyddo gwirfoddol safonol y Brifysgol, y swm a dalwyd oedd £206,225 (2018/19 2 - £179,258).

**Staff rheoli allweddol**

Staff rheoli allweddol yw'r bobl hynny sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb dros gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r Brifysgol. Mae costau staff yn cynnwys cyfraniadau'r cyflogwyr at bensiwn ac Yswiriant Gwladol.

| | **2019/20 £'000** | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| Cost staff rheoli allweddol | **1,590** | 1,561 |
| | **Rhif.** | Rhif |
| Cyfanswm CALI personél rheoli allweddol yn ystod 2019/20 | **10.6** | 11 |

Ar 31 Gorffennaf 2020 roedd 9 aelod o bersonél rheoli allweddol (18/19 - 11).

**Aelodau'r Cyngor**

Mae aelodau cyngor y Brifysgol yn ymddiriedolwyr i ddibenion cyfraith elusennol. Oherwydd natur gweithrediadau'r Brifysgol a chyfansoddiad y Cyngor, wedi eu tynnu o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn lleol, mae'n anorfod y gwneir trafodion lle y gallai aelod o'r Cyngor fod â budd ynddynt.

Cynhelir yr holl drafodion yn ymwneud â sefydliadau y gall aelod o'r Cyngor fod â budd ynddynt o hyd braich ac yn unol â Rheoliadau Ariannol y Brifysgol a threfn caffael arferol. Nodir isod werth y trafodion hyn a adlewyrchir yn y cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2020.

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

| Sefydliad | Enw | Swydd | Incwm £000 | Gwariant £000 | Dyledus oddi wrth/(i) ar 31 Gorffennaf 2020 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Mrs Marian Wyn Jones | Is-gadeirydd | 513 | 0 | 0 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Mrs Marian Wyn Jones | Aelod o'r Bwrdd | 827 | 909 | 266 |
| | Yr Athro Nichola Callow | Aelod o'r Bwrdd | | | |
| Grŵp Llandrillo Menai | Dr. Griffith W Jones | Is-gadeirydd | 634 | 157 | 169 |
| Cyngor Ymchwil Amgylchedd Cenedlaethol | Yr Athro David Thomas | Aelod | 19 | 10 | 0 |
| Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd | Yr Athro Oliver Turnbull | Cyfarwyddwr | 0 | 34 | 0 |
| Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol | Dr Kevin Mundy | Cyfarwyddwr | 0 | 34 | 0 |
| Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor | Mrs Tracy Hibbert: | Ymddiriedolwr | 24 | 400 | 0 |

Ni dderbyniodd unrhyw aelod lleyg o'r cygor dâl gan y grŵp yn ystod y flwyddyn (2019 - dim).
Cyfanswm y treuliau a dalwyd i neu ar ran 5 aelod lleyg o'r Cyngor oedd £1,420 (2019 - talwyd £6,508 i 6 aelod). Mae hyn yn cynrychioli treuliau teithio wrth ddod i gyfarfodydd y Cyngor, ac i bwyllgorau a digwyddiadau eraill yn rhinwedd eu swydd.

| 8 | Llog a chostau ariannu eraill | Nodyn | 2019/20 Cyfunol £'000 | 2019/20 Prifysgol £'000 | 2018/19 Cyfunol £'000 | 2018/19 Prifysgol £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llog benthyciad | | **1,418** | **1,240** | 1,424 | 1,306 |
| | Llog prydles gyllidol (yn cynnwys tâl cyllid consesiwn gwasanaeth) | | **3,915** | **3,915** | 3,941 | 3,941 |
| | Tâl net ar gynllun pensiwn | 21 | **479** | **479** | 287 | 287 |
| | Arall | | **0** | **0** | 0 | 0 |
| | | | **5,812** | **5,634** | 5,652 | 5,534 |

| 9 | Dadansoddiad o gyfanswm gwariant fesul gweithgaredd | 2019/20 Cyfunol | 2019/20 Prifysgol | 2018/19 Cyfunol | 2018/19 Prifysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| | Adrannau academaidd | **46,949** | **47,335** | 46,671 | 47,080 |
| | Gwasanaethau Academaidd | **11,230** | **11,279** | 11,549 | 11,597 |
| | Gweinyddiaeth a gwasanaethau canolog | **8,934** | **8,938** | 8,054 | 8,066 |
| | Addysgol cyffredinol | **11,692** | **11,695** | 11,387 | 11,390 |
| | Cyfleusterau staff a myfyrwyr | **7,329** | **6,855** | 7,367 | 6,833 |
| | Eiddo | **20,033** | **20,401** | 18,503 | 18,893 |
| | Preswylfeydd a gweithrediadau arlwyo | **13,753** | **13,755** | 15,183 | 15,184 |
| | Grantiau a chontractau ymchwil | **18,954** | **19,232** | 18,970 | 18,979 |
| | Gwasanaethau a ddarperir | **7,101** | **3,391** | 7,360 | 3,677 |
| | Costau ailstrwythuro / (heb eu defnyddio) | **12** | **12** | 1,351 | 1,351 |
| | Symudiad ar ddarpariaeth USS | **(11,384)** | **(11,384)** | 18,158 | 18,158 |
| | Arall | **2,017** | **2,017** | 1,895 | 2,064 |
| | | **136,620** | **133,526** | 166,448 | 163,272 |
| | **Treuliau gweithredu eraill yn cynnwys:** | | | | |
| | | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| | Tâl archwilwyr allanol | | | | |
| | Gwasanaethau archwilio | **119** | **90** | 99 | 79 |
| | Gwasanaethau heblaw archwilio | **112** | **105** | 73 | 67 |
| | Rhenti prydles weithredol | | | | |
| | Tir ac adeiladau | **256** | **256** | 237 | 237 |
| | Arall | **1,131** | **1,131** | 1,108 | 1,108 |
| | Costau ailstrwythuro / (heb eu defnyddio) yn cynnwys | | | | |
| | Diswyddo Staff | **14** | **14** | 1,353 | 1,353 |
| | Arall | **0** | **0** | (2) | (2) |

| 10 | Trethiant | 2019/20 Cyfunol £'000 | 2019/20 Prifysgol £'000 | 2018/19 Cyfunol £'000 | 2018/19 Prifysgol £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Treth gyfredol** | | | | |
| | Treth gorfforaeth y DU o 19% (2019: 19%) ar ddiffyg am y flwyddyn | **0** | **0** | 0 | 0 |
| | **Cyfanswm tâl treth** | **0** | **0** | 0 | 0 |

**Ffactorau'n effeithio ar y tâl treth**
Mae'r dreth a aseswyd am y flwyddyn yn is na chyfradd safonol treth gorfforaeth yn y Deyrnas Unedig. Eglurir y gwahaniaeth isod.

| | 2019/20 Cyfunol | 2019/20 Prifysgol | 2018/19 Cyfunol | 2018/19 Prifysgol |
|---|---|---|---|---|
| (Diffyg)/Gwarged cyn treth | **10,924** | **11,223** | (19,841) | (19,773) |
| (Diffyg)/Gwarged wedi'i luosi gan gyfradd safonol treth gorfforaeth yn y Deyrnas Unedig o 19% (2019: 19%) | **2,076** | **2,132** | (3,770) | (3,757) |
| Gwarged/(Diffyg) o fewn eithriad elusennol | **(2,076)** | **(2,132)** | 3,770 | 3,757 |
| Effaith newid yng nghyfradd treth gorfforaeth | **0** | **0** | 0 | 0 |
| **Tâl treth cyfredol** | **0** | **0** | 0 | 0 |

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

### 11 Eiddo, Peirianwaith ac Offer

| | Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliol | Gwelliannau Prydlesol | Trefniant consesiwn gwasanaeth Tir ac Adeiladau | Gosodiadau, Ffitiadau ac Offer | Asedau sydd wrthi'n cael eu Hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfunol** | | | | | | |
| **Cost** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ar 1 Awst 2019 | 291,019 | 11,079 | 68,652 | 28,047 | 5,472 | 404,269 |
| Ychwanegiadau | 0 | 16 | 0 | 3,233 | 2,028 | **5,277** |
| Trosglwyddiadau | 4,593 | 0 | 0 | 132 | (4,725) | **0** |
| Gwarediadau | (320) | 0 | 0 | (135) | (33) | **(488)** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **295,292** | **11,095** | **68,652** | **31,277** | **2,742** | **409,058** |
| **Dibrisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2019 | 40,599 | 5,088 | 6,628 | **23,132** | 0 | 75,447 |
| Tâl am y flwyddyn | 9,071 | 374 | 1,466 | **2,346** | 0 | **13,257** |
| Gwarediadau | (38) | 0 | 0 | **(135)** | 0 | **(173)** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **49,632** | **5,462** | **8,094** | **25,343** | **0** | **88,531** |
| **Gwerth net ar bapur** | | | | | | |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **245,660** | **5,633** | **60,558** | **5,934** | **2,742** | **320,527** |
| Ar 31 Gorffennaf 2019 | 250,420 | 5,991 | 62,024 | 4,915 | 5,472 | 328,822 |
| **Prifysgol** | | | | | | |
| **Cost** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ar 1 Awst 2019 | 291,019 | 58 | 68,652 | 26,158 | 5,472 | 391,359 |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 | 0 | 3,183 | 2,027 | **5,210** |
| Trosglwyddiadau | 4,593 | 0 | 0 | 132 | (4,725) | **0** |
| Gwarediadau | (320) | 0 | 0 | (135) | (33) | **(488)** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **295,292** | **58** | **68,652** | **29,338** | **2,741** | **396,081** |
| **Dibrisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2019 | 40,599 | 7 | 6,628 | 21,328 | 0 | 68,562 |
| Tâl am y flwyddyn | 9,071 | 2 | 1,466 | 2,299 | 0 | **12,838** |
| Gwarediadau | (38) | 0 | 0 | (135) | 0 | **(173)** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **49,632** | **9** | **8,094** | **23,492** | **0** | **81,227** |
| **Gwerth net ar bapur** | | | | | | |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **245,660** | **49** | **60,558** | **5,846** | **2,741** | **314,854** |
| Ar 31 Gorffennaf 2019 | 250,420 | 51 | 62,024 | 4,830 | 5,472 | 322,797 |

Ar 31 Gorffennaf 2020, roedd tir ac adeiladau rhydd-ddaliol yn cynnwys £38.7m (2019 - £38.7m) mewn perthynas â thir rhydd-ddaliol ac nid yw wedi'i ddibrisio.

| | |
|---|---|
| **Asedau ar brydles a gynhwyswyd uchod:** | |
| **Gwerth Net ar Bapur:** | **£'000** |
| Ar 31 Gorffennaf 2019 | 12 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **982** |

### 12 Asedau Treftadaeth

Mae gan y Brifysgol nifer o gasgliadau o Asedau Treftadaeth, yn cynnwys: Casgliadau Celf – oddeutu 600 o ddarluniau olew, dyfrlliw, printiau a lluniadau, yn ogystal â 9 o gerfluniau, yn dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg i'r unfed ganrif ar hugain; Casgliad Cerameg - yn cynnwys oddeutu 500 o ddarnau sy'n cael eu harddangos ac wedi'u cadw; Casgliad Cerdd - oddeutu 600 o offerynnau cerdd ethnogaffig, ynghyd â 325 o offerynnau clai cyn-Golumbaidd; Casgliad Daeareg - tua 8,000 o greigiau a 6,000 o ffosiliau o bob rhan o'r byd; Casgliad Astudiaethau Natur - yn cynnwys tua 40,000 o sbesimenau (gyda tua 500 yn cael eu harddangos); Casgliad Hynafiaethau Cymreig - a hynafiaethau eraill a arddangosir yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Gwynedd; a Chasgliad Llawysgrifau - mae gan y Llyfrgell tua 16,500 o lyfrau prin neu o bwysigrwydd arbennig ac mae gan yr Adra– Archifau tua 80 o gasgliadau, y rhan fwyaf yn bapurau ystadau a theuluoedd o siroedd Gogledd Cymru, ynghyd â phapurau preifat unigolion amlwg a chasgliad amrywiol o gofnodion llenyddol, hanesyddol a hynafiaethol.

Mae Asedau Treftadaeth y Brifysgol yn cael eu cofnodi a chawsant eu prisio ar £12.3m at ddibenion yswiriant yn unig. Nid yw'r gwerth hwn yn cael ei adlewyrchu yn Natganiadau Ariannol y Brifysgol.

### 13 Trefniadau consesiwn gwasanaeth

Mae gan y Brifysgol ddau drefniant consesiwn gwasanaeth ar y Fantolen, sef safleoedd y Santes Fair a Ffordd Ffriddoedd, lle mae darparu gwasanaeth wedi dechrau.

**Symudiad yn asedau trefniant consesiwn gwasanaeth**
Gwerth ased y consesiynau gwasanaeth a gynhwysir ar y Fantolen ar 31 Gorffennaf 2020 yw £60,558k (1 Awst 2019 £62,024k). Mae'r gostyngiad o £1,466k yn deillio o daliadau dibrisiad yn ystod y flwyddyn.
**Symudiad yn rhwymedigaethau trefniant consesiwn gwasanaeth**
Cyfanswm y rhwymedigaethau'n ymwneud â'r consesiynau gwasanaeth a gynhwysir ar y Fantolen ar 31 Gorffennaf 2020 oedd £63,344k (1 Awst 2019 £64,783k). Mae'r gostyngiad o £ 1,439k yn deillio o ad-daliadau yn ystod y flwyddyn.
**Ymrwymiadau yn y dyfodol**
Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi ymrwymiadau'r Brifysgol yn y dyfodol mewn perthynas â threfniadau consesiwn gwasanaeth.

| | Taladwy mewn 1 flwyddyn | Taladwy mewn 2-5 mlynedd | Taladwy mewn 6 mlynedd neu fwy | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ad-daliadau rhwymedigaethau | 1,459 | 5,513 | 56,373 | 63,345 |
| Tâl cyllid | 3,489 | 13,062 | 35,671 | 52,222 |
| Tâl gwasanaeth | 2,014 | 10,441 | 72,243 | 84,698 |
| | **6,962** | **29,016** | **164,287** | **200,265** |

Mae'r nodiadau isod yn rhoi rhagor o wybodaeth am drefniadau cyfredol consesiwn gwasanaeth y Brifysgol ar y Fantolen:

**a) Cynllun Ffordd Ffriddoedd**
Ar 6 Hydref 2006 llofnododd y Brifysgol gontract 29 mlynedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw llety i 1,136 o fyfyrwyr.

Caiff yr asedau a'r rhwymedigaethau'n ymwneud â'r cynllun hwn eu cydnabod ar Fantolen y Brifysgol.

Dechreuodd y gwasanaeth ar 1 Hydref 2009 a bydd y contract yn gorffen ar 30 Medi 2038.

**b) Cynllun y Santes Fair**
Ar 23 Gorffennaf 2014 llofnododd y Brifysgol gontract 40 mlynedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw llety i 602 o fyfyrwyr.

Caiff yr asedau a'r rhwymedigaethau'n ymwneud â'r cynllun hwn eu cydnabod ar Fantolen y Brifysgol.

Dechreuodd y gwasanaeth ar 25 Medi 2015 a bydd y contract yn gorffen ar 24 Medi 2055.

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

### 14 Buddsoddiadau Anghyfredol

| | Is-gwmnïau (Nodyn 27) | Cwmnïau cysylltiedig (Nodyn 27) | Mentrau ar y cyd (Nodyn 15) | Buddsoddiadau Anghyfredol Eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfunol** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ar 1 Awst 2019 | 0 | 50 | 0 | 6,068 | 6,118 |
| Rhyddhau yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | 59 | **59** |
| Ailbrisiad | 0 | 0 | 0 | (218) | **(218)** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **0** | **50** | **0** | **5,909** | **5,959** |
| **Prifysgol** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ar 1 Awst 2019 | 0 | 50 | **50** | 6,068 | **6,168** |
| Rhyddhau yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | **0** | 59 | **59** |
| Ailbrisiad | 0 | 0 | **0** | (218) | **(218)** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **0** | **50** | **50** | **5,909** | **6,009** |

Nodir buddsoddiadau anghyfredol ar gost ac eithrio cronfeydd a reolir gan y Brifysgol a nodir ar werth y farchnad.

| | University |
|---|---|
| | **£'000** |
| Mae buddsoddiadau anghyfredol eraill yn cynnwys: | |
| CVCP Properties plc | **33** |
| Laser Micromachining Ltd | **80** |
| Cronfeydd a reolir mewn ecwitïau a gwarantau llog sefydlog | **5,796** |
| | **5,909** |

Delir cronfeydd a reolir gyda UBS Asset Management (UK) Limited sydd wedi eu trwyddedu gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

### 15 Buddsoddiad mewn mentrau ar y cyd

Mae gan y Brifysgol gyfran o 50% (50,000 o gyfrannau cyffredin £1) yn P&O Maritime Ocean Sciences Limited, sef cwmni wedi'i gofrestru yn Lloegr, sy'n ymwneud â llogi llong ymchwil. Cwmni cyd-fentro yw hwn y mae'r Brifysgol a P&O Maritime Services (UK) Limited yn berchnogion cyfartal arno. Caiff y trefniant ei drin fel menter ar y cyd a'i gyfrifo gan ddefnyddio'r dull ecwiti, fel bod 50% o asedau a rhwymedigaethau gros y cwmni'n cael eu hymgorffori ym mantolen gyfunol y Brifysgol a 50% o'i incwm net yn cael ei adrodd yn Natganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr y Brifysgol.

| **Cyfrif incwm a gwariant** | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Cyfran o incwm | **608** | 606 |
| Cyfran o wariant | **(570)** | (543) |
| Cyfran o warged am y flwyddyn | **38** | 63 |

| **Mantolen** | **2020** | 2019 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Asedau sefydlog | **122** | 226 |
| Asedau cyfredol | **319** | 366 |
| | **441** | 592 |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn | **(104)** | (185) |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn | **(162)** | (270) |
| | **(266)** | (455) |
| **Cyfran o asedau net** | **175** | 137 |

### 16 Stoc

| | **2020** | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol** | **Prifysgol** | Cyfunol | Prifysgol |
| | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| Stociau arlwyo ac adwerthu | **68** | **43** | **109** | **78** |
| | **68** | **43** | **109** | **78** |

### 17 Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill

| | **2020** | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol** | **Prifysgol** | Cyfunol | Prifysgol |
| | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn: | | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy | **13,270** | **13,083** | 11,362 | 10,528 |
| Symiau derbyniadwy eraill - treth adferadwy | **7** | **0** | 0 | 0 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **11,945** | **11,850** | 9,662 | 9,602 |
| Symiau dyledus gan is-gwmnïau | **0** | **3,030** | 0 | 2,759 |
| Swm dyledus gan fenter ar y cyd | **200** | **200** | 200 | 200 |
| Rhagdaliad i fenter ar y cyd | **50** | **50** | 50 | 50 |
| | **25,472** | **28,213** | 21,274 | 23,139 |
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl un flwyddyn: | | | | |
| Symiau dyledus gan is-gwmnïau | **0** | **1,736** | 0 | 1,888 |
| Benthyciad i fenter ar y cyd | **100** | **100** | 300 | 300 |
| Rhagdaliad i fenter ar y cyd | **34** | **34** | 83 | 83 |
| Rhagdaliad i ymgymeriadau is-gwmni | **0** | **1,927** | 0 | 2,064 |
| | **25,606** | **32,010** | 21,657 | 27,474 |

### 18 Buddsoddiadau cyfredol

| | **2020** | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol** | **Prifysgol** | Cyfunol | Prifysgol |
| | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| Adneuon tymor byr | **5,133** | **5,133** | 10,463 | 10,463 |
| | **5,133** | **5,133** | 10,463 | 10,463 |

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

### 19 Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn

| | 2020 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol £'000** | **Prifysgol £'000** | Cyfunol £'000 | Prifysgol £'000 |
| Rhwymedigaethau dan brydlesi cyllidol | **159** | **159** | 12 | 12 |
| Trefniadau consesiwn gwasanaeth (Nodyn 13) | **1,459** | **1,459** | 1,438 | 1,438 |
| Benthyciadau sicredig | **329** | **329** | 567 | 567 |
| Benthyciadau ansicredig | **2,288** | **2,288** | 2,220 | 2,220 |
| Gorddrafft Banc | **0** | **0** | 34 | 34 |
| Credydwyr | **8,888** | **8,632** | 8,109 | 7,952 |
| Nawdd cymdeithasol a threthi taladwy eraill | **1,992** | **1,961** | 1,805 | 1,704 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | **19,036** | **18,430** | 18,643 | 17,697 |
| Symiau dyledus i fenter ar y cyd | **164** | **164** | 212 | 212 |
| Symiau dyledus i ymgymeriadau is-gwmnïau | **0** | **402** | 0 | 439 |
| | **34,315** | **33,824** | 33,040 | 32,275 |

**Incwm gohiriedig**

Wedi eu cynnwys o fewn croniadau ac incwm gohiriedig mae'r eitemau incwm canlynol sydd wedi eu gohirio nes bod amodau penodol sy'n gysylltiedig â pherfformiad wedi cael eu cyflawni.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Grantiau ymchwil a dderbyniwyd ar gyfrif | **3,754** | **3,754** | 3,841 | 3,841 |
| Grantiau corff cyllido | **1,820** | **1,820** | 1,634 | 1,634 |
| Arall | **269** | **269** | 607 | 607 |
| | **5,843** | **5,843** | 6,082 | 6,082 |

### 20 Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn

| | 2020 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol £'000** | **Prifysgol £'000** | Cyfunol £'000 | Prifysgol £'000 |
| Incwm gohiriedig | **73** | **33** | 274 | 83 |
| Rhwymedigaethau dan brydles gyllidol | **823** | **823** | 0 | 0 |
| Rhwymedigaethau consesiwn gwasanaeth sy'n ddyledus ar ôl un flwyddyn | **61,885** | **61,885** | 63,345 | 63,345 |
| Benthyciadau sicredig | **0** | **0** | 67 | 67 |
| Benthyciadau ansicredig | **37,817** | **37,817** | 39,774 | 39,774 |
| | **100,598** | **100,558** | 103,460 | 103,269 |
| Dadansoddiad o fenthyciadau sicredig ac ansicredig: | | | | |
| **Dyledus o fewn un flwyddyn neu ar gais** | **2,617** | **2,617** | 2,787 | 2,787 |
| Dyledus rhwng un a dwy flynedd | **2,621** | **2,621** | 2,912 | 2,668 |
| Dyledus rhwng dwy a phum mlynedd | **8,314** | **8,314** | 8,542 | 8,239 |
| Dyledus ymhen pum mlynedd neu fwy | **26,882** | **26,882** | 28,387 | 28,934 |
| **Dyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn** | **37,817** | **37,817** | 39,841 | 39,841 |
| **Cyfanswm benthyciadau sicredig ac ansicredig** | **40,434** | **40,434** | 42,628 | 42,628 |
| Benthyciadau sicredig sy'n ad-daladwy erbyn 2026 | **329** | **329** | 634 | 634 |
| Benthyciadau ansicredig sy'n ad-daladwy erbyn 2033 | **40,105** | **40,105** | 41,994 | 41,994 |
| | **40,434** | **40,434** | 42,628 | 42,628 |

Mae'r canlynol wedi'u cynnwys mewn benthyciadau:

| **Benthyciwr** | **Swm £'000** | **Aeddfedu** | **Cyfradd llog %** | **Rhoddwr Benthyg** |
|---|---|---|---|---|
| Prifysgol | 68 | 2020 | LIBOR + 1.45% | Bank of Scotland plc |
| Prifysgol | 2,614 | 2030 | 0% | Salix Energy Efficiency Loans |
| Prifysgol | 21,243 | 2033 | Fixed 3.913% | Banc Buddsoddi Ewrop |
| Prifysgol | 16,509 | 2033 | Fixed 2.135% | Banc Buddsoddi Ewrop |
| **Cyfanswm Prifysgol** | **40,434** | | | |

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

### 21 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

| | Diffyg USS | Cynllun lleol | **Cyfanswm Darpariaethau Pensiwn** | Darpariaeth Ailstrwythuro | **Cyfanswm Arall** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfunol a Phrifysgol** | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 | **£'000** |
| **Ar 1 Awst 2019 (Ailddatganwyd*)** | 30,329 | (6,621) | **23,708** | 738 | **738** |
| Cost staff | 0 | 691 | **691** | 0 | **0** |
| Cyfraniad Adfer Diffyg | (759) | 0 | **(759)** | 0 | **0** |
| Cost cyllid / (credyd) | 479 | (132) | **347** | 0 | **0** |
| Symudiad ar y Cynllun Pensiwn | (10,625) | 10,266 | **(359)** | 0 | **0** |
| Ychwanegiadau / (Wedi eu defnyddio) | 0 | 0 | **0** | (548) | **(548)** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **19,424** | **4,204** | **23,628** | **190** | **190** |

**Diffyg y cynllun lleol**
Roedd rhwymedigaethau â buddion wedi'u diffinio ar 1 Awst 2020 yn ymwneud â'r rhwymedigaethau dan gynllun pensiwn BUPAS y Brifysgol. Rhoddir rhagor o fanylion yn Nodyn 29.

**Diffyg USS**
Mae'r rhwymedigaeth i ariannu diffyg hanesyddol Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) yn deillio o'r ymrwymiad contract gyda'r USS i ariannu taliadau adfer diffyg yn unol â'r cynllun adfer diffyg. Wrth gyfrifo'r ddarpariaeth hon, mae'r rheolwyr wedi amcangyfrif lefelau staff yn y dyfodol o fewn cynllun yr USS trwy gydol yr ymrwymiad contract a chwyddiant cyflogau.

Ar ôl cwblhau prisiad actiwaraidd 2018, cytunwyd ar gynllun adfer diffyg newydd a cheir rhagor o wybodaeth amdano yn Nodyn 29A. Mae'r cynllun newydd hwn yn gwneud taliadau adfer diffyg o 2% o gyflogau yn ofynnol rhwng 1 Hydref 2019 a 30 Medi 2021 ac yna taliadau o 6% o gyflogau rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Mawrth 2028. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth adfer diffyg wedi gostwng yn sylweddol ers y flwyddyn flaenorol, ac mae £9.2m ohono o ganlyniad i'r newid yn yr ymrwymiad contract o ran cyfraniadau adfer diffyg.

Caiff **rhagdybiaethau allweddol** o ran cyfrifo'r rhwymedigaeth eu hamlinellu isod a darperir gwybodaeth bellach yn Nodyn 29A.

| | **2020** | 2019 |
|---|---|---|
| Cyfradd ddisgowntio | 0.73% | 1.58% |
| Twf cyflogau | 0.00% | 2.00% |

**Dadansoddiad sensitifrwydd**
Fel y nodir yn y polisïau cyfrifo, caiff barn feirniadol ei ffurfio wrth amcangyfrif y rhwymedigaeth ar gyfer ariannu diffyg yr USS. Nodir isod sensitifrwydd y prif dybiaethau a ddefnyddir i fesur darpariaeth diffyg yr USS:

| **Newid mewn tybiaethau ar 31 Gorffennaf 2020** | *Effaith fras £m* |
|---|---|
| Gostyngiad o 0.5% y flwyddyn yn y gyfradd ddisgowntio | 0.5 |
| Cynnydd o 0.5% y flwyddyn mewn chwyddiant cyflogau dros y cyfnod | 0.5 |
| Cynnydd o 0.5% y flwyddyn mewn chwyddiant cyflogau blwyddyn 1 yn unig | 0.1 |
| Cynnydd o 0.5% mewn newidiadau staff dros y cyfnod | 0.5 |
| Cynnydd o 0.5% mewn newidiadau staff blwyddyn 1 yn unig | 0.1 |
| Cynnydd o 1% mewn cyfraniadau adfer diffyg | 3.9 |

***gweler Nodyn 33**

### 22 Cronfeydd gwaddol

| | Gwaddolion parhaol cyfyngedig | Gwaddolion parhaol anghyfyngedig | Gwaddolion gwariadwy cyfyngedig | **2020 Cyfanswm** | 2019 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfunol a Phrifysgol** | **£'000** | £'000 | **£'000** | **£'000** | £'000 |
| **Ar 1 Awst** | | | | | |
| Cyfalaf | 4,352 | 200 | 1,631 | **6,183** | 6,217 |
| Incwm cronedig | 867 | 0 | 53 | **920** | 1,023 |
| | **5,219** | **200** | **1,684** | **7,103** | 7,240 |
| Gwaddolion newydd | 153 | 0 | 160 | **313** | 6 |
| Incwm buddsoddi | 147 | 7 | 54 | **208** | 217 |
| Gwariant | (50) | (7) | (246) | **(303)** | (326) |
| Cynnydd yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchna | 154) | (7) | (57) | **(218)** | (34) |
| Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr gwaddolion am y flwyddyn | 96 | (7) | (89) | **0** | (137) |
| **Ar 31 Gorffennaf** | **5,315** | **193** | **1,595** | **7,103** | 7,103 |
| **Represented by:** | | | | | |
| Cyfalaf | 4,198 | 193 | 1,574 | **5,965** | 6,183 |
| Incwm cronedig | 1,117 | 0 | 21 | **1,138** | 920 |
| | **5,315** | **193** | **1,595** | **7,103** | 7,103 |
| **Dadansoddiad yn ôl ased** | | | | | |
| Buddsoddiadau asedau anghyfredol | | | | **5,796** | 5,955 |
| Arian parod a chywerthoedd arian parod | | | | **1,307** | 1,148 |
| | | | | **7,103** | 7,103 |

### 23 Cronfeydd cyfyngedig eraill

Mae'r cronfeydd gyda chyfyngiadau fel a ganlyn:

| | **2020 Rhoddion** | 2019 Rhoddion |
|---|---|---|
| **Cyfunol a Phrifysgol** | **£'000** | £'000 |
| **Ar 1 Awst** | **580** | 533 |
| Rhoddion newydd | **166** | 186 |
| Incwm buddsoddi | **0** | 0 |
| Gwariant | **(132)** | (139) |
| **Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr cyfyngedig am y flwyddyn** | **34** | 47 |
| **Ar 31 Gorffennaf** | **614** | 580 |

### 24 Arian parod a chywerthoedd arian parod

| | **2020** | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol £'000** | **Prifysgol £'000** | Cyfunol £'000 | Prifysgol £'000 |
| **Ar 1 Awst** | **19,412** | **18,991** | 32,448 | 32,225 |
| Llifoedd arian | 8,281 | 8,098 | (13,036) | (13,234) |
| **Ar 31 Gorffennaf** | **27,693** | **27,089** | 19,412 | 18,991 |

### 25 Cyfalaf ac ymrwymiadau eraill

Nid yw darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer yr ymrwymiadau cyfalaf canlynol ar 31 Gorffennaf 2020:

| | **2020** | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol £'000** | **Prifysgol £'000** | Cyfunol £'000 | Prifysgol £'000 |
| Ymrwymiadau y contractiwyd ar eu cyfer | **135** | **135** | 495 | 495 |
| | **135** | **135** | **495** | **495** |

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

**26 Rhwymedigaethau prydles**

Cyfanswm rhenti taladwy dan brydlesi gweithredol:

| **Cyfunol a Phrifysgol** | **Tir ac adeiladau £'000** | **Prydlesi eraill £'000** | **2020 Cyfanswm £'000** | 2019 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Payable during the year** | 256 | 1,131 | **1,387** | 1,099 |
| **Future minimum lease payments due:** | | | | |
| Not later than 1 year | 259 | 1,122 | **1,381** | 1,106 |
| Later than 1 year and not later than 5 years | 831 | 1,390 | **2,221** | 2,107 |
| Later than 5 years | 14,105 | 0 | **14,105** | 14,294 |
| **Total lease payments due** | **15,195** | **2,512** | **17,707** | 17,507 |

**27 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd**

Ym mis Medi 2020, lansiodd Ymddiriedolwr Cynllun Pensiwn yr USS ymgynghoriad gydag Universities UK ar agweddau allweddol yn ymwneud â phrisiad 2020 y cynllun. Mae'r ymarfer hwn yn rhoi sylw i ystod eang o ganlyniadau posibl, gan ystyried materion sydd eto i'w datrys yn ymwneud â chefnogaeth cyflogwyr yn ogystal ag ansicrwydd i'r sector addysg uwch a'r marchnadoedd ariannol yn gyffredinol ond, yn seiliedig ar y cynigion a gyflwynwyd, mae'r Ymddiriedolwyr wedi nodi y gallai diffyg y gronfa ar 31 Mawrth 2020 amrywio rhwng £9.8bn ac £17.9bn. Byddai hyn yn cynrychioli dirywiad sylweddol o'r diffyg a bennwyd o £3.6bn ym mhrisiad 2018 (y mae'r cynllun adfer cyfredol wedi'i ei seilio arno) gan ddychwelyd i lefelau'r diffyg dan brisiad blaenorol 2017 (£11.8bn). Ar hyn o bryd, nid oes cytundeb ynglŷn â'r canlyniad ac mae gan Ymddiriedolwr yr USS hyd 30 Mehefin 2021 i ddod â'r prisiad i ben. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20, ystyrir hyn fel digwyddiad nad yw'n addasu.

Ym mis Tachwedd 2020 mae dyfarniad yr Uchel Lys mewn perthynas â chydraddoli Isafswm Pensiwn Gwarantedig ar gyfer trosglwyddiadau hanesyddol yn cadarnhau:

- rhwymedigaeth ar ymddiriedolwyr cynlluniau pensiwn i ychwanegu at daliadau trosglwyddo cywerthoedd arian parod hanesyddol a gyfrifwyd yn seiliedig ar fuddion heb eu cydraddoli; a
- bod dim terfyn amser ar y rhwymedigaeth hon sy'n golygu y bydd angen i ymddiriedolwyr ystyried gwerthoedd trosglwyddo a dalwyd cyn belled yn ôl a mis Mai 1990 (h.y. y dyddiad y gwnaed hi'n ofynnol sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn perthynas â buddion pensiwn yn unol â dyfarniad Barber).

Gallai hyn arwain at gynnwys y rhwymedigaeth ychwanegol sy'n deillio o'r dyfarniad hwn fel newid i'r cynllun (cost gwasanaeth yn y gorffennol yn Elw a Cholled) ar 20 Tachwedd 2020.

Nid oedd unrhyw ddigwyddiad ar ôl dyddiad y fantolen i adrodd yn ei gylch.

**28 Gweithgareddau is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig**

| | **Statws** | **Cyfalaf Cyfrannau a Ddelir** | **Gwlad y Cofrestriad** | **Prif Weithgaredd** |
|---|---|---|---|---|
| Canolfan Datblygu Rheolaeth Gogledd Orllewin Cymru Cyf. | 100% | 1 Gyfran Gyffredin £1 | Cymru | Cyrsiau rheolaeth, cynadleddau a llety |
| UNDEB (Trading) Cyfyngedig | 100% | 2 Gyfran Gyffredin £1 | Cymru | Rhai gweithgareddau masnachol i gefnogi Undeb y Myfyrwyr |
| Parc Gwyddoniaeth Menai Cyfyngedig | 100% | 1 Gyfran Gyffredin £1 | Cymru | Datblygu parc gwyddoniaeth |
| The Shellfish Centre | - | Cyfyngedig trwy warant | Cymru | Prosesu pysgod cregyn ac ymchwil |
| Naturiol Bangor Limited<br>Daliad wedi ei gaffael ar gost o £50,000 | 20% | 20 Cyfran Gyffredin £1 | Cymru | Ymchwil i ddeunyddiau naturiol |
| Suprex Limited<br>Daliad wedi ei gaffael ar gost o £36 ar 9 Mehefin 2016 | 40% | 3,600 o Gyfrannau Cyffredin £0.01 | Cymru | Prosesu cemegol a gwasanaethau ymchwil |

Nid yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys Naturiol Bangor Limited, Suprex Limited na The Shellfish Centre gan nad ystyrir bod canlyniadau ac asedau a rhwymedigaethau'r cwmnïau hyn yn berthnasol.

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

**29 Cynlluniau Pensiwn**

Roedd gwahanol gategorïau staff yn gymwys i ymuno ag un o'r cynlluniau a ganlyn:

- Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS)
- Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor 1978 (BUPAS)
- Cynllun pensiwn gweithleoedd y Llywodraeth (NEST)

Mae nifer fechan o staff yn parhau mewn cynlluniau eraill nad ydynt yn agored i aelodau newydd.

**29A Cynllun Pensiwn y Prifysgolion**

Mae'r sefydliad yn rhan o Gynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) sef y prif gynllun i'r rhan fwyaf o staff academaidd ac academaidd-gysylltiedig. Mae'r Cynllun yn gynllun pensiwn hybrid, sy'n darparu buddion wedi'u diffinio (ar gyfer pob aelod), yn ogystal â buddion cyfraniadau wedi'u diffinio. Cedwir asedau'r cynllun mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Oherwydd natur gydfuddiannol y cynllun, ni phriodolir asedau'r cynllun i sefydliadau unigol a phennir cyfradd gyfrannu i'r cynllun yn ei gyfanrwydd. Felly, mae'r sefydliad yn agored i risgiau actiwaraidd yn gysylltiedig â gweithwyr sefydliadau eraill ac ni all bennu ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun ar sail gyson a rhesymol. Fel sy'n ofynnol yn Adran 28 FRS 102 "Buddion Gweithwyr", mae'r sefydliad yn cyfrif am y cynllun fel pe bai'n gynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio. O ganlyniad, mae'r swm a godir ar y Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun. Ers i'r sefydliad ddod i gytundeb (y Cynllun Adfer) sy'n pennu sut y bydd pob cyflogwr o fewn y cynllun yn ariannu'r diffyg cyffredinol, mae'r sefydliad yn cydnabod ei rhwymedigaeth dros y cyfraniadau sy'n daladwy sy'n deillio o'r cytundeb (i'r graddau y maent yn ymwneud â'r diffyg) gyda threuliau cysylltiedig yn cael eu cydnabod trwy Ddatganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr.

Cyfanswm y gost a dalwyd i'r Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr yw £9,486k (2019: £8,359k). Y cyfraniadau adfer diffyg sy'n ddyledus o fewn blwyddyn i'r Sefydliad yw £0.76m (2019 - £0.63m).

Gwnaed y prisiad actiwaraidd llawn diweddaraf o adran Adeiladu Incwm Ymddeol y Cynllun ar 31 Mawrth 2018 (y dyddiad prisio) gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Roedd prisiad ar 31 Mawrth 2020 ar y gweill ond heb ei gwblhau eto.

Gan na all y sefydliad nodi beth yw ei chyfran ei hun o asedau a rhwymedigaethau adran Adeiladu Incwm Ymddeol y cynllun (buddion wedi'u diffinio), mae'r datgeliadau canlynol yn adlewyrchu'r hyn sy'n berthnasol i'r asedau a'r rhwymedigaethau hynny yn eu cyfanrwydd.

Prisiad 2018 oedd y pumed prisiad i'r USS dan y drefn gyllido cynllun-benodol a gyflwynwyd gan Ddeddf Pensiynau 2004. Dan y drefn hon mae angen i gynlluniau fabwysiadu amcan cyllido statudol, sef bod ag asedau digonol a phriodol ar gyfer eu darpariaethau technegol. Ar y dyddiad prisio, roedd gwerth asedau'r cynllun yn £63.7 biliwn ac roedd gwerth darpariaethau technegol y cynllun yn £67.3 biliwn, gan ddynodi diffyg o £3.6 biliwn a chymhareb ariannu o 95%.

Disgrifir y tybiaethau ariannol allweddol a ddefnyddiwyd ym mhrisiad 2018 isod. Nodir rhagor o fanylion yn y Datganiad Egwyddorion Ariannu.

| | |
|---|---|
| Cyfradd ddisgowntio (blaen-gyfraddau) | Blynyddoedd 1-10: CPI - 0.14% gan ostwng yn llinol i CPI - 0.73%<br>Blynyddoedd 11-20: CPI + 2.52% gan ostwng yn llinol i CPI - 1.55% erbyn blwyddyn 21<br>Blynyddoedd 21 +: CPI + 1.55%" |
| Codiadau pensiwn (CPI) | Cyfraddau tymor-ddibynnol yn unol â'r gwahaniaeth rhwng cromliniau cynnyrch Llog Sefydlog a rhai Mynegai Gysylltiedig, llai 1.3% y flwyddyn. |

Mae'r prif dybiaeth ddemograffig a ddefnyddir yn gysylltiedig â thybiaethau marwolaethau. Mae'r tybiaethau hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad o brofiad y cynllun a wnaed fel rhan o brisiad actiwaraidd 2018. Mae'r tybiaethau marwolaethau a ddefnyddir yn y ffigyrau hyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Tabl Sylfaen Marwolaethau | **Cyn ymddeol**<br>71% o AMC00 (hyd 0) yn achos dynion a 112% o AFC00 (hyd 0) yn achos merched.<br>**Ar ôl ymddeol**<br>97.6% o'r SAPS S1NMA yn "ysgafn" yn achos dynion a 102.7% o RFV00 yn achos merched. |
| Gwelliannau i'r sylfaen marwolaethau yn y dyfodol | CMI_2017 gyda pharamedr llyfnhau o 8.5 a chyfradd gwelliant tymor hir o 1.8% y flwyddyn yn achos dynion a 1.6% y flwyddyn yn achos merched. |





**29A Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (parhad)**

Y disgwyliadau oes ar hyn o bryd i rai'n ymddeol yn 65 yw:

| | **2018 Prisiad** | 2017 Prisiad |
|---|---|---|
| Dynion sy'n 65 oed ar hyn o bryd | **24.4** | **24.4** |
| Merched sy'n 65 oed ar hyn o bryd | **25.9** | **25.9** |
| Dynion sy'n 45 oed ar hyn o bryd | **26.3** | **26.3** |
| Merched sy'n 45 oed ar hyn o bryd | **27.7** | **27.7** |

Rhoddwyd cynllun adfer diffyg newydd ar waith fel rhan o brisiad 2018, sy'n gofyn am dalu 2% o gyflogau dros y cyfnod rhwng 1 Hydref 2019 a 30 Medi 2021 pryd y bydd y gyfradd yn cynyddu i 6%, tan 31 Mawrth 2028. Mae'r rhwymedigaeth adfer diffyg yn 2020 yn adlewyrchu'r cynllun hwn.

Cynhyrchwyd ffigyrau'r rhwymedigaeth gan ddefnyddio'r tybiaethau canlynol:

| | **2020** | 2019 |
|---|---|---|
| Cyfradd ddisgowntio | **2.59%** | 2.44% |
| Twf cyflog pensiynadwy | **4.20%** | 2.11% |

Yn y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2019, roedd y rhwymedigaeth yn seiliedig ar y cynllun adfer diffyg blaenorol, a oedd yn gofyn am dalu 5% o gyflogau dros y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 30 Mehefin 2034.

Mae'r gostyngiad yng nghyfnod y cynllun adfer diffyg wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn y ddarpariaeth adfer diffyg sydd wedi gostwng o £30.3 miliwn i £19.4 miliwn fel y nodir yn nodyn 21. Gellir priodoli £9.2 miliwn o'r gostyngiad hwn i'r newid yn yr ymrwymiad contract o ran cyfraniadau adfer diffyg. Gweler hefyd Nodyn costau staff 7 mewn perthynas â chostau / enillion pensiwn sylweddol unwaith ac am byth.

Ym mis Medi 2020, lansiodd Ymddiriedolwr Cynllun Pensiwn yr USS ymgynghoriad gydag Universities UK ar agweddau allweddol yn ymwneud â phrisiad 2020 y cynllun. Mae'r ymarfer hwn yn rhoi sylw i ystod eang o ganlyniadau posibl, gan ystyried materion sydd eto i'w datrys yn ymwneud â chefnogaeth cyflogwyr yn ogystal ag ansicrwydd i'r sector addysg uwch a'r marchnadoedd ariannol yn gyffredinol ond, yn seiliedig ar y cynigion a gyflwynwyd, mae'r Ymddiriedolwyr wedi nodi y gallai diffyg y gronfa ar 31 Mawrth 2020 amrywio rhwng £9.8bn ac £17.9bn.

Byddai hyn yn cynrychioli dirywiad sylweddol o'r diffyg a bennwyd o £3.6bn ym mhrisiad 2018 (y mae'r cynllun adfer cyfredol wedi'i ei seilio arno) gan ddychwelyd i lefelau'r diffyg dan brisiad blaenorol 2017 (£11.8bn).

Ar hyn o bryd, nid oes cytundeb ynglŷn â'r canlyniad ac mae gan Ymddiriedolwr yr USS hyd 30 Mehefin 2021 i ddod â'r prisiad i ben. Fel arwydd cynnar o faint yr effaith, amcangyfrifwyd y gallai cost parhau i gynnig y buddion cyfredol yn y cyd-destun hwn gyrraedd rhwng 40.8% a 67.9% o'r gyflogres. Fodd bynnag, dim ond enghraifft yw'r amrediad hwn a wneir cyn bod unrhyw fesurau eraill yn cael eu hystyried i leihau'r diffyg ac mae hyn yn dal i gael ei drafod yn eang ar draws y sector a chan Ymddiriedolwr y Cynllun Pensiwn. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 fodd bynnag, ystyrir hyn fel digwyddiad nad yw'n addasu.

Mae prisiad llawn pellach ar 31 Mawrth 2020 ar y gweill ar hyn o bryd. Gan mai dim ond yn ddiweddar y mae'r prisiad wedi cychwyn, mae gwaith i'w wneud o hyd yn cytuno ar dybiaethau'r darpariaethau technegol, maint y risg buddsoddi yn y dyfodol, hyd y cyfnod adfer diffyg a lefel y cyfraniadau adfer diffyg. Mae newid rheolau mewn perthynas â chryfhau cyfamod y cyflogwr hefyd ar y gweill gan gynnwys cyfyngiadau ar allanfeydd cyflogwyr, monitro dyledion a threfniadau pari passu. Rhaid cwblhau'r prisiad erbyn 30 Mehefin 2021. Fodd bynnag, mae disgwyl cyffredinol y bydd cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth adfer diffyg ar 31 Gorffennaf 2021 (gan dybio y bydd y prisiad wedi'i gwblhau erbyn hynny).

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

**29B Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor 1978 (BUPAS)**

Mae'r Brifysgol yn gweithredu cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio i staff ategol a staff cefnogi, sef Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor 1978 (BUPAS). Ariennir y cynllun yn allanol a chafodd ei all-gontractio o Ail Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth (S2P) tan 31 Mawrth 2016.

Gwnaed y prisiad actiwaraidd diweddaraf ar 1 Awst 2017 ac fe'i diweddarwyd at ddiben IAS19, Buddion Gweithwyr, hyd at 1 Awst 2020 gan actiwari cymwysedig proffesiynol.

Yn ystod y flwyddyn, talodd y Brifysgol gyfraniadau i'r cynllun pensiwn ar gyfradd o 19.5% (2019: 19.5%).

Cyfanswm cost y cyfraniadau a dalwyd gan y Brifysgol oedd £1,854k (2019: £1,832k). Talodd y Brifysgol gyfraniad pellach o £0k (2019: £200k) tuag at gynllun adfer diffyg y cynllun. Bydd cyfraniadau'r Brifysgol yn y dyfodol i'r cynllun adfer diffyg yn cael eu pennu fel rhan o brisiad 2020 a fydd yn digwydd yn gynnar yn 2021.

**Tybiaethau**

Y tybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd i gyfrifo rhwymedigaethau'r cynllun dan FRS102 yn y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf yw:

| | **2020** | 2019 |
|---|---|---|
| | **% y flwyddyn** | % y flwyddyn |
| Chwyddiant prisiau (RPI) | **2.85%** | 3.40% |
| Chwyddiant prisiau (CPI) | **2.05%** | 2.40% |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflogau | **3.15%** | 3.70% |
| Cyfradd cynnydd pensiynau a delir i aelodau BUPAS | **1.95%** | 2.25% |
| Cynnydd i bensiynau gohiriedig cyn ymddeoliad | **2.05%** | 2.40% |
| Cyfradd ddisgowntio | **1.35%** | 2.10% |

Y dybiaeth anariannol fwyaf arwyddocaol yw lefel dybiedig hirhoedledd. Mae'r tabl isod yn dangos y tybiaethau disgwyliad oes a ddefnyddiwyd yn yr asesiadau cyfrifo ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf yn seiliedig ar ddisgwyliad oes aelodau gwrywaidd a benywaidd yn 65 oed.

| | **2020** | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Gwrywod** | **Benywod23.8** | Dynion | Merched |
| Aelod 65 oed yn ymddeol heddiw | **20.7** | **25.3** | 20.6 | 23.6 |
| Aelod 45 oed yn ymddeol ymhen 20 mlynedd | **22.1** | | 22.0 | 25.1 |

| **Roedd prif gategorïau asedau'r cynllun fel a ganlyn:** | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Ecwitïau | **101,483** | 111,820 |
| Buddsoddiadau ar sail rhwymedigaethau | **36,520** | 26,374 |
| Eiddo | **5,987** | 6,283 |
| Arian parod | **24,278** | 18,542 |
| **Cyfanswm gwerth asedau ar y farchnad** | **168,268** | 163,019 |

Nid oes gan y cynllun unrhyw fuddsoddiadau yn y Brifysgol neu mewn unrhyw eiddo a ddefnyddir gan y Brifysgol.

| **Incwm / llog cyllid net sy'n cael ei gydnabod o fewn cost ac incwm cyllid:** | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Incwm llog | **3,406** | 3,927 |
| Traul llog | **(3,247)** | (3,684) |
| **Cyfanswm** | **132** | 243 |

Yr adenillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun pensiwn oedd enillion o £3.48m (2019: £14.45m)

**Y symiau sy'n cael eu cydnabod mewn incwm cynhwysfawr yw:**

| **Cost gwasanaeth:** | | |
|---|---|---|
| Cost gwasanaeth gyfredol (yn net o gyfraniadau gweithwyr) | **3,401** | 2,938 |
| Treuliau gweinyddu | **382** | 394 |
| Colled/(Enillion) ar gyflwyniadau, newidiadau, cwtogiadau a setliadau i'r cynllun | **0** | 1,164 |
| Traul llog net/(credyd) | **(132)** | (243) |
| Effaith terfyn ased ar gredyd llog | **0** | 0 |
| **Tâl/(credyd) sy'n cael ei gydnabod yn yr incwm cynhwysfawr** | **3,651** | 4,253 |

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

**29B Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor 1978 (parhad)**

| Y symiau sy'n cael eu cydnabod mewn incwm cynhwysfawr (parhad) | **2019/20 £'000** | 2018/19 (Ailddatganwyd*) £'000 |
|---|---|---|
| **Ailfesur rhwymedigaethau net:** | | |
| Adenillion ar asedau'r cynllun (ac eithrio swm wedi'i gynnwys mewn traul llog net) | **(3,477)** | (14,451) |
| (Enillion)/Colled Actiwaraidd | **13,743** | 16,421 |
| **Tâl/(credyd) a gofnodir mewn incwm cynhwysfawr arall** | **10,266** | 1,970 |
| | | |
| **Dadansoddiad o'r swm a ddangosir yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol:** | | |
| *Cysoni Asedau* | | |
| Ar 1 Awst | **163,019** | 146,216 |
| Buddion a dalwyd | **(4,400)** | (4,506) |
| Treuliau gweinyddu | **(383)** | (394) |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | **3,093** | 3,251 |
| Cyfraniadau gweithwyr | **55** | 74 |
| Incwm llog | **3,406** | 3,927 |
| Adenillion ar asedau | **3,477** | 14,451 |
| **Ar 31 Gorffennaf** | **168,267** | 163,019 |
| | | |
| *Cysoni Rhwymedigaethau* | | |
| Ar 1 Awst | **(156,398)** | (136,623) |
| Buddion a dalwyd | **4,400** | 4,506 |
| Cost gwasanaeth | **(3,401)** | (2,938) |
| Cyfraniadau gweithwyr | **(55)** | (74) |
| Traul llog | **(3,274)** | (3,684) |
| Colled Actiwaraidd ar Rwymedigaethau | **(13,743)** | (16,421) |
| (Enillion)/Colled ar gyflwyniadau a newidiadau i'r cynllun | **0** | (1,164) |
| **Ar 31 Gorffennaf** | **(172,471)** | (156,398) |
| | | |
| **Pensiwn net a gariwyd ymlaen (rhwymedigaeth/darpariaeth) (Nodyn 20)** | **(4,204)** | 6,621 |

*Gweler Nodyn 33

Wrth gyfrifo cynllun pensiwn BUPAS arweiniodd hynny at gydnabod tâl ychwanegol o £0m (2019 - £1.364m) i gostau staff a chredyd o £0.132m (2019 - £ (0.243m) i incwm llog.

**30 Trafodion partïon cysylltiedig**

Wedi eu cynnwys yn y datganiadau ariannol mae trafodion ariannol gyda'r partïon cysylltiedig canlynol lle nad oes gan y Brifysgol fudd rheolaethol. Cynhelir yr holl drafodion o hyd braich ac yn unol â Rheoliadau Ariannol y Brifysgol a threfn caffael arferol. Nodir isod werth y trafodion hyn a adlewyrchir yn y cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2020.

| **Sefydliad** | Nodyn | **Incwm £'000** | **Gwariant £'000** | **Dyledus oddi wrth/(i) ar 31 Gorffennaf 2020 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor | 15 | 146 | 1,502 | 0 |
| P&O Maritime Ocean Sciences Ltd | | 53 | 1,229 | 220 |

Datgelir trafodion eraill â phartïon cysylltiedig sy'n ymwneud ag aelodau o Gyngor y Brifysgol o dan Nodyn 7

**31 Bwrsariaethau**

Y Brifysgol yw'r asiant talu ar ran y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â bwrsariaethau a threuliau sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio nyrsio a hyfforddiant athrawon. Y symiau a dalwyd yw:

| | **2019/20 £'000** | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| Nyrsio | **4,797** | 4,723 |
| Hyfforddiant Athrawon | **401** | 345 |
| | **5,198** | 5,068 |

Mae'r bwrsariaethau a'r alldaliadau cysylltiedig wedi eu heithrio o'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

### 32 Offerynnau Ariannol

| | Nodyn | 2020 | | 2019 | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau ariannol** | | **Cyfunol £'000** | **Prifysgol £'000** | Cyfunol £'000 | Prifysgol £'000 |
| ***Asedau ariannol wedi'u mesur ar gost:*** | | | | | |
| Arian parod a chywerthoedd arian parod | 24 | **27,693** | **27,089** | 19,412 | 18,991 |
| ***Asedau ariannol wedi'u mesur ar werth teg:*** | | | | | |
| Buddsoddiadau Anghyfredol | 14 | **5,796** | **5,796** | 5,955 | 5,955 |
| ***Asedau ariannol wedi'u mesur ar gost llai amhariad:*** | | | | | |
| Buddsoddiadau Anghyfredol | 14 | **83** | **213** | 83 | 213 |
| Symiau masnach derbyniadwy | 17 | **13,270** | **13,083** | 11,362 | 10,528 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 17 | **12,336** | **18,927** | 10,295 | 16,946 |
| | | **59,178** | **65,108** | 47,107 | 52,633 |
| **Rhwymedigaethau ariannol** | | | | | |
| ***Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar gost:*** | | | | | |
| Symiau masnach a symiau taladwy eraill | 18/19 | **30,153** | **29,622** | 29,077 | 28,121 |
| ***Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio:*** | | | | | |
| Benthyciadau | 18/19 | **40,434** | **40,434** | 42,628 | 42,628 |
| Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth | 18/19 | **63,344** | **63,344** | 64,783 | 64,783 |
| Prydlesi cyllidol | 18/19 | **982** | **982** | 12 | 12 |
| | | **134,913** | **134,382** | 136,500 | 135,544 |

Ceir crynodeb isod o'r incwm a'r gwariant mewn perthynas â'r offerynnau ariannol:

| | | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm incwm buddsoddi asedau ariannol ar gost | 5 | **338** | **412** | 303 | 450 |
| Cyfanswm incwm buddsoddi asedau ariannol ar werth teg | 5 | **207** | **207** | 217 | 217 |
| Cyfanswm gwariant llog ar gyfer rhwymedigaethau ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio | 8 | **5,333** | **5,155** | 5,365 | 5,247 |

Mae'r Brifysgol yn ymgymryd yn bennaf â thrafodion nad ydynt yn gymhleth neu rai tymor byr gan olygu y defnyddir offerynnau ariannol sylfaenol. O'r herwydd, mae'r Brifysgol o'r farn bod y risg sy'n gysylltiedig â'r asedau a'r rhwymedigaethau a amlinellir uchod yn gymharol isel. Mae'r asedau ariannol a fesurir ar gost yn bennaf ar ffurf arian parod neu gywerthoedd arian parod a ddelir gyda sefydliadau ariannol ar adnau. Mae asedau ariannol a fesurir ar werth y farchnad yn agored i'r risg y bydd newid ym mhrisiau'r farchnad. Rheolir y rhain yn weithredol gan reolwyr cronfeydd proffesiynol yn unol â strategaeth fuddsoddi a bennwyd gan y Brifysgol.

I gael rhagor o fanylion ynglŷn â'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â benthyciadau, cyfeiriwch at Nodyn 20.

### 33 Addasiad Cyfnod Blaenorol

Yn hanesyddol nid yw'r Brifysgol wedi cydnabod y gwarged actiwaraidd yng Nghynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor 1978 (BUPAS). Fodd bynnag, gan fod y gost gwasanaeth gyfredol wedi bod yn fwy na chyfraniadau'r cyflogwr, o dan FRS102, mae angen cydnabod cyfran o'r gwarged yn awr. Mae hyn yn cyfateb i'r diffyg yn y cyfraniadau at y gost gwasanaeth, wedi'i gyfalafu ar gyfer oes weithredol y cynllun yn y dyfodol. O ganlyniad, mae cymariaethau'r flwyddyn flaenorol ar 31 Gorffennaf 2019 wedi'u hailddatgan i gynnwys y gwarged yng nghynllun BUPAS. Mae'r tablau canlynol yn crynhoi'r effaith ar y datganiadau ariannol Cyfunol a Phrifysgol.

**Datganiad Sefyllfa Ariannol ar 31 Gorffennaf 2019**

| | **Fel yr adroddwyd yn flaenorol** | | **Addasiad** | **Fel yr ailddatganwyd** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol £'000** | **Prifysgol £'000** | **£'000** | **Cyfunol £'000** | **Prifysgol £'000** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | 353,678 | 353,696 | **-** | **353,678** | **353,696** |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn | (103,460) | (103,269) | **-** | **(103,460)** | **(103,269)** |
| **Darpariaethau** | | | | | |
| Darpariaethau pensiwn | (30,329) | (30,329) | **6,621** | **(23,708)** | **(23,708)** |
| Darpariaethau eraill | (738) | (738) | **-** | **(738)** | **(738)** |
| **Cyfanswm asedau net** | 219,151 | 219,360 | **6,621** | **225,772** | **225,981** |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | | | | | |
| Cronfa gwaddol | 7,103 | 7,103 | **-** | **7,103** | **7,103** |
| Cronfa incwm a gwariant | 580 | 580 | **-** | **580** | **580** |
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | | | | |
| Cronfa incwm a gwariant | 211,468 | 211,677 | **6,621** | **218,089** | **218,298** |
| **Cyfanswm cronfeydd** | 219,151 | 219,360 | **6,621** | **225,772** | **225,981** |

**Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfunol a Phrifysgol 2018/19**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **(Diffyg)/Gwarged am y flwyddyn** | (19,841) | (19,773) | **-** | **(19,841)** | **(19,773)** |
| Symudiad yn y Ddarpariaeth Pensiwn | 1,261 | 1,261 | **(3,231)** | **(1,970)** | **(1,970)** |
| **Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr am y flwyddyn** | (18,580) | (18,512) | **(3,231)** | **(21,811)** | **(21,743)** |

# DATGANIAD BUDD CYHOEDDUS
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

Mae Prifysgol Bangor yn Elusen Gofrestredig (rhif 1141565) yn unol â thelerau Deddf Elusennau 2011. Wrth bennu ac adolygu amcanion a gweithgareddau'r Brifysgol, mae'r Brifysgol wedi ystyried cyfarwyddyd y Comisiwn Elusennau ar adrodd ar fudd cyhoeddus, ac yn arbennig ei gyfarwyddyd atodol ynglŷn â budd cyhoeddus ar hyrwyddo addysg.

Mae Prifysgol Bangor yn sefydliad cryf a hyderus a gaiff ei gydnabod yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel canolfan ragoriaeth am ei bortffolio amrywiol o addysgu ac ymchwil, ac am y profiad unigryw, amlddiwylliannol a chynhwysol y mae'n ei roi i staff a myfyrwyr. Sefydlwyd y Brifysgol o ganlyniad uniongyrchol i ymgyrch gan gymunedau yng Ngogledd Cymru am ddarpariaeth addysg uwch i'r rhanbarth. Wedi'i sefydlu gan gefnogaeth leol sylweddol, yn ariannol ac fel arall, mae'r Brifysgol yn parhau i ymfalchïo yn ein swyddogaeth fel aelod o'r gymuned ac yn ein treftadaeth ddwyieithog.

### ADDYSG A PHROFIAD RHAGOROL I FYFYRWYR
Mae'r Brifysgol yn rhoi addysg uwch i fwy na 11,000 o fyfyrwyr mewn ystod eang o ddisgyblaethau yn y celfyddydau a'r dyniaethau, gwyddorau cymdeithas, gwyddorau naturiol, gwyddorau ffisegol, iechyd ac addysg.

Mae'r Brifysgol yn derbyn myfyrwyr a all ddangos eu gallu i fanteisio ar addysg uwch – beth bynnag fo eu cefndir ariannol, cymdeithasol, crefyddol neu ethnig. Rydym yn diogelu mynediad teg ac yn dal gafael ar ragor o fyfyrwyr drwy ddarparu bwrsariaethau, ysgoloriaethau a chynlluniau caledi i rai sy'n gadael gofal ac i'r digartref.

Mae'r Brifysgol yn gweithio gydag ysgolion i godi dyheadau addysgol ac ymwybyddiaeth grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol; trwy adnabod unigolion sydd â photensial, a datblygu sgiliau i baratoi myfyrwyr ar gyfer Addysg Uwch.

Mae gweithgareddau allgyrsiol a gwirfoddoli yn datblygu unigolion, yn gwella eu cyflogadwyedd, ac yn hyrwyddo ymwneud â'r gymuned. Mae'r Brifysgol yn caniatáu i'w myfyrwyr ymuno am ddim â'r holl glybiau chwaraeon, cymdeithasau a gweithgareddau gwirfoddoli, waeth beth fo gallu'r myfyriwr i dalu.

Ym maes addysgu a dysgu, mae'r Brifysgol yn darparu cwricwlwm deniadol sy'n addas i'r diben gyda rhaglenni academaidd o ansawdd uchel, cyfleusterau addysgu rhagorol ac ystod eang o wasanaethau cefnogi (gan gynnwys cyngor academaidd, ariannol, bugeiliol, ysbrydol a gyrfaoedd). Mae ein rhaglenni'n adlewyrchu ein h ymrwymiad i sicrhau bod ein myfyrwyr yn ddinasyddion byd-eang.

### GWELLA LLWYDDIANT YMCHWIL
Mae'r ymchwil a wneir ym Mhrifysgol Bangor yn cael effaith sylweddol ar yr economi ac ar fywydau pobl o ledled y byd. Mae ein hymchwil yn cael ei lledaenu drwy gyhoeddi llyfrau a phapurau, a thrwy ddarlithoedd a chyflwyniadau mewn cynadleddau.

Mae cyfleoedd i wneud astudiaethau ac ymchwil ôl-radd (gan gynnwys darparu efrydiaethau) ar gael ym mhob ysgol academaidd. Mae'r Brifysgol hefyd yn darparu gwasanaethau i ddiwydiant a masnach, trwy gefnogi mentrau (er enghraifft, Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth – ceir bron 100 ohonynt – gyda gwahanol fusnesau yng Ngogledd Cymru a thu hwnt), cymorth gyda datblygu cynnyrch newydd, hyrwyddo a chefnogi cwmnïau deilliedig, masnacheiddio syniadau ac ecsbloetio eiddo deallusol.

### PRIFYSGOL RYNGWLADOL I'R RHANBARTH
Caiff Prifysgol Bangor ei rhestru ymysg 200 o'r prifysgolion mwyaf rhyngwladol yn fyd-eang a hi yw'r fwyaf rhyngwladol yng Nghymru. Mae'r Brifysgol yn darparu cymuned ryngwladol lewyrchus ac yn estyn croeso i staff a myfyrwyr o fwy na 100 o wledydd ledled y byd, gan ddarparu profiad unigryw Bangor i fyfyrwyr rhyngwladol. Mae'r Brifysgol yn gweithio gyda phartneriaid ledled y byd, gan gynnwys sefydlu Coleg Bangor yn Tsieina yn ddiweddar.

Caiff cyflogadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang eu cryfhau gan gwricwlwm rhyngwladol y Brifysgol a thrwy hyrwyddo a chefnogi myfyrwyr i ehangu eu gorwelion daearyddol, gan ganiatáu i bob myfyriwr gael profi cyfnod dramor fel rhan o'u rhaglen academaidd.

### YR IAITH A'R DIWYLLIANT CYMRAEG A CHYSYLLTIADAU DINESIG
Mae'r Brifysgol yn arwain ym maes darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Mae'r Brifysgol yn mynd ati i annog myfyrwyr cyfrwng Cymraeg i ddilyn eu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Ceir Llyfrgell helaeth ac mae gan yr adran Archifau statws 'Man Cadw Cofnodion Cyhoeddus'. Rhennir llyfrau a chasgliadau'r Llyfrgell â'r cyhoedd oddi allan i'r Brifysgol trwy gynlluniau megis 'Linc y Gogledd', sy'n golygu bod adnoddau Llyfrgell y Brifysgol ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus lleol yng Ngogledd Cymru.

Mae'r Brifysgol hefyd yn hyrwyddo datblygiad diwylliannol trwy ei rhaglen o Ddarlithoedd Cyhoeddus, rhaglen o gerddoriaeth a dramâu, ac Amgueddfa ac Oriel Gelf, ynghyd â chasgliad celf o bwys, a chasgliadau unigryw gan gynnwys cerameg, offerynnau cerdd, a sbesimenau astudiaethau natur.

Mae Pontio, Canolfan Celfyddydau ac Arloesi newydd, gwerth £50m, wedi cael ei chwblhau yn ddiweddar. Mae'n cynnwys theatr, theatr stiwdio, sinema, darlithfeydd mawr a chanolfan arloesi, man perfformio awyr agored, yn ogystal â chaffis, bariau a chynteddau sy'n agored i'r cyhoedd. Mae'n gwneud cyfraniad enfawr i ddatblygiad diwylliannol, economaidd a chymdeithasol. Mae'r brifysgol hefyd yn darparu dosbarthiadau a chyfleusterau chwaraeon o ansawdd uchel i'r gymuned leol.

Mae ystad y Brifysgol yn cynnwys bron i 150 o adeiladau, yn cynnwys 14 o adeiladau rhestredig (gydag un ohonynt yn adeilad rhestredig gradd 1 sydd o bwysigrwydd hanesyddol).

### YMRWYMIAD I GYNALIADWYEDD A'R AMGYLCHEDD
Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gynaliadwyedd nid yn unig yng nghyd-destun ein hamgylchedd naturiol cyfoethog, ond hefyd o ran cydlyniant cymdeithasol, sefydlogrwydd ariannol ac effeithlonrwydd adnoddau. Mae cynaliadwyedd yn un o'n galluogwyr strategol ac rydym yn cyfrannu at nodau Llywodraeth Cymru o ran llesiant cenedlaethau'r dyfodol a nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.





Adlewyrchir ymrwymiad Bangor i gynaliadwyedd yn ei pholisi amgylcheddol, sy'n datgan "Byddwn nid yn unig yn ceisio diogelu ein hamgylchedd naturiol, ond hefyd yn mynd ati i geisio cyfleoedd i'w wella, gan hyrwyddo diwylliant o fod yn stiwardiaid yr amgylchedd ymysg ein staff a'n myfyrwyr a gweithio tuag at nodau datblygu cynaliadwy." Rydym wedi cynnal ein System Rheoli Amgylcheddol ISO14001.2015. Dangosodd yr uwch reolwyr arweinyddiaeth ac ymrwymiad mewn perthynas â'r System Rheoli Amgylcheddol trwy benodi Ysgrifennydd y Brifysgol, ar ran y Pwyllgor Gweithredu, i gadeirio'r Grŵp Tasg Cynaliadwyedd, sy'n gosod cyfeiriad strategol ac yn atebol am effeithiolrwydd y system rheoli amgylcheddol trwy graffu ar yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol. Yn y flwyddyn adrodd, roedd Rheoli Gwastraff yn parhau i fod yn ffocws i'r Lab Cynaliadwyedd ac i dîm Perfformiad Amgylcheddol y Campws. Cynhelir sesiynau hyfforddi, cyflwyniadau a gweithdai i fyfyrwyr drwy gydol y flwyddyn ac mae'r Wythnos Ymwybyddiaeth Gwastraff, a gynhaliwyd ym mis Hydref 2018, bellach yn ddigwyddiad blynyddol. Bu gostyngiad o 2% yng nghyfanswm y gwastraff a gynhyrchwyd, cynnydd o 14% yn y deunydd a gafodd ei ailgylchu a chynnydd o 47% mewn rhoddion i'r British Heart Foundation. Nid yw'r Brifysgol yn anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi. Bu gostyngiad o 5.5% yng nghyfanswm yr ynni a ddefnyddiwyd a gostyngiad o 9% o ran defnydd fesul m$^2$ a fesul CALl (myfyrwyr a staff). Cynhyrchwyd mwy na 87,000kWh o drydan gan baneli solar a bu gostyngiad o 8% o ran yr allyriadau nwyon Tŷ Gwydr y mae'n rhaid adrodd yn eu cylch. Gweithiodd y tîm gyda llawer o gydweithredwyr yn fewnol ac yn allanol gyda Chyngor Gwynedd, Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff a'r British Heart Foundation.

Mae bioamrywiaeth yn ffocws arall. Mae gan gynefinoedd ar ein tiroedd werth addysgol, cymdeithasol, diwylliannol, hamdden ac amgylcheddol i fyfyrwyr, staff a'r gymuned ehangach. Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth newydd yn ceisio hyrwyddo bioamrywiaeth ym mhob cynefin ar y campws ac integreiddio bioamrywiaeth yn rhan o'n dulliau gweithredu wrth i ni gynnal ein busnes. Mae'r gwaith estyn allan yng Ngardd Fotaneg Treborth yn parhau.

### YMRWYMIAD I GYNALIADWYEDD DRWY EIN POLISI BUDDSODDI
Mae'r Brifysgol, drwy is-bwyllgor o'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth, wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r Polisi Buddsoddi Cynaliadwy sy'n berthnasol i'r cronfeydd gwaddol sy'n cael eu rheoli ar ei rhan gan UBS. Mae'r polisi'n sicrhau bod y Brifysgol yn gwneud y gorau o'i hadenillion buddsoddi heb gyfaddawdu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae hyn yn golygu cynnal sgrinio cadarnhaol a negyddol ar bob cwmni i weld a ydynt yn cydymffurfio â safonau moesegol a chymdeithasol gyfrifol, gan gynnwys osgoi gweithgareddau sy'n niweidiol i'r amgylchedd neu i les eu gweithlu. Mae eithriadau penodol hefyd ar gyfer meysydd megis arfau, alcohol, gamblo, tybaco ac ati. Nid yw'r Brifysgol yn buddsoddi mewn tanwyddau ffosil echdynnol. Gellir dod o hyd i gopi o'r polisi yn:

**https://www.bangor.ac.uk/finance/pl/documents/SIPBU-Cym**

# DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR MEWN PERTHYNAS Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2020

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Adolygiad Strategol a'r datganiadau ariannol cyfunol yn unol â gofynion Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a chyfraith a rheoliadau perthnasol.

Mae'n ofynnol iddynt baratoi datganiadau ariannol ar gyfer y grŵp a'r rhiant-brifysgol yn unol â safonau cyfrifo'r Deyrnas Unedig a chyfraith berthnasol (yr arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig), gan gynnwys FRS 102 y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon. Mae'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd yn ei gwneud yn ofynnol bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi'n unol â Statement of Recommended Practice – Accounting for Further and Higher Education 2019, yn unol â gofynion y Cyfarwyddyd i Sefydliadau Addysg Uwch ynglŷn â'u Cyfrifon a gyhoeddwyd gan HEFCW. Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r grŵp a'r rhiant-brifysgol ac o'u hincwm a'u gwariant, enillion a cholledion a newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi pob un o ddatganiadau ariannol y grŵp a'r rhiant-brifysgol, mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- ddewis polisïau cyfrifo addas, ac yna'u defnyddio'n gyson;
- dod i farn ac amcangyfrif mewn modd sy'n rhesymol a doeth;
- datgan a yw safonau cyfrifo perthnasol y Deyrnas Unedig wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau materol berthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y datganiadau ariannol;
- asesu gallu'r grŵp a'r rhiant-brifysgol i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw; a
- defnyddio sail cyfrifo busnes hyfyw oni bai eu bod naill ai'n bwriadu datod y grŵp neu'r rhiant-brifysgol neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt unrhyw ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo sy'n ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion y rhiant-brifysgol a datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y rhiant-brifysgol a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a safonau cyfrifo perthnasol eraill. Nhw sy'n gyfrifol am unrhyw gamau rheoli mewnol sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw i alluogi paratoi datganiadau ariannol lle na cheir camddatganiad materol berthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac yn gyfrifol yn gyffredinol dros gymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol agored iddynt i ddiogelu asedau'r grŵp ac i atal a chanfod twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol o dan y Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd am:

- mae arian o ba ffynhonnell bynnag a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi'u defnyddio'n briodol at y dibenion hynny ac wedi'u rheoli'n unol â deddfwriaeth berthnasol;
- sicrhau mai dim ond ar gyfer y dibenion y rhoddwyd ef y defnyddir cyllid gan HEFCW a chyrff cyllido eraill, ac yn unol â'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd ac unrhyw amodau eraill y gallai HEFCW eu pennu o bryd i'w gilydd;
- sicrhau fod camau rheoli ariannol priodol ar waith i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian o ffynonellau eraill;
- sicrhau rheolaeth ddarbodus, effeithlon ac effeithiol dros adnoddau a gwariant y Brifysgol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol a geir ar wefan y Brifysgol ac am ei chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig yn ymwneud â pharatoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Prifysgol Bangor
Bangor, Gwynedd, LL57 2DG

Ffôn:: 01248 351151
Mae Prifysgol Bangor yn elusen gofrestredig: rhif 1141565

W W W . B A N G O R . A C . U K